

4.2 miliwn  
o blant yn byw  
mew tlodi yn y DU

anfanteision  
i de

# Gyda'n gilydd



**Gweithredu  
dros Blant**

toriadau

caledi a

plant yn my  
y niwed  
tawel

# disgleiriwn

**Adroddiad Blynyddol 2022/23**

mwy o bobl yn ca

mau iechyd meddwl cy

# Cynnwys

- 3 Rhagarweiniad
- 4 Croeso gan ein Cadeirydd, Sarika
- 5 Helo gan ein Prif Weithredwr, Paul
- 6 Uchafbwyntiau y 12 mis diwethaf
- 10 Amdanom ni
- 12 Mwy o blant diogel ac hapus
- 13 Darparu ein saith nod strategol
- 14 Cyd-destun 2022/2
- 15 Gwasanaeth hanfodol i deuluoedd
- 16 Nodau 1-7
- 46 Ein ffocws yn 2023-24
- 47 Adolygiad ariannol
- 52 Rheoli risg
- 57 Strwythur cyfreithiol a llywodraethu
- 59 Gweithio'n gynladwy – adrodd ar garbon
- 60 Dyletswyddau'r ymddiriedolwyr o dan adran 172 y Ddeddf Cwmnïau
- 63 Datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr
- 67 Datganiadau ariannol
- 95 Ein manylion cyfreithiol a gweinyddol
- 97 Ein diolch
- 101 Dogfennau cyfeiriol
- 102 Cymryd rhan

## Plentyndod hapus a diogel



Mae Gweithredu dros Blant yn amddiffyn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu gofal ymarferol ac emosiynol, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac ymgyrchu i wella eu bywydau'n barhaol.

## Safe and happy childhood

Action for Children protects and supports children and young people, providing practical and emotional care and support, ensuring their voices are heard, and campaigning to bring lasting improvements to their lives.





4.2 miliwn  
o blant yn byw  
mew tloedi yn y DU

anfanteision maw  
deulu

toriadau

caledi

plant yn my

# Rhagarweiniad

y niwedd

tawel

mwy o bobl yn ca

au iechyd medd

flaen

ou

l i gyd i b

yau'n

ein

y dod

# Croeso

## g an Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Sarika

**Dw i wrth fy modd gyda phenodiad ein Prif Weithredwr, Paul Carberry, sy'n dod â llawer iawn o wybodaeth sefydliadol gyda fo. Nid yw'n amser hawdd i unrhyw sefydliad, o ystyried yr holl ansicrwydd a'r amgylchedd 'macro'. Mae'r Bwrdd yn llwyr ymwybodol o faint y dasg o sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant. Dw i'n ffyddiog y bydd Paul yn gweithredu ein strategaeth, hyrwyddo agenda dwf a pharhau'r gwaith o geisio sefydlogi ein sefyllfa ariannol.**

Rydwi a'r Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i'n Prif Weithredwr blaenorol, Melanie Armstrong. Dymunwn y gorau iddi i'r dyfodol.

Mae wedi bod yn 12 mis anodd arall, gan daro ein teuluoedd bregus galetaf. Er hynny rydym yn gwbl benderfynol. Mae ein twf preswyl yn parhau gydag ail gartref plant yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a dau arall ar y gweill i gael eu hagor erbyn diwedd y flwyddyn. Bwriadwn hefyd barhau i ehangu yng Nghymru ac rydym wrthi'n gwneud gwaith paratoi yng Nghanolbarth Lloegr wrth achub ar gyfleoedd preswyl newydd yn yr amgylchedd comisiynu.

Rydym yn parhau i fod yn llais dros blant. Ym Mehefin fe wnaethom helpu i drefnu 'It's Our Care Day' gan ddod â 90 o blant gyda phrofiad gofal i San Steffan i holi eu barn am y system ofal gydag ASau a gweinidogion.

Dw i'n falch o fod wedi recriwtio Llysgenhadon Ifanc i helpu i dywys ein gwaith i'r dyfodol.

Drwy weithio â'r John Lewis Partnership, roedd eleni'n garreg filltir drwy roi plant mewn gofal, a gyda phrofiad gofal, ar yr agenda genedlaethol. Roedd adolygiad annibynnol Josh MacAlister o ofal cymdeithasol i blant, a gyhoeddwyd ym Mai 2022, yn arwydd o addewid mawr. Mae'n galw am fuddsoddi a diwygio polisi er mwyn rhoi blaenoriaeth i gymorth cynnar a lleihau faint o blant sy'n cael eu rhoi mewn gofal. Dynodai newid pwysig yn y drafodaeth gyhoeddus dan arweiniad Gweithredu dros Blant drwy ymchwil, dylanwadu ar waith a'n harweinyddiaeth o'r sector. Yr her i ni o hyn ymlaen yw troi parodrwydd y llywodraeth i dderbyn y canfyddiadau hyn yn weithredu a newid go iawn i blant. Rydym yn parhau i ddylanwadu ar weithredu'r adolygiad gofal yn yr Alban ac wedi cyfrannu at yr Adolygiad

Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant yng Ngogledd Iwerddon.

Mae ein staff triw ac ymroddgar, ynghyd â'n gwirfoddolwyr bendigedig, yn gweithredu ein pedwar conglaen strategol; cymorth i deuluoedd, plant mewn gofal, plant anabl, ac iechyd meddwl a lles. Mae angen y gwasanaethau hyn fwy nag erioed, yn enwedig wrth i awdurdodau lleol orfod gwneud dewisiadau anodd ar sut i wario eu hadnoddau prin.

Mae cadw a recriwtio'r staff gorau'n parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn ymrwymedig i newid pethau er gwell drwy ein pobl. Dw i'n arbennig o falch bod y sefydliad wedi ennill statws arian 'Buddsoddwyr mewn Pobl' eleni – llwyddiant anferth fydd yn denu staff newydd. Rydym yn creu diwylliant cynhwysol ac amrywiol a chefnogwn ein holl gydweithwyr i gyfrannu'n effeithiol at gyflawni ein hamcanion.



Hoffwn groesawu Charles Geekie i'r Bwrdd, sy'n dod â llawer iawn o arbenigedd cyfreithiol ar ddiogelu plant gyda fo. Mae'n olyn Gary Edwards a adawodd y rôl yn ddiweddar. Diolch i Gary, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ein cydweithwyr cyfetholedig, yr holl staff a gwirfoddolwyr, ac wrth gwrs i'n cefnogwyr anhygoel, am eu cyfraniad. Mae ein gweledigaeth, cenhadaeth a'n gwerthoedd yn ein hysbrydoli i weithredu dros blant, parhau i'w cefnogi a hybu eu llais.

**Sarika Patel,**  
Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



# Helo

gan ein Prif Weithredwr newydd, Paul

**Mae plant a phobl ifanc heddiw wedi byw drwy bandemig byd-eang fydd wedi dylanwadu'n sylweddol ar eu blynyddoedd ffurfiannol. A heddiw, heb funud bron i gael eu gwynt, maen nhw'n byw drwy argyfwng costau byw creulon (tudalen 14), sy'n gadael dim lle ar ôl bron i feddwl am ddyfodol, addysg na gwaith, rhwydwaith cymorth na lles.**

Er yn newydd i'r swydd o Brif Weithredwr, dw i wedi gweithio i Gweithredu dros Blant ers 30 o flynyddoedd. Yn fy swyddi fel Cyfarwyddwr Cenedlaethol yr Alban a Chyfarwyddwr Cenedlaethol Interim Lloegr, gwelais dro ar ôl tro'r gwahaniaeth a wnawn fel elusen, y newid sy'n digwydd i fywydau pobl pan fydd gan deuluoedd y cymorth sydd ei angen arnynt.

Y llynedd bu farw ein cyn-Noddwr, Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II. Credaf fod llawer o bobl yn teimlo eu bod yn galaru ar ôl aelod o'u teulu estynedig – ac fel elusen roeddem ninnau hefyd yn teimlo'r golled. Rydym mor ddiolchgar am bron i hanner canrif o'i nawdd – a'i chefnogaeth ymroddgar a pharhaus.

Dw i'n falch bod fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Prif Weithredwr yn dangos ein cynnydd hyd yma gyda'r strategaeth newydd tuag at gyflawni nodau uchelgeisiol.

Yn ogystal â chartrefi preswyl newydd, rydym wedi ehangu rhai gwasanaethau tymor byr i ddarparu gofal tymor hir hefyd erbyn hyn.

Mae ein gwasanaeth gwybodaeth a chynghor ar-lein, Parent Talk, wedi helpu mwy fyth o deuluoedd a bellach yn rhan o wasanaeth awdurdod lleol Barking a Dagenham.

Blaenoriaeth bwysig yw'r timau polisi a fu'n pwysu am fwy o gymorth i fwy o deuluoedd yn ystod yr argyfwng costau byw hwn, gan gyhoeddi nifer o adroddiadau hanfodol.

Ac mae Bwrdd y Llysgenhadon Ifanc wedi croesawu 26 o bobl ifanc gyda phrofiad byw, a fu'n rhannu eu barn a'u syniadau am y pethau sy'n bwysig iddynt, a chymryd rhan mewn llwyth o weithgareddau ar draws y gwahanol wledydd. Edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gyda nhw.

Edrychwn ymlaen hefyd at barhau'r gwaith gwyb gyda John Lewis Partnership, ac yn eithriadol ddiolchgar bod eu hysbyseb Nadolig 2022 – The Beginner – wedi taflu golau ar blant mewn gofal a'r pŵer o ddod o hyd i gartref cariadus a diogel i bob plentyn. Ynghyd ag ymgyrch Secret Santa y llynedd, fe helpodd i godi arian i'r miloedd o blant yn y DU pob blwyddyn sy'n wynebu Nadolig sydd ymhell o fod yn hudolus.

Rhaid gosod cynnydd y 12 mis diwethaf yng nghyd-destun y costau uwch sy'n effeithio ar bawb y gweithiwn gyda nhw, o'r awdurdodau lleol i'r bobl sy'n cefnogi ein gwaith mor hael. Gallai'r flwyddyn nesaf fod yn anoddach fyth ond fy mlaenoriaeth o hyd yw bod yn drobwynt i blant, pobl ifanc a theuluoedd dros flynyddoedd nesaf y strategaeth a thu hwnt.

Hoffwn ddiolch i bob aelod o deulu Gweithredu dros Blant am barhau i weithio o dan amgylchiadau hynod heriol i roi plentyndod diogel a hapus i fwy o blant.




**Paul Carberry,**  
Prif Weithredwr



# Uchafbwyntiau y 12 mis diwethaf

Mae gweithio yn y system gofal a chymorth cymdeithasol yn dipyn o dalcen caled. Mae awdurdodau lleol yn gwario llai ar atal problemau a mwy ar reoli sefyllfaoedd sy'n troi'n argyfwng, gydag arian ac adnoddau'n cael eu gwasgu i'r eithaf, a'r angen ond yn cynyddu. Ond hyd yn oed yn y cyd-destun hwn, rydym wedi llwyddo i wneud cynnydd a gwahaniaeth mawr ac yn falch o rannu rhai o'r pethau hyn yn yr adroddiad hwn.



Rydym wedi gwneud cynnydd da ar y tri o'r deg cartref plant newydd sydd ar y gweill ar gyfer Cymru a Lloegr.

Defnyddiwyd ein gwasanaeth ar-lein, Parent Talk, gan dros 500,000 o rieni a phobl ifanc ac mae bellach yn rhan o wasanaeth awdurdod lleol Barking a Dagenham.



Rydym yn arwain rhaglen traws-Loegr newydd i helpu rhieni i flaenoriaethu anghenion eu plant os ydyn nhw'n gwahanu.

Cartrefi newydd

Ehangu

Rhaglen newydd

# Uchafbwyntiau y 12 mis diwethaf



Roedd Rossorry Grove, ein cartref llety cymorth yng Ngogledd Iwerddon, ar fin cau oherwydd pwysau ariannol, ond bydd bellach yn aros ar agor diolch i waith ymgyrchu ein staff a phreswylwyr.

Agorodd Ysgol Headlands, ein hysgol ym Mhenarth, Cymru, adeilad ysgol isaf newydd ym mis Hydref 2022.




Achub cartref



Bu EHB Tywysog a Thywysoges Cymru yn ein helpu i ddathlu 10 mlynedd o gyflwyno'r rhaglen Roots of Empathy i ddisgyblion yn yr Alban.

Ymweliad brehinol

ydym wedi parhau i weithio ar draws y pedair gwlad i leihau tloedi plant; a lleihau faint o blant sy'n byw heb hanfodion bywyd, gyda dros £550k wedi'i ddsbarthu mewn grantiau drwy ein Cronfeydd Argyfwng a Chyfoethogi.



Lleihau tloedi platt



Lansiwyd Bwrdd newydd y Llysgenhadon Ifanc gan roi pobl ifanc gyda phrofiad gofal yng nghanol gwaith y llywodraeth yn San Steffan ar Ddiwrnod Gweithredu 'It's Our Care' y clymbleidiau.

Ymgyrchwyr ifanc

Ehangu ysgol



# Uchafbwyntiau y 12 mis diwethaf



Cododd ein hapêl Nadolig, Secret Santa, fwy o arian nag erioed, sef £1.7m (yn cynnwys Cymorth Rhodd).



Roeddem wrth ein bodd yn ymuno â'r John Lewis Partnership i gefnogi eu hymrwymiad tymor hir i bobl ifanc mewn gofal a gyda phrofiad gofal.

**INVESTORS IN PEOPLE**  
We invest in people Silver




Bronze Diversity Mark


Rydym wedi parhau i fod yn lle gwyb i weithio!

Gydag incwm o £149.8m a gwariant o £149.4m, rydym hefyd wedi llwyddo i gadw chwyddiant i lawr drwy wario llai a diolch i warged ariannol ein gweithgareddau gweithredol a chodi arian.

- Gweithgareddau Elusennol
- Rhoddion ac Arian Ewyllys
- Incwm Buddsoddiadau
- Arall



- Gweithgareddau Elusennol
- Rhoddion ac Arian Ewyllys
- Arall



Mwy ar dudalen 48.

John Lewis Partnership

Secret Santa

Ein Pobl

Perfformiad Ariannol

Ar draws y DU rydym ni wedi helpu

765,905



o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn 2022/23. Mae hynny'n bron i 95,000 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Ein cyrhaeddiad

4.2 miliwn  
o blant yn byw  
mew tloedi yn y DU

anfanteision ma  
deulu

flaon

toriadau

caledi a

u

plant yn my

li gyd i b

yau'n

# Amdanom ni

ein

tawel

y dod

mwy o bobl yn ca

au iechyd medd



# Amdan

## Gweithredu dros Blant

150 mlynedd yn ôl, gwelodd ein sylfaenydd, y Parchedig Dr Thomas Bowman Stephenson, blant yn byw'n arw mewn twneli o dan Orsaf Drenau Waterloo a phenderfynodd wneud rhywbeth am y peth. Heddiw, mae llawer o blant yn parhau i lwgu, a dal yn oer. Dim ond bodoli y mae rhai, dydyn nhw'n sicr ddim yn ffynnu. Rydym ni'n benderfynol o helpu teuluoedd sy'n byw realiti a ddylai fod yn y gorffennol, drwy eu helpu yn y ffyrdd canlynol:

### Cymorth i deuluoedd



Helpu teuluoedd i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y cychwyn gorau.

### Plant anabl

Cefnogi plant a phobl ifanc anabl, a'u teuluoedd.



### Plant mewn gofal

Gofalu am blant a phobl ifanc i roi cartref diogel, cariadus a sefydlog iddyn nhw.



### Iechyd meddwl a lles

Cryfhau gwydnwch emosiynol plant a phobl ifanc i ymdopi'n well â thrafferthion bywyd.



A dylanwadu ar benderfyniadau polisi i wella bywydau plant a phobl ifanc.



# Mwy

## o blant hapus a diogel

Darparwn **426** o wasanaethau mewn cymunedau lleol ar draws y DU, mewn ysgolion ac ar-lein, fel y gall plant gael plentyndod diogel ac hapus.

**68** o ganolfannau plant a hybiau teuluol

**19** o wasanaethau mabwysiadu a maethu

**75** o feithrinfeydd Spring a chlybiau tu allan i'r ysgol

**65** o wasanaethau i blant a phobl ifanc anabl \*\*

**10** o wasanaethau i ofalwyr ifanc

**9** o gartrefi plant

**56** o wasanaethau cymorth i bobl ifanc\*

**5** o wasanaethau hawliau plant a Ymwelydd Annibynnol

**74** o wasanaethau cymorth i deuluoedd


**1** ysgol breswyl

**43** o wasanaethau cymorth iechyd meddwl

**1** gwasanaeth Parent Talk ar-lein

\* include youth support, youth justice, youth employment support and youth housing support.

\*\*includes children's homes for disabled children, residential short breaks, and community short breaks.





4.2 miliwn  
o blant yn byw  
mew tloedi yn y DU

anfanteision ma  
deulu

toriada

caledi

plant yn my

y niwed

tawel

mwy o bobl yn ca

au iechyd medd

flaen

u

l i gyd i b

yau'n

ein

y dod

# **Darparu ein saith nod strategol**



# Cyd-destun 2022/23: Argyfwng costau byw a thlodi plant ar gynnydd

## Aeth plant, pobl ifanc a theluoedd drwy galedi ofnadwy yn ystod pandemig Covid-19 ac roedd ein dau adroddiad blynyddol diwethaf yn dangos sut y gwnaethom wahaniaeth i'w bywydau.

Heddiw, mae teuluoedd bregus yn dal i wynebu gormod o anfantaision.

Gyda chwyddiant ar ei uchaf ers dros 40 mlynedd, mae'r rhai sy'n barod ar ymyl y dibyn yn cael eu gyrru i'r pen. **Heddiw yn y DU, mae 4.2 miliwn o blant yn byw mewn tlodi. Mae hynny'n 29% o'n holl blant.**

Dangosodd ymchwil a wnaethom yn Rhagfyr 2022 fod 98% o rieni sy'n gweithio wedi poeni am arian yn y 6 mis diwethaf. Roedd un teulu yng Ngogledd Iwerddon hyd yn oed wedi pônio eu holl eitemau trydanol i brynu bwyd, a phlentyn arall yn cysgu ar flancedi ar y llawr.

Yn ein hadolygiad diogelu blynyddol, ar ôl siarad â staff rheng flaen a phobl ifanc, yr argyfwng costau byw a realiti'r cynnydd mewn tlodi oedd y themâu cryfaf.

Ond yr hinsawdd economaidd bresennol oedd yr her fwyaf - nid yr unig her - sy'n wynebu plant a phobl ifanc heddiw. Clywsom fod pobl ifanc yn delio â cham-drin ar-lein oddi wrth fwlio, gweld cynnwys anwedus, hacio neu luniau 'ffugio dwfn'.

Mae effaith wenwynig y diwylliant 'dylanwadwyr' yn cael effaith ar eu perthnasoedd. Maen nhw hefyd yn poeni am broblemau byd-eang eraill, fel y rhyfel yn Wcráin.

Mae effaith dawel y pethau hyn ar iechyd meddwl plant yn dod i'r amlwg erbyn hyn. Yn ôl ein staff rheng flaen, gwelsant gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael diagnosis o broblemau iechyd meddwl cymhleth fel PTSD.

Gwelodd ein gwasanaeth cyngor ar-lein am ddim, Parent Talk, hefyd gynnydd aruthrol o 140% yn nifer y rhieni a gofalwyr am blant sydd ag anghenion dysgu arbennig ac anableddau (SEND) yn cysylltu â'r gwasanaeth yn 2022, i ofyn am fwy o gymorth.

Daw hyn i gyd ar yr un pryd â thoriadau dwfn i arian ymyrryd yn gynnar, ond dim ond cynyddu y mae'r galw.

Yn syml, mae ein gwasanaethau rheng flaen i blant, pobl ifanc a theluoedd bregus yn aml yn gorfod gwneud llawer mwy gyda llawer llai.



# Gwasanaeth hanfodol i deuluoedd



Categori	Gwariant	Canran*
■ Bwyd	£239,787	52%
■ Biliau tanwydd	£46,391	10%
■ Gwaith trwsio cartrefi a dodrefn	£39,985	9%
■ Nwyddau gwyn	£36,882	8%
■ Dillad	£32,700	7%
■ Pethau eraill	£30,162	7%
■ Dysgu a chwarae	£18,062	4%
■ Glanhau a hylendid	£11,771	3%
■ Biliau eraill (nid tanyydd)	£8,206	2%

**Mae'r heriau sy'n wynebu plant, pobl ifanc a theuluoedd yn newid o hyd. Ond dro ar ôl tro, ni sy'n gwneud y gwahaniaeth; y funud y mae pethau'n newid er gwell.**

Sefydlwyd ein Cronfa Argyfwng ym mis Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig Covid-19. Yr enw gwreiddiol arni oedd y Gronfa Frys gan helpu teuluoedd mewn caledi taer. Heddiw, mae'r Gronfa Argyfwng yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd pwysicaf o helpu teuluoedd mewn cyni.

Yn 2022/23, helpodd y Gronfa Argyfwng 5,743 o blant gyda bron i £464,000 o grantiau. Roeddem yn gallu helpu teuluoedd drwy roi talebau i brynu bwyd iddynt, nwyddau trydanol neu arian mewn mesuryddion rhagdalau. A chymorth costau teithio er mwyn gallu mynd i weithio, mynychu apwyntiadau neu wasanaethau cymorth.

Ni fyddai gwaith ein Cronfa Argyfwng wedi bod yn bosib heb gefnogaeth barhaus ein partner Iceland Foods Charitable Foundation, sydd wedi codi dros £1m yn uniongyrchol tuag at y gronfa ers 2020.

Mae pob plentyn yn haeddu creu atgofion da gyda'r bobl sy'n bwysig iddynt. Maen nhw'n haeddu gallu ffynnu – nid dim ond bodoli.

Dyna pam y darparwn hefyd Gronfa Gyfoethogi i deuluoedd sy'n cael trafferth fforddio unrhyw beth heblaw am hanfodion. P'un ai'n drip i'r sw, tocynnau i'r panto neu lyfrau i'w darllen gartref, mae'r Gronfa Gyfoethogi'n helpu i greu atgofion da i blant.

Yn 2022/23 helpodd y Gronfa Gyfoethogi 1,736 o blant a phobl ifanc, cyfanswm o bron i £95,000.

Mae'r Gronfa Argyfwng a'r Gronfa Gyfoethogi'n ddwy enghraifft o sut y camwn i'r adwy i helpu teuluoedd bregus. Mae faint y mae teuluoedd yn dibynnu ar ein gwasanaethau'n arwydd o broblem fwy. Dyna pam y blaenoriaethwn ymgyrchu dros newid ar draws y DU er mwyn tynnu sylw at y cynnydd mewn tlodi plant a'r pwysau cynyddol ar deuluoedd sy'n fregus yn barod.



\* Gwariant rhwng 1 Ebrill 2022 a'r 31 Mawrth 2023. Mae'r cyfanswm yn dod i dros 100% oherwydd bod canrannau'n cael eu cyfannu i'r rhif cyfan agosaf.

## Nod strategol un:

# Tyfu ein gwasanaethau i helpu mwy o blant a phobl ifanc

**Er mwyn gwneud gwir wahaniaeth i'r nifer gynyddol o blant, pobl ifanc a theluoedd sydd angen ein gwasanaeth, y nod yw tyfu ein gwasanaethau ar draws pedwar prif faes gwasanaeth: Plant mewn gofal, cymorth i deuluoedd, plant anabl, ac iechyd meddwl.**

### Plant mewn gofal

Mae mwy a mwy o blant yn ymuno â'r system ofal mewn sawl rhan o'r DU. Mae hynny ar ben y plant hynny sydd hefyd angen gofal preswyl.<sup>viii</sup>

Wrth i'r niferoedd gynyddu, mae ein staff rheng flaen yn gweld nad oes digon o ofalwyr maeth neu lefydd preswyl ar gyfer y plant hyn.

Mae'r cwbl yn dangos yn hollol glir – mae gwir angen ein gwasanaethau ac mae angen mwy.

Drwy ehangu ein gwasanaethau preswyl, down yn ôl i'r dechrau ar gyfer Gweithredu dros Blant – darparu cartref diogel, sefydlog a chariadus i blant.

### Agor cartrefi plant preswyl newydd

Yn 2022/23 prynom ddau eiddo newydd – un yng Nghymru ac un yng Ngogledd-Ddwyrain Lloegr, gan wneud gwaith ailwampio ar y ddau. Fe wnaethom hefyd gwblhau gwaith datblygu ar eiddo arall yn barod i gael ei gofrestru gan Ofsted, sef y cam olaf cyn y gall y plant symud i mewn.

Mae hyn yn rhan o'n cynllun i agor 10 cartref preswyl newydd ar draws Cymru a Lloegr.

Bydd y cartrefi newydd i hyd at bedwar o blant, gyda lloffttydd eu hunain, a byddant fel cartref teuluol. Bydd y math o wasanaethau ar gael yn rhai ar gyfer plant gyda phrofiad o drawma cymhleth, a aeth drwy nifer o fethiannau lleoliad, a / neu gydag ymddygiad cymhleth.

**“ Nid dim ond [fy mhlentyn] y gwnaethoch ei helpu ond fy nheulu cyfan a byddaf yn ddiolchgar am byth.**

**Gan riant sydd â phlentyn yn un o'n cartrefi plant arhosiad hir.**

### Diolch yn fawr



Mae dod o hyd i safleoedd addas ar gyfer cartrefi preswyl i blant yn anodd. Mae angen adeiladau mawr y gallwn eu haddasu i'n hanghenion, a gall rheolau cynllunio hefyd achosi oedi. Ymhlith pethau eraill, mae ein partner Turner & Townsend yn darparu cymorth pro bono gwyd gyda'n rhaglen twf preswyl yn y Gogledd-Ddwyrain. Maen nhw hefyd yn defnyddio eu dylanwad i ofyn am gymorth pro bono yn eu cadwyn gyflenwi. Diolch o galon Turner & Townsend – rydym mor ddiolchgar am y gwahaniaeth yr ydych yn ei wneud.





## Achub Rossorry Grove

Roedd ein cartref llety cymorth i bobl ifanc 16-25 oed, Rossorry Grove yng Ngogledd Iwerddon, ar fin cau oherwydd diffyg cyllid a phwysau cyllideb trwm. Ond ar ôl misoedd o waith gan ein tîm arweinyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon, a staff a phobl ifanc hynod ymroddgar a phenderfynol yn y gwasanaeth, mae comisiynwyr wedi cadarnhau y bydd yn aros ar agor. Mae hynny diolch i gael cynnig cyllid ychwanegol i redeg y gwasanaeth hanfodol hwn

## Adnewyddu gyda John Lewis & Partners

Fel rhan o'n perthynas gyda'r John Lewis Partnership a'u hymrwymiad i gefnogi plant mewn gofal, roeddem yn hynod falch o gael help y tîm yn John Lewis & Partners i drawsnewid y manau cymunedol mewn rhai o'n cartrefi preswyl.

Daeth Wil Law, Steilydd Dylunio Cartref gyda John Lewis & Partners, i un o'n cartrefi gofal preswyl i bobl ifanc yng Ngogledd Cymru.

Gwylwch y fideo o'r gwaith adnewyddu [here](#). A gallwch ddarllen mwy am ein partneriaeth â'r John Lewis Partnership ar dudalen 39.

## Rhoi ail wynt i gartref plant

Yn 2022/23, yn dilyn tendr llwyddiannus, cymerom gartref plant drosodd gan gwmni preifat. Roedd angen gwaith cynnal a chadw arno, nid oedd yn creu'r amgylchedd gorau i blant ac roedd y gyllideb ar gyfer adegau fel y Nadolig yn brin iawn, gyda dim ond £20 y plentyn. Drwy fuddsoddi yn yr eiddo, gwnaed nifer o newidiadau i wella profiad y plant oedd yn aros yno.

## Helpu Rachel i ddefnyddio ei llais dros newid

Cafodd Rachel ei rhoi mewn gofal gyda'i brawd a'i chwaer pan oedd ond yn naw oed. Methodd y lleoliad cyntaf a bu'n rhaid gwahanu'r plant.

**“Clywais bethau gwahanol am gael fy rhoi mewn gofal pan oeddwn yn blentyn, ond dw i dal ddim yn siŵr pam y digwyddodd. Roedd yn amser dryslyd a gofidus – dw i'n cofio gofalu am fy mrawd a chwaer a pheidio â mynd i'r ysgol. Roedd yn normal i fi.”**

Yn ôl Rachel, effeithiodd bod ar wahân i'w theulu'n ofnadwy ar ei hiechyd meddwl dros y blynyddoedd:

**“Roedd y cyfan wedi dwyn fy mhentyndod – roeddwn naill ai'n gofalu am fy mrawd a chwaer neu'n brwydro i'w gweld nhw. Teimlais fod neb yn gwrandao arnaf.”**

Dechreuodd bethau wella i Rachel pan drefnodd Gweithredu dros Blant eiriolwr ar ei chyfer – rhywun i'w helpu i leisio barn a sefyll i fyny dros ei hawliau.

**“Roedd yn help mawr i mi gysylltu efo fy mrawd a chwaer. Fe wnaeth hefyd fy helpu i gynllunio ar**

Rhoesom Nadolig bythgofiadwy iddyn nhw, coeden ac anrhegion.

Dywedodd staff y cartref wrthym na allent gredu'r gwahaniaeth y mae cael Gweithredu dros Blant yn rhedeg y cartref wedi'i wneud, gydag ymddygiad y plant wedi gwella'n aruthrol ac yn arwydd o deimlo'n fwy positif a chartrefol.



Rachel yn ffilmio gyda John Lewis a Gweithredu dros Blant

**gyfer y dyfodol, a chael pobl i wrando arnaf a dysgu sgiliau drwy fy helpu i fod yn rhan o Gweithredu dros Blant.”**

Mae Rachel bellach yn 22 ac yn astudio am radd. Ei huchelgais yw bod yn wleidydd a'r haf diwethaf, aeth hi a dros 90 o bobl ifanc eraill oedd â phrofiad gofal i'r Senedd i siarad ag ASau am sut y dylai'r

**“Mae pobl ifanc gyda phrofiad gofal yn haeddu cael pobl i wrando arny'n nhw.”**

Gallwch ddarllen mwy am stori Rachel yn [The Metro](#).

## Ehangu ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd

**Eleni rydym yn falch o fod wedi addasu rhai o'n gwasanaethau mwyaf llwyddiannus, ennill contractau newydd a dathlu cerrig milltir gydag eraill.**

Yn ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd, mae

**74%**

o rieni / gofalmwyr wedi gwella eu sgiliau magu plant a'u hyder i gefnogi eu plant yn effeithiol.



## Cyrraedd mwy o deuluoedd drwy Parent Talk

Mae ein gwasanaeth digidol enillglod i rieni, Parent Talk, wedi parhau i dyfu er mwyn ateb y cynnydd yn y galw am gymorth.

Mae Parent Talk yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghyd â'r opsiwn o gael sgwrs un-i-un gyda swyddog cynghori profiadol i rieni gyda phlant 0-19 oed, neu o dan 25 oed i rai ag anghenion addysgol arbennig. Yng Nghymru, mae gennym hefyd Parent Talk Cymru sy'n cynnig nid yn unig holl fanteision y gwasanaeth ond swyddog cynghori sy'n siarad Cymraeg ar gyfer rhieni dwyieithog.

Mae'r gwasanaeth ar-lein, sydd ar gael 24/7 a heb fod angen cael eich atgyfeirio, ar gael ar draws y DU. Rydym hefyd wedi gweithredu'r gwasanaeth i fod yn rhan o wasanaeth Family Hub digidol awdurdod lleol Barking a Dagenham yn Llundain. Mae hyn yn golygu y gall y gwasanaeth integreiddio â gwybodaeth a chymorth lleol er mwyn rhoi'r wybodaeth sydd ei angen ar rieni. Dim ond cam cyntaf yw hyn fel rhan o'n cynlluniau twf ar gyfer y gwasanaeth Family Hubs digidol gan awdurdodau lleol, gyda gwaith ar y gweill i hyrwyddo'r rhaglen a thrafod gyda'r bobl sy'n penderfynu pethau ar lefel leol.

Yn 2022/23, cefnogodd Parent Talk

**539,842**

o bobl, gan gynnwys 6,869 o bobl mewn sesiynau cynghori un-i-un.

## Cymorth newydd i deuluoedd sy'n wynebu gwahanu

Rydym wrth ein bodd o fod yn arwain ar ddarparu a chydlynu rhaglen traws-Loegr o'r enw Planning Together for Children, i helpu rhieni i flaenoriaethu anghenion eu plant os ydyn nhw'n gwahanu.

Pan fydd rhieni'n gwahanu, mae'r risg i les emosiynol ac iechyd meddwl plant yn cynyddu'n sylweddol os yw'r gwahanu'n cynnwys gwrthdaro drwg. Gall hyn gael ei waethygu gan y gorboeni a'r ansicrwydd a achosir gan achosion llys teulu hirfaith.



Mae'r rhaglen newydd, a gomisiynwyd gan Cafcass (Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd) ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn annog rhieni i gyfathrebu a gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar drefniadau magu heb fod angen mwy o wrandawiaidau llys, ac er mwyn deall sut y mae anghytuno a ffraeo'n effeithio ar les a datblygiad eu plant.

## Ehangu ein gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar ar Droseddu Cyfundrefnol Difrifol

Lansiwyd ein gwasanaeth enillglod Ymyrryd yn Gynnar ar Droseddu Cyfundrefnol Difrifol gyntaf yn ninas Glasgow yn 2013, gan weithio i adnabod pobl ifanc fregus rhwng 11-18 oed sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n droseddol i gymryd rhan mewn troseddu cyfundrefnol difrifol.

Mae pobl ifanc yn cael eu paru gyda 'mentor cyd-brofiad', sy'n aml gyda phrofiad o fod yn gaeth i gyffuriau, cael eu hecsbloetio a throeddu, gan drawsnewid eu bywydau er gwell. Mae'r rhaglen yn helpu i roi model rôl i bobl ifanc sy'n gallu eu helpu i gyfranogi mewn rhannau eraill o'r rhaglen fel addysg a hyfforddiant cyflogaeth.


Mae Caerdydd, Newcastle, Caeredin ac, yn fwyaf diweddar, Dundee ym Mehefin 2022, i gyd wedi cyflwyno'r gwasanaeth yn llwyddiannus fel rhan o barhau i'w ehangu ar draws y DU.

Y llynedd, cefnogodd y gwasanaeth 200 o bobl ifanc a theuluoedd. Roedd yr effeithiau positif yn cynnwys sgiliau bywyd, cyfleoedd a dyheadau gwell, yn ogystal â llai o ymddygiad troseddu a pherthnasoedd teuluol gwell.

Mae'r arian gennym bellach i ddarparu'r gwasanaeth yn Inverclyde drwy Gronfa Lles Teulu Cyfan llywodraeth yr Alban.

Rydym hefyd wedi datblygu cydweithrediad cenedlaethol â'r Ganolfan Cyfiawnder Plant a Phobl Ifanc sy'n cael ei ariannu gan y Promise Partnership. Bydd hyn yn datblygu adnoddau a hyfforddiant ymarfer gorau i helpu i gael gwared ar ecsbloetio plant yn droseddol, ar draws yr Alban.

### Ar draws ein gwasanaethau cyfiawnder ieuencid



diogelwyd **73%**

o bobl ifanc rhag cael eu hecsbloetio'n droseddol.



cafodd **70%**

eu troi i ffwrdd o droseddu cyfundrefnol difrifol.

### Cadw mamau a babis gyda'i gilydd

Yn Ebrill 2022, fe wnaethom ennill contract gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i redeg yr Unedau Mam a Babi yng ngharchardai HMP Askham Grange, HMP New Hall a HMP Styal.

Nod y gwasanaeth yw atal mamau a babis rhag cael eu gwahanu, os yw'r fam wedi cael dedfryd o garchar. Gweithiwn gyda theuluoedd sy'n gymwys am leoliad mewn Uned Mam a Babi (MBU), lle y mae hyn er lles gorau'r plentyn.

Mae hefyd yn lleihau'r risg o aildroseddu, ac effaith economaidd-gymdeithasol hynny.

Yn y 12 mis cyntaf o redeg y gwasanaeth, rydym wedi darparu meithrinfeydd ac amgylchedd i famau fod yn gallu gofalu am eu plant. Rydym wedi helpu pob merch feichiog yn y carchardai hyn, annog mamau i gael cyd-gyswllt â'u babis, gwella sgiliau magu plant ac wedi cysylltu merched ag asiantaethau eraill wrth i'r mamau ail-setlo yn y gymuned ar ôl dod allan.

### Cadw teuluoedd gyda'i gilydd drwy Therapi Aml-Systemig (MST)

Mae Therapi Aml-Systemig (neu MST) yn ymyriad teuluol a chymunedol dwys i blant a phobl ifanc rhwng 11-17 oed sydd mewn perygl o gael eu lleoli y tu allan i'r cartref naill ai mewn gofal neu yn y carchar, a lle y mae'r teulu am wahanol resymau heb weithio gyda gwasanaethau eraill cyn hynny.

Drwy ein gwasanaeth MST, gweithiwn gyda'r teulu cyfan pan fydd plentyn mewn perygl o adael y cartref teuluol. Ar draws y DU rhwng Ionawr a Mai 2022, arhosodd 95% o bobl ifanc yn eu cartrefi teuluol ar ddiwedd yr ymyriad MST.

Roedd 90% o'r bobl ifanc heb gael eu harestio ers dechrau'r rhaglen, ac roedd 80% mewn addysg a hyfforddiant.

### Dathlu 10 mlynedd o Hybiau Cymorth i Deuluoedd yng Ngogledd Iwerddon

Eleni, roedd Hybiau Cymorth i Deuluoedd Fermanagh ac Omagh yn dathlu 10 mlynedd o gefnogi teuluoedd mewn angen. Mae'r gwasanaethau hanfodol hyn wedi helpu miloedd o deuluoedd i dderbyn cymorth yn gynt drwy baru eu hanghenion â darparwyr lleol. Mae'r ffocws yn benodol ar greu rhwydwaith cryf o ddarparwyr cymunedol, gwirfoddol a statudol.

Derbyniodd Tina gymorth wrth wynebu trafferthion wrth fynd drwy chwalfa deuluol. Roedd yr Hÿb yn Omagh yno i'w helpu. Meddai Tina: **“Fe wnaeth Gweithredu dros Blant roi gofal a chymorth emosynol pan oedd ei wir angen arnom. Rydym wedi cael tri gweithiwr cymorth anhygoel yn cynnig cymorth amhrisiadwy i fi a fy merch. Roedden nhw'n glust gyfeillgar gan roi cyngor a gofal a wnaeth wahaniaeth enfawr i'n bywydau.”**

Staff yn dathlu 10 mlynedd o Hÿb Teuluol Fermanagh





## Plant anabl

**Yn Nhachwedd 2022, dangosodd adroddiad blynyddol cyntaf ein gwasanaeth cymorth digidol, Parent Talk, gynnydd o 140% yn nifer y rhieni a gofalwyr am blant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau (SEND) a gysylltodd â'r gwasanaeth yn y 12 mis blaenorol. Roedd erthyglau cynghori ar bynciau SEND wedi cael dros 130,000 o olygon. Ac roedd tua chwarter (26%) o sgwrsiau un-i-un gyda rhiant-gynghorwyr hefyd yn trafod materion yn ymwneud â phlant SEND.**

Rydym yn cwrdd ag anghenion teuluoedd drwy ein 65 o wasanaethau arbenigol i bobl ifanc anabl, ar draws y DU, a hefyd yn rhoi gwybodaeth a chynghor ar Parent Talk a Parent Talk Cymru..

**Yn Lloegr, y tu allan i'r awdurdodau lleol, ni yw prif ddarparwr gwasanaethau anabledd i blant a phobl ifanc gan arwain y farchnad mewn darparu gofal a chymorth sy'n grymuso teuluoedd gyda phlant anabl ar draws y DU.**

Y llynedd, fe wnaethom barhau i ddarparu gwasanaethau anabledd preswyl i blant a phobl ifanc, gyda dros 10,137 o blant a phobl ifanc yn mwynhau un o'n Gwyliau Byr.

Ac yn fuan iawn, bydd ein cartref preswyl tymor hir newydd yng Nghaint yn agor. Mae hwn yn gartref newydd, wedi'i adnewyddu'n llwyr ar gyfer hyd at bedwar o blant rhwng 8-18 oed ag anghenion ychwanegol, yn darparu dwy lofft ensuite, llefydd byw cymunedol, ac ystafell ardd synhwyaidd ar gyfer chwarae therapiwtig.

### Dysgu o adroddiadau asesu

Mae asesïadau gan Ofsted, Estyn ac eraill yn dangos i ni'r pethau a wnawn yn dda, a sut y gallwn wella.

Mae'r mwyafrif llethol o'n gwyliau byr preswyl i blant anabl yn cael eu sgorio'n dda neu'n well.

Mae hyn yn cynnwys Warwickshire Disability, a sgoriwyd yn Dda gan Ofsted yn ddiweddar, gydag un rhiant yn dweud: **"Ers dechrau gyda'r prosiect, mae ein mab wedi dod yn llawer mwy hyderus yn gymdeithasol ac wedi mwynhau bod i ffwrdd o'r cartref - rhywbeth na feddyliem y byddai byth yn bosib."**

Ond yn anffodus, derbyniodd The Vines, gwasanaeth gwyliau byr preswyl arall i blant anabl, sgôr o anfodhaol gan Ofsted a rhybudd atal dros dro am 12 wythnos o'r 16 Mawrth 2023. Dros y cyfnod hwnnw, fe wnaethom weithio'n galed ar y diffygion ymarfer y tynnodd Ofsted sylw atynt, gan gyflawni eu cynllun gwelliannau'n llawn. Oherwydd y gwelliannau cyflym, hyn a ddywedodd Ofsted am ein cynnydd yn eu hymweliad monitro ar 23 Mai: "Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr wedi dangos agwedd agored tuag at wella'r gwasanaeth drwy eu cynllun gweithredu manwl." Cafodd y rhybudd atal dros dro ei godi a byddwn yn parhau i weithredu'r hyn a ddysgom gan Ofsted yn The Vines ac ar draws yr ystâd breswyl.

Ar draws ein gwasanaethau i blant anabl:

mae **83%**

o blant a phobl ifanc anabl wedi gwella eu sgiliau cymdeithasu, gwneud ffrindiau a'u sgiliau cyfathrebu.

Ac mae 86% wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddent efallai wedi'i gael fel arall.

### Penwythnosau i ffwrdd mewn carafán

Yng Nghymru'r llynedd, fe wnaethom bartneru â Chyngor Abertawe i ddarparu carafanau pwrpasol a hygyrch i deuluoedd plant ag anghenion ychwanegol, i gael penwythnos i ffwrdd gyda'i gilydd.

Gall fod yn anodd iawn mynd ar wyliau fel teulu gyda phlentyn anabl – yn aml iawn nid yw gwestai neu dai llety rhent yn hygyrch ac efallai neb bopeth sydd ei angen i deimlo'n ddiogel a chartrefol. Felly fel rhan o'n gwasanaeth Gwyliau Byr, roeddem eisiau helpu teuluoedd i fynd ar wyliau a chreu atgofion da gyda'i gilydd mewn amgylchedd sy'n cwrdd ag anghenion y plentyn, yn ogystal â rhoi profiadau newydd iddynt.

**“ Mae mor anodd bod â phlentyn sydd ddim yn ffitio i'r bocsys y mae pobl yn disgwyl iddynt ffitio iddyn nhw, felly mae cael rhywle iddynt ymlacio a theimlo'n gyffyrddus yn werth y byd”**

**Lucy, rhiant o Abertawe**



## Llefydd preswyl tymor hir newydd

Mae ein gwasanaethau Gwyliau Byr yn cynnig arhosiad tymor byr i bobl ifanc a phlant ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd cymhleth, er mwyn gwneud ffrindiau, rhoi cynnig ar bethau newydd, a chael hwyl.

Gyda'r galw am leoliadau preswyl tymor hir i blant a phobl ifanc yn cynyddu, rydym wedi ehangu dau o'r gwasanaethau Gwyliau Byr i gynnwys llefydd preswyl hefyd.

Ym Mawrth 2021, agorwyd adain newydd mewn

## Agorodd Ysgol Headlands ym Mhenarth adeilad isaf newydd yn Hydref 2022.

Ysgol arbennig annibynnol yw Ysgol Headlands, sy'n cynnig lleoliadau dydd a phreswyl i blant rhwng 7-19 oed sy'n cael trafferth dysgu o ganlyniad i drawma cynnar, problemau emosiynol a chymdeithasol cymhleth, Cyflyrau Sbectrwem Awtistiaeth (ASC) a Syndrom Asperger.

Wedi'i ddylunio gyda'r plant mewn golwg, mae'r adeilad newydd yn darparu ar gyfer 20 o ddisgyblion rhwng 7-15 oed, gyda lle i ehangu i 24 yn y dyfodol. Mae'n cynnwys pedair ystafell ddsbarth bwrsasol. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn llefydd coledus i helpu'r plant i weithio gyda'i gilydd, ond hefyd yn cynnig ardaloedd gwaith dynodedig i weithio'n annibynnol.

gwasanaeth Gwyliau Byr yng Ngogledd Cymru, gyda lle i ddau berson ifanc. Ac ym Mawrth 2023, croesawyd yr ail blentyn i'r cartref.

Gyda'r gwasanaeth yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed yn 2022, rydym yn hynod falch o'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud.

Yn ninas Glasgow, rydym hefyd yn darparu lleoliad pwrpasol un-i-un i berson ifanc mewn gwasanaeth Gwyliau Byr, gan droi llofft sbâr yn lle ar gyfer person ifanc. Mae'n enghraifft wych o sut y gall addasu adnoddau a chapasiti wneud gwahaniaeth anferth.

Ynghyd â'r alpacas, ieir, hwyaid a'r ci sy'n byw yno, dyma a ddywedodd bennaeth yr Ysgol Isaf, Claire Houghton: **“Mae'r adeilad newydd yn pwysleisio ymrwymiad Headlands i arloesi a sicrhau'r amgylchedd gorau posib i ddisgyblion gael teimlo'n ddigon diogel a hapus i fwynhau dysgu eto.”**



Ysgol Headlands

## Fan hyn ydy 'adra' i John

Dim ond pedair oed oedd John pan gyrhaeddodd wasanaeth Stoneside Gweithredu dros Blant yn Glasgow.

Oherwydd amgylchiadau personol, ni allai rhieni John ofalu'n llawn amdano a chafodd ei roi mewn gofal maeth.



Ar ôl treulio amser maith yn y gwasanaeth Gwyliau Byr, roedd John yn gallu symud i un o fflatiau Stoneside fel rhan o wasanaeth gofal preswyl tymor hir i blant ag anableddau. Yno, mae John yn derbyn cymorth un-i-un a chyfle i ffynnu mewn amgylchedd diogel.

Mae John wedi bod yn Stoneside am 12 mlynedd bellach a dyma'r lle y mae'n ei alw'n gartref. Mae ei weithiwr cymorth Caz yn siarad am y gwahaniaeth a welodd ynddo:

**“Fe gymrodd amser i ni fagu perthynas gyda John ond yn araf deg dechreuodd ymddiried ynom ni a dechrau teimlo'n**

Mae John yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac yn mynd i'r coleg un diwrnod yr wythnos.

**“Mae John mor annibynnol erbyn hyn ac mae'n wych bod wedi gallu bod gyda fo am yr holl flynyddol, i weld pa mor dda y mae'n dod yn ei flaen ac wedi ennill y sgiliau yr ydym wedi bod yn eu dysgu iddo.”**

## Iechyd meddwl a lles

**Yn ôl ein staff rheng flaen, mae plant yn dal i gael trafferth gyda'u hiechyd meddwl, gyda llawer yn poeni am gostau byw a sut y bydd eu teuluoedd yn ymdopi.**

Mae ein gwasanaethau iechyd meddwl ar sail tystiolaeth yn parhau i roi cymorth effeithiol ar draws y gwledydd i helpu pobl ifanc i fod yn fwy gwydn ac i ymdopi â heriau bywyd.

Cefnogwyd

**88,689**

o blant a phobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a lles.



## Darparu'r rhaglenni Y Canllaw a Blŵs

Mae gennym gymorth iechyd meddwl ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru, drwy Y Canllaw. Mae'r gwasanaeth yn rhoi'r iaith a'r hyder i ddisgyblion blwyddyn naw gael siarad am iechyd meddwl, er mwyn derbyn cymorth mwy effeithiol.

**“Roedd [Y Canllaw] yn amhrisiadwy i athrawon a swyddogion cynghori sy'n gweithio gyda phlant mewn ysgolion a chlybiau chwaraeon. Mae'r hyfforddiant wedi cael gwared ar lawer o'r camagraff oedd gen i am iechyd meddwl ac wedi fy rhoi mewn sefyllfa well i gynnig cymorth.”**


Cyfranogwr yn Y Canllaw

Ar draws Cymru, yr Alban a Lloegr, darparwn hefyd y rhaglen Blŵs ryngwladol, sy'n cael ei rhedeg gan staff Gweithredu dros Blant arbenigol a hyfforddedig.

Mae'r rhaglen lles chwe-wythnos ar gyfer ysgolion i blant 13-19 oed yn dysgu gwydnwch emosiynol, lleihau teimlo'n isel a gorboeni ac, yn anad dim, yn cael plant yn eu harddegau i siarad. Cynhelir cymysgedd o sesiynau grŵp wythnosol yn yr ysgol, gyda thasgau i'w gwneud gartref ar yr hyn a ddysgwyd.

Yn 2022 agorwyd gwasanaeth lles newydd yn ardal Ynysoedd Gorllewinol yr Alban ac rydym hefyd yn parhau i gynyddu proffil y rhaglen Blŵs yn yr Alban ac yn Lloegr.

**Y llynedd, helpodd y rhaglenni Blŵs a Bownsio'n Ôl dros 18,000 o blant a phobl ifanc.**



Dyweddodd **71%**

o bobl ifanc fod eu hunanwerth wedi gwella.



Byddai **89%**

o bobl ifanc yn rhoi sgôr o 4 neu 5 seren i'r rhaglen Blŵs.

## Ehangu ein gwasanaeth iechyd meddwl therapiwtig i blant mewn gofal

Mae Gwasanaeth Iechyd a Lles Emosiynol Derby a Derbyshire i Blant mewn Gofal (DECC) yn wasanaeth therapiwtig sy'n darparu cymorth dwys drwy ddefnyddio dull deall trawma ac ymlyniad. Mae'r gwasanaeth yn gweld plant unigol a hefyd yn cynnig gwaith grŵp therapiwtig i ofalwyr maeth.

Ehangodd y gwasanaeth yn ddiweddar a bellach mae'n darparu gwasanaeth Ymddygiad Rhywiol Niweidiol i helpu gweithwyr proffesiynol ac oedolion sy'n gweithio gyda phlant, o fewn a'r tu allan i'r system ofal, i ymarfer a rheoli risg ar sail deall trawma.

Mae'r DECC hefyd yn gweithio gydag asiantaethau partner i greu Timau Magu Plant Therapiwtig o gwmpas pob plentyn mewn gofal – gan helpu oedolion a gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o rwydwaith plentyn i adnabod pwysigrwydd a gwerth eu rôl yn eu hadferiad therapiwtig.



## Gweilch yn y Gymuned yn cefnogi iechyd meddwl yng Nghymru

Sefydliad di-wneud-elw yw Gweilch yn y Gymuned sy'n gweithio mewn partneriaeth agos â thîm Rygbi'r Gweilch ac yn parhau i fod yn hanfodol i'n hymdrechion i ddarparu cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn ne Cymru drwy gefnogi a hyrwyddo tair rhaglen hanfodol.

Mae Bownsio'n Ôl yn rhaglen pythefnos sydd ar gael i bob plentyn ysgol gynradd ac uwchradd gan roi cyflwyniad i iechyd meddwl a lles, dysgu strategaethau ymdopi fel CBT a sut i ymdopi â heriau dydd i ddydd.

Mae Bownsio'n Ôl a Mwy yn darparu tair wythnos ychwanegol gan roi ffocws ar sut y gall plant roi'r pethau a ddysgwyd ganddynt ar waith. Mae hefyd yn cynnwys sesiynau ymarfer corff sy'n cael eu rhedeg gan Gweilch yn y Gymuned i ddangos sut y mae ymarfer corff yn gwella iechyd meddwl.

Ac mae Ar Darged yn rhaglen ddwys chwe-wythnos i blant ysgolion uwchradd sydd angen mwy o gymorth arnynt.

**Yn 2022/23, cynhaliodd ein rhaglen Bownsio'n Ôl 315 o gyrsiau i 8,302 o bobl ifanc mewn 118 o ysgolion.**

Dyweddodd **90%**

o bobl ifanc y gallent ymdopi'n well mewn sefyllfaoedd anodd.

Rydym mor ddiolchgar i'r Gweilch yn y Gymuned am gefnogi'r gwaith hollbwysig hwn ar gyfer plant yng Nghymru.



## Dathlu 10 mlynedd o Roots of Empathy

Ym mis Mai 2022, helpodd EHB Tywysog a Thywysoges Cymru (Dug a Duges Caergrawnt bryd hynny) ni i ddathlu 10 mlynedd o gyflwyno Roots of Empathy i ddisgyblion yn yr Alban. Ymunodd y cwpl brenhinol â grŵp o blant wrth ymweld ag ysgol gynradd yn Inverclyde. Clywsant am y rhaglen a'r manteision y mae wedi'i roi i dros 29,000 o blant yn yr Alban sydd wedi cymryd rhan yn Roots of Empathy ers ei lansio.

Rhaglen gymdeithasol ac emosiynol ar sail tystiolaeth yw Roots of Empathy sy'n cael ei chyflwyno yn y dosbarth i blant 5-13 oed.

Ei nod yw hyrwyddo empathi emosiynol, helpu i leihau ymddygiad ymosodol gan gynnwys bwlio, a chynyddu ymddygiad fel gofalu, rhannu a chynhwysiant. Wrth galon y rhaglen 27 sesiwn hon y mae rhiant a babi lleol sy'n ymweld ag ystafell ddosbarth yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae'r babi'n allweddol i'r rhaglen fel yr 'athro bach / athrawes fach'.

Eisteddodd y Dywysoges, sy'n Noddwr Brenhinol Gweithredu dros Blant, gyda'r Tywysog yng nghanol 35 o ddisgyblion a'r babi Roots of Empathy gan gymryd rhan mewn sesiwn o ganu a sgwrsio gyda'r plant i gael gwybod beth a ddysgasant.

## Cymorth iechyd meddwl peilot ar gyfer teuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig

Rydym wedi creu prosiect peilot i gefnogi plant a phobl Ifanc Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig ar y Gororau yn yr Alban. Gan weithio mewn ysgolion uwchradd, bydd y rhaglen tair-haen hon yn cefnogi 111 o blant i gyd, ar draws cymysgedd o gymorth grŵp ac un-i-un. Bydd y rhaglen yn gweithio'n berson-ganolog i helpu pobl ifanc i siarad am, a deall, eu hiechyd meddwl yn well. Bydd yn eu helpu i ymdopi gyda, a dod yn fwy gwydn yn erbyn, yr heriau penodol o fod yn rhan o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, er enghraifft hiliaeth, stigma, rhwystrau ieithyddol a diwylliannol, a'u profiadau o ryfel, trawma difrifol neu erledigaeth.

Bydd y peilot yn digwydd drwy gydol 2023 a thu hwnt.



## “Dysgais sut i ymdopi â gorbryderu er mwyn gallu byw fy mywyd” – Stori Erin

Defnyddiodd Erin o Gymru ein rhaglen Skills4Living – ymyriad datblygu sgiliau seico-gymdeithasol i bobl ifanc rhwng 16–24 oed sy'n gadael gofal.

“Dechreuodd fy iselder o ddifrif ym mis Tachwedd 2019. Ni allwn godi o'r gwely na gweithio, doeddwn i ddim yn bwyta, allwn i ddim cysgu. Allwn i wneud dim byd yr oeddwn yn gallu ei wneud o'r blaen. Roeddwn yn llythrennol yn aros adra drwy'r dydd a phob dydd am fisoedd ar y tro. Allwn i ddim ymdopi.

Dechreuais weithio gyda Skills4Living ym mis Mawrth 2020 ac fe wnes i a Chris sefydlu perthynas dros y ffôn oherwydd Covid.

Dysgais lawer iawn o sgiliau gan Chris. Fe wnaeth fy nysgu sut i hel meddyliau positif, sut i greu meddwl doeth, sut i fod yn amyneddgar ac mewn rheolaeth o fy emosiynau, a sut i dderbyn beth oedd wedi digwydd. Dysgais sut i reoli fy hun pan oeddwn yn gorbryderu, er mwyn gallu byw fy mywyd.

Heb y sgiliau hynny, ni fyddai gen i fywyd cymdeithasol. Ni fyddwn yn gallu mynd yn ôl i gysgu ar ôl deffro, sy'n rhywbeth y gallaf ei wneud erbyn hyn. Gallaf godi a mynd allan, eistedd mewn bwyty a doeddwn i ddim yn gallu gwneud hynny o'r blaen.

Ni fyddwn i lle'r ydw i heddiw oni bai am Skills4Living a Chris.”



Erin



## Nod strategol dau:

# Cynyddu effaith ein gwaith ar blant, pobl ifanc a theuluoedd

**Mae angen i ni fesur, yn gywir ac ystyrion, y gwahaniaeth a wnawn i bobl – er mwyn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen newid.**

### Defnyddio'r data a gasglwn

Mae dangos tystiolaeth o'r gwahaniaeth y mae ein gwaith yn ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc wrth galon ein gweledigaeth. Ym mhob un o'n gwasanaethau, rydym yn monitro'r canlyniadau sy'n berthnasol i anghenion y plant, pobl ifanc a'r teuluoedd gan ddefnyddio hynny i wella ein hymarfer a dangos tystiolaeth o'n llwyddiant.

Mesurwn effaith sy'n ystyrion i'n rhanddeiliaid. Mae gan lawer o'r plant a'r pobl ifanc a gefnogwn anghenion cymhleth a heriol. Rydym yn teilwrio ein cymorth i'r teuluoedd gan sicrhau ein bod yn deall pob unigolyn o'r dechrau un, er mwyn cwrdd ag anghenion y person hwnnw.

Defnyddiwn ymchwil a gwnawn ein hymchwil ein hunain hefyd i ddeall y canlyniadau sy'n bwysig i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn well.

Mae ein Strategaeth Gyfranogi'n disgrifio ein hymrwymiad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mwy o ddylanwad ar ein gwaith, gan gynnwys bod y ffordd y siaradwn am effaith yn adlewyrchu'r pethau y mae pobl ifanc yn ei ddweud sy'n bwysig iddynt.

Ar gyfer ein gweithgareddau, gan gynnwys cyfranogi, codi arian ac ymgyrchu, gosodwn amcanion clir gan adolygu eu heffaith i ddangos bod ein gweithgareddau'n rhoi canlyniadau positif i blant a phobl ifanc.

Mae mesur ein heffaith yn hanfodol oherwydd mae'n rhoi dealltwriaeth well i'n partneriaid a'n cefnogwyr o effeithiolrwydd ein gwaith, nid yn unig i ddangos gwerth am arian ond, yn bwysicach, i fod yn atebol, gan helpu ein helpu i wybod beth sy'n gweithio'n dda fel y gallwn barhau i wella ein gwasanaethau.

I fesur ac adrodd ar ein heffaith:

- Cofnodwn faint o blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau, er mwyn mesur ein cyrhaeddiad.
- Cofnodion y canlyniadau i blant a phobl ifanc (neu i'w rhieni / gofalwyr) sy'n defnyddio ein gwasanaethau.
- Rydym yn monitro a chofnodi'n rheolaidd gan gasglu tystiolaeth o welliannau yn eu bywydau.



Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn codi arian

- Defnyddiwn yr holl ddata sydd ar gael ar bob canlyniad i gyrraedd y canrannau a gyflwynwn yn yr adroddiad hwn.

Rydym hefyd yn cyflwyno system newydd o gofnodi data gan ein gwasanaethau rheng flaen (tud. 44).



# Ein cyrhaeddiad ac uchafbwyntiau ein heffaith

Yn 2022/23...

Cefnogodd ein gwasanaethau

## 5,570

o blant a phobl ifanc mewn gofal. **5%** yn fwy na'r llynedd.



Fe wnaethom hefyd gefnogi **3,476** o bobl ifanc drwy roi gwybodaeth atal digartrefedd iddynt – rhai ohonynt gyda phrofiad o fod mewn gofal neu ar gyrion gofal.

Mae **86%** o'r plant a'r bobl ifanc yn ein cartrefi plant yn fwy sefydlog, sy'n golygu nad ydynt yn cael eu symud o un cartref i'r llall.

Ar gyfartaledd, mae'r plant a'r bobl ifanc wedi bod yn byw gyda ni am **ddwy flynedd ac wyth mis\*** hyd yma. Ein nod yw cynnig cartref i blant drwy gydol eu plentynod, os yw hynny'r peth iawn i'r plentyn.

Mae **80%** o'r bobl ifanc yn ein gwasanaethau gofal hefyd wedi gwella eu sgiliau cyflogaeth.

\*ac eithrio ein hysgol breswyl

Cefnogodd ein gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc anabl

## 15,813

o bobl; **27%** yn fwy na'r llynedd.




Mae **83%** wedi gwella eu sgiliau cyfathrebu, sy'n bwysig i allu mynegi eu hunain, cyfleu eu dymuniadau, anghenion a theimladau, a datblygu perthnasoedd ag eraill.

Mae **80%** hefyd wedi dysgu sgiliau bywyd ymarferol. Mae hyn yn cynnwys sgiliau fel cefnogi plentyn anabl i fwydo ei hun a rhoi'r sgiliau a'r hyder i bobl ifanc anabl gael mynd i siopa a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Fe wnaeth ein gwasanaeth cymorth i deuluoedd, gan gynnwys ein gwasanaeth ar-lein Parent Talk, helpu

## 652,357

o blant, pobl ifanc a theuluoedd; **17%** yn fwy na'r llynedd.



Ar ôl defnyddio'r gwasanaeth cymorth i deuluoedd\*, mae ffiniau **76%** o deuluoedd yn fwy effeithiol, a **77%** o blant yn gwneud yn well yn yr ysgol.

Mae gan **73%** bobl ifanc sy'n defnyddio ein gwasanaeth cyflogaeth pobl ifanc sgiliau gwaith gwell i helpu eu hyfforddiant a chyflogaeth.

\*Gan gynnwys hybiau teuluol, canolfannau plant, gwasanaethau cymorth i deuluoedd a chymorth dwys i deuluoedd.

Cefnogodd ein gwasanaethau iechyd meddwl a lles

## 88,689

o blant, pobl ifanc a theuluoedd. **6%** yn llai na'r llynedd.



Dywedodd **99%** o'r plant a'r bobl ifanc a dderbyniodd gymorth un-i-un gan wasanaeth lles emosiynol Staffordshire eu bod wedi gwneud cynnydd gyda chyrraedd eu hamcanion. A theimlai 82% o rieni / gofalwyr fod iechyd a lles emosiynol eu plentyn yn well ar ôl derbyn ein cymorth.

Rydym hefyd wedi mwy na dyblu ein cymorth iechyd meddwl yn yr Alban – gan gynnwys mwy o gwrsela mewn ysgolion, cymorth cynnar a'r rhaglen Blŵs – gan gyrraedd 16,000 o blant, pobl ifanc a theuluoedd.

## Defnyddio modelau ar sail tystiolaeth a modelau sy'n dangos tystiolaeth

Rydym yn falch bod ein cymorth iechyd meddwl a lles wedi'i brofi i fod yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ein rhaglen Blŵs a dderbyniodd sgôr o 4+ (sgôr arbennig o uchel) gan y Sefydliad Ymyrryd yn Gynnar. A hefyd ein Grŵp Cyflawni Rhagoriaeth, sy'n rhaglen o weithgareddau a gynlluniwyd i gynorthwyo'r gwaith strategol o ddatblygu ein gwasanaethau preswyl ac i blant anabl.

Mae gwasanaethau eraill, gan gynnwys preswyl, maethu a gofal plant, yn rhoi cymorth wedi'i deilwrio i anghenion plant ac yn wasanaethau ar sail tystiolaeth a hynod effeithiol, fel y Therapi Teuluoedd Effeithiol.

### Therapi Teuluoedd Effeithiol (FFT) Ar Sail Tystiolaeth

Dechreuodd ein Therapi Teuluoedd Effeithiol (FFT) yn y 1970au i geisio chwalu'r rhwystrau a wynebir gan deuluoedd i gymryd rhan mewn therapi teuluol. Yn 2012, daeth y model ar sail tystiolaeth i'r Alban drwy bartneriaeth arloesol rhwng Cyngor Renfrewshire, Cronfa'r Loteri Fawr, a Gweithredu dros Blant.

Ers hynny mae'r gwasanaeth wedi tyfu i gynnig cymorth i deuluoedd ar draws 10 awdurdod lleol yn yr Alban.

Mae FFT yn cefnogi teuluoedd lle y mae risg sylweddol o'r teulu'n chwalu neu berson ifanc yn cael ei dynnu allan o'r cartref. Gall hynny gynnwys problemau fel gwrthdaro llafar, trais corfforol, problemau cyffuriau, ecsbloetio rhywiol mewn plentyndod ac ecsbloetio troseddol mewn plentyndod.



Mae'r therapyddion yn fedrus iawn mewn ymarfer sy'n deall trawma a chefnogi teuluoedd a brofodd ystod o wahanol anawsterau.

O'r rhai a ddefnyddiodd y gwasanaeth, mae

**91%**

o'r bobl ifanc wedi aros yn y cartref ar ôl cymryd rhan yn FFT.



Ac ar ôl eu holi am yr effaith a gafodd FFT ar eu bywyd teuluol, **dywedodd 72-91% o rieni a phobl ifanc fod pethau fel cyfathrebu, ymddygiad, lefel y gwrthdaro a sgiliau goruchwyllo'r rhieni** wedi gwella.

Gobeithiwn ehangu'r cymorth i deuluoedd ar draws yr Alban drwy FFT gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain lle bynnag y bo'n bosib.

## Gwasanaethau sicr eu hansawdd

Rydym yn falch bod llawer o'r ymyriadau a'r rhaglenni a ddarparwn drwy ein canolfannau plant, hybiau teuluol a gwasanaethau tebyg yn achrededig a / neu wedi eu sgorio gan awdurdodau allanol – er enghraifft y sgôr 'rhagorol' a roddwyd i'n hysgol arbenigol, Ysgol Headlands, ar ôl ei hasesu gan Estyn (gallwch ddarllen mwy am Ysgol Headlands ar dudalen 21). Mae hyn yn cynnwys ein meithrinfeydd Spring a'n gwasanaethau maeth.

## Meithrinfeydd a chlybiau tu allan i'r ysgol o safon uchel

Mae gennym 40 o feithrinfeydd Spring a 35 o glybiau Spring Oscars tu allan i'r ysgol. Mae pob un yn ymgorffori'r gofal gorau fel rhan graidd o'u hethos.

Drwy raglenni fel 'O'r Pridd i'r Plât' (From Seed to Plate) – gyda'r plant yn tyfu bwyd ar gyfer ei fwyta – maen nhw'n blaenoriaethu byw'n iach, chwarae yn yr awyr agored a hyblygrwydd i rieni.

Gyda 14 o'n meithrinfeydd Spring ar safleoedd milwrol, mae'r staff yn dda am greu amgylchedd cynefin a chyfarwydd i helpu plant sydd efallai'n symud o gwmpas yn aml.

Mae darparu amgylchedd cynhwysol a gweithio ag anghenion plant SEND, p'un ai y cawsant ddiagnosis eto neu beidio, hefyd yn rhan bwysig a gwerthfawr o fywyd pob dydd pob un o'n lleoliadau meithrinfa.

I gydnabod yr ethos hwn, llwyddodd Sharon Thompson, Uwch-Reolwr Gweithredol gyda Spring by Action for Children, i ennill y wobwr Rheolwr Gweithrediadau Meithrinfa / Ardal y Flwyddyn yng Ngwobrau Nursery World a roddir i unigolyn sy'n dangos sgiliau arwain a rheoli rhagorol drwy sicrhau'r ansawdd gorau mewn meithrinfeydd er budd plant, teuluoedd, staff a'r grŵp.



Cyrhaeddwyd

**8,768**

o blant ar draws ein lleoliadau Spring ac Oscars yn 2022/23. Ac enillodd 97.1% o'n meithrinfeydd Spring sgôr 'da' neu well mewn arolygiadau.



**“ Mae fy mhlentyn wedi bod yn y feithrinfa hon am fwy na chwe mis bellach ac yn gwneud mor dda. Mae ei hyder a'i leferydd wedi gwella gymaint. Mae'n dod allan yn hapus ac yn cyffroi trwyddo pan fo'n amser mynd yno. Byddwn yn sicr yn ei argymhell i deulu a ffrindiau. Mae'r staff yn hyfryd a'r cyfathrebu'n dda.”**

**Rhiant o feithrinfa Spring Carousel**



## Diogelu

Mae sicrhau diogelwch a lles pawb sy'n rhyngweithio â'n gwasanaethau'n dod yn gyntaf bob tro.

Y llynedd, parhawyd i ddarparu diogelu o'r ansawdd gorau i blant mewn perygl ar draws ein gwasanaethau.

Pob chwarter, mae ein huwch-reolwyr yn archwilio cofnodion ysgrifenedig plant a phobl ifanc (ffeiliau achos) a chanlyniad ein harchwiliadau yn 2022/23 oedd tystiolaeth, mewn 92% o'r ffeiliau achos, bod ymarfer wedi'i oruchwylio neu reolwyr yn goruchwylio ymarfer.

Mae hwn yn ddangosydd pwysig i ni gan roi sicrwydd bod staff rheng flaen yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr llinell a bod ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc o safon sy'n gyson uchel.

Rydym hefyd yn cael plant a phobl ifanc i gyfrannu at ein hadolygiad diogelu blynyddol, gan edrych yn fanwl ar yr heriau a wynebir gan blant a beth sydd angen i ni ei wneud iddynt.



# Sbotolau

## Effaith ein gwasanaethau maethu

### Maethu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelsom lai o deuluoedd yn gallu derbyn plentyn maeth. Mae ein staff rheng flaen hefyd yn gweld plant yn cael eu gadael mewn sefyllfaoedd peryglus am hirach, fel bod angen mwy o gymorth arbenigol arnynt pan fyddwn yn eu cyfarfod.

I helpu gyda'r heriau hyn, mae ein tîm maethu yng Nghymru'n dilyn model therapiwtig pwrpasol mewnlol wrth weithio gyda phlant. Yn seiliedig ar therapïau deall trawma ac ymlyniad, mae 'maethu ymlyniad' yn helpu plant i brosesu eu hanes o drawma a cham-drin ac yn edrych ar sut yr effeithiodd hyn ar eu hymddygiad a'u datblygiad emosiynol. Ac ar sail hyn, maen nhw'n creu cynllun sy'n creu diogelwch seicolegol.

Mae'r therapi'n gweithio drwy eu helpu i gael ymdeimlad hirdymor o berthyn a dod yn aelodau llawn o deulu yn y cartrefi a ddewisir ar eu cyfer. Mae'r tîm maethu yng Nghymru'n gweithio tuag at fod yn ganolfan ragoriaeth gyda darparu gofal ac iaith plentyn-ganolog.

A hefyd fel rhan o'n gwasanaethau maethu yn Lloegr, mae The Big Welcome – ein system ddigidol ar-lein o broffiliau gofalmwyr maeth – yn parhau i dawelu meddyliau a chynorthwyo penderfyniadau lleoli i blant sydd angen gofal maeth. Gall pobl ifanc weld ble y byddant yn byw, eu llofft, unrhyw anifeiliaid anwes y gallent fod yn byw gyda nhw, a'r amgylchedd yn gyffredinol.



Gall y person ifanc hefyd wedyn ofyn unrhyw gwestiynau i'r darpar-riant maeth.

Mae Fostering Scotland yn parhau i flaenoriaethu hyfforddiant magu plant therapiwtig i'n gofalmwyr maeth a staff, yn defnyddio ffynonellau allanol fel yr Athro Richard Rose a Coram BAAF, a Changing Minds. Rhoesom ffocws hefyd ar gymorth iechyd meddwl drwy gomisiynu hyfforddwyr Gweithredu dros Blant i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth Hunanladdiad Gofyn/Dweud, a rhoi hysbys i ddigwyddiadau gwella iechyd meddwl a hyfforddiant hunan-otal am ddim. A chawsom adborth gwych gan bobl ifanc yng ngwasanaeth Fostering



Scotland, a ddywedodd bethau fel: **“Dw i'n teimlo bod mam a dad yn fy ngharu.”**

Yng Ngogledd Iwerddon, arbenigwn hefyd mewn helpu teuluoedd maeth i ddarparu gofal sefydlog a hirdymor – hynny yw ar ôl 18 oed, a dod yn deulu amgen gwirioneddol i'r person ifanc.

I'n helpu, defnyddiwn ein hyfforddiant PACE a elwir hefyd yn Ymarfer Datblygiadol Dyadig neu DDP. Mae'r ymarfer deall trawma hwn wedi'i gyflwyno i bob aelod o'r tîm maethu yng Ngogledd Iwerddon, ac rydym hefyd wedi dechrau ei gyflwyno i'r rhieni maeth. Rydym hefyd wedi cydweithredu â phrosiect traws-ffiniol Ein Generation Action Mental Health i gyflwyno dulliau thematig newydd o ddelio â thrawma i geisio dyfnhau ein gofal deall trawma yng Ngogledd Iwerddon.

## Nod strategol tri:

# Dylanwadu ar benderfyniadau polisi i wella bywydau plant a phobl ifanc

### **Gweithiwn i wella bywydau plant drwy ddyfanwadu ar newid polisi. Ceisiwn gael yr effaith orau drwy ganolbwyntio ar yr anghenion mwyaf, unrhyw gyfle i ddyfanwadu ar newid, a lle y mae gan Gweithredu dros Blant arbenigedd a thystiolaeth berthnasol a phenodol.**

Gweithiwn gyda'n gilydd ar draws y sefydliad i gryfhau'r dystiolaeth dros newid drwy wneud y mwyaf o'r amgylchedd a enillwn a'n data ar wasanaethau a thrwy sicrhau ein bod yn cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn ein holl waith.

Yn ystod y llynedd, gwelsom lwyddiant gyda nifer o feysydd gwaith allweddol yr elusen.

### **Rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i fwy o blant**

Blynyddoedd cynnar bywydau plant yw'r rhai pwysicaf i'w datblygiad. Rydym wedi llwyddo i eiriol dros gael polisiâu i roi mwy o ffocws ar bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a thros newidiadau penodol er mwyn rhoi cymorth gwell i rieni a'u plant.

Yn Lloegr, cyhoeddodd y llywodraeth £300m ar gyfer 75 o hybiau teuluol newydd. Roedd hynny'n cynnwys £50m ar gyfer gwasanaethau cymorth magu plant i rieni plant o dan 2 oed.

Roeddem wedi bod yn galw am hyn yn ein hymchwil 'Beyond Reach', i ddangos bod llawer o rieni'n colli allan ar wasanaethau blynyddoedd cynnar hollbwysig. Roeddem yn arbennig o falch bod y llywodraeth wedi cyhoeddi disgwyliadau manwl ar gyfer hybiau teuluol newydd, sy'n golygu mwy o gysondeb o ran gwasanaeth ar draws y wlad – gan eiriol dros gael 'gwarant gwasanaeth gofynnol'.

Chwaraewn rôl ehangach mewn hyrwyddo pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar drwy ein gwaith â'n Noddwr, Tywysoges Cymru, a'i Chanolfan Plentyndod Cynnar y Sefydliad Brenhinol. Mae Imran Hussain, ein Cyfarwyddwr Polisi ac Ymgyrchu, yn gynghorwr arbenigol i'r Ganolfan ac rydym wedi gallu cyfrannu at eu gwaith fydd yn chwarae rhan fawr mewn sicrhau bod plant ifanc yn cael mwy o sylw gan wneuthurwyr polisi.

Ac yng Ngogledd Iwerddon, cawsom ein gwahodd i'r Grŵp Hollbleidiol ar Iechyd Meddwl yn Chwefror 2023 i gyflwyno tystiolaeth ar bwysigrwydd buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar a bod angen cymorth iechyd meddwl babanod gwell a chynt i deuluoedd.

### **Helpu i wella'r system gofal cymdeithasol plant**

Yn y DU mae 108,000 o blant mewn gofal ar unrhyw adeg. Rydym wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i dynnu sylw taer at, a gwella, y ffordd y darperir gofal cymdeithasol plant ar draws y wlad.

Rhoesom blant a phobl ifanc gyda phrofiad gofal wrth galon gwaith llywodraeth San Steffan ar ofal cymdeithasol plant drwy arwain Ddiwrnod Gweithredu 'It's Our Care' y clymbleidiau. Fe wnaethom weithio gyda chwe elusen arall i helpu dros 90 o bobl ifanc gyda phrofiad gofal i deithio i San Steffan i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn ymateb y llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant.

Cwrddodd y bobl ifanc ag ASau, gweinidogion, gweinidogion y gwrthbleidiau, ac uwch-swyddogion. Llwyddodd eu gwaith i sbarduno'r Adran Addysg i roi llawer mwy o ffocws ar ba mor bwysig yw gwrandao ar blant.

Fe wnaethom gyfrannu'n weithredol at Adolygiad Annibynnol Lloegr o Ofal Cymdeithasol Plant gan Josh MacAlister, gan gynnal ymweliad i Josh a'i dîm yn Newcastle lle y cwrddodd â theuluoedd a staff fel rhan o'i adolygiad o'r system gofal cymdeithasol.

Roedd yr adolygiad hwn a strategaeth y llywodraeth ar gyfer gofal cymdeithasol yn Lloegr, 'Safe and Stable Homes Built on Love', yn cefnogi ein hargymhelliad bod wir angen gosod y system ar sylfeini ymyrryd yn gynnar. Roedd ein hymchwil, 'Early help is a crucial public service', yn un o'r darnau ymchwil elusennol a ddyfynnwyd gan y llywodraeth i ddadlau dros ffordd newydd o gefnogi teuluoedd, dull fydd yn cael ei dreialu mewn 12 awdurdod lleol yn Lloegr. Fe wnaethom weithio'n agos â swyddogion i sicrhau bod cymorth cynnar yn rhan allweddol o strategaeth newydd y llywodraeth.

Gallai cymorth gwell i deuluoedd olygu bod gan gannoedd o filoedd o blant siawns well o ffynnu pob blwyddyn, a degau o filoedd siawns well o dyfu i fyny yn eu cartrefi eu hunain.

Yn yr Alban rydym wedi parhau i gyfrannu ar weithredu'r Addewid (The Promise). Rydym wedi sefydlu rhwydwaith o Bencampwyr Addewid gan eiriol yn llwyddiannus i sicrhau bod gofal cymdeithasol plant wedi'i eithrio o'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol newydd.

Yng Ngogledd Iwerddon, gofynnwyd i ni ymuno â'r Comisiwn Tlodi Gofalwyr sy'n ceisio darparu ymchwil newydd i nifer y gofalwyr di-dâl a'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu tlodi, i oleuo polisi Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn y dyfodol. Rydym yn gweithio i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau gofalwyr ifanc wedi eu cynrychioli yn y broses hon.

Ac rydym hefyd wedi cyfrannu at adolygiad yr Athro Ray Jones o Ofal Cymdeithasol Plant yng Ngogledd Iwerddon a bellach yn gweithio'n frwd ag eraill yn y sector i dynnu sylw at ba mor bwysig fydd y pethau a ddysgir, a'r argymhellion, i sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc y wlad. Fe wnaethom hefyd gyflwyno tystiolaeth bwysig i'r Pwyllgor Iechyd gan sicrhau pasio'r Mesur Mabwysiadu a Phlant hollbwysig cyn i'r mandad olaf ddod i ben.

Ar hyn o bryd mae dros 80% o gartrefi gofal i blant a phobl ifanc yng Nghymru'n cael eu rhedeg er-gwneud-elw gan y sector preifat. Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i ddileu elw preifat o'r sector plant sy'n derbyn gofal.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau nad yw unigolion neu endidau corfforaethol yn elwa o'r arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn gofalu am blant mewn gofal a'i fod ond yn cael ei wario ar wasanaethau plant i roi profiadau a chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc. Rydym eisiau deddfwriaeth sylfaenol sydd ond yn caniatáu i ddarparwyr di-wneud-elw gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gwasanaeth cartref gofal plant neu wasanaeth maethu, gan roi tystiolaeth yn Chwefror 2023 i bwllgor y Senedd sy'n trafod diwygio'r system plant mewn gofal ar draws y bwrdd. Byddai hynny'n golygu mai dim ond darparwyr di-wneud-elw a allai ofalu am blant yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o'n gwaith ehangach i ail-ddylunio sut y gofalwn am blant a phobl ifanc - i wneud ein gorau dros bobl ifanc, teuluoedd a chymunedau.

Rydym wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac yn rhan annatod o baneli rhanddeiliaid strategol allweddol y llywodraeth sy'n trafod y mater cymhleth hwn. Mae'n gyfle anferth i Gweithredu dros Blant ddylanwadu ar newid mawr mewn polisi er budd llawer o blant yng Nghymru.

Ac yn olaf, i helpu ein teuluoedd maethu gyda'r argyfwng costau byw, rhoesom grant cymorth o £75 iddynt yn Ionawr 2023.

## **Gweithio i atal tlodi plant**

Ar draws Gweithredu dros Blant, gwyddom fod pwysau ariannol ar deuluoedd yn golygu y bydd angen mwy o gymorth ar y teuluoedd a'u plant.

Gall tlodi hefyd ei gwneud yn anoddach helpu teuluoedd sy'n wynebu talcen caled dim ond i geisio cael dau ben llinyn ynghyd.

Rydym wedi parhau i weithio yn y pedair gwlad i leihau tlodi plant a nifer y plant sy'n mynd heb hanfodion bywyd. Fe wnaethom ymgyrchu ac eiriol dros gynyddu Taliad Plant yr Alban cyn cael cadarnhad y byddai cynnydd o £25 yr wythnos yn cael ei gyflwyno o 14 Tachwedd 2022 ymlaen, gan hefyd ymuno â 120 o sefydliadau a ysgrifennodd at Brif Weinidog yr Alban i ofyn iddi ddyblu taliad pontio'r Taliad Plant. Arweiniodd hyn at daliad gwerth £260 i deuluoedd mewn cyni.

Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, rydym wedi llwyddo i roi pwysau ar eu llywodraethau i ddiweddarau eu cynlluniau i leihau tlodi plant. Yng Nghymru, ynghyd ag elusennau eraill a Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, rydym wedi ymgyrchu'n frwd dros gael Llywodraeth Cymru i ddiweddarau ei strategaeth tlodi plant o 2017 ymlaen. Mae bellach wedi cytuno ac wedi ein gwahodd i fod yn aelod o'i grŵp cyfeirio allanol sy'n edrych ar strategaeth tlodi plant ddiwygiedig.

Fe wnaethom hefyd gyflwyno tystiolaeth i dîm Strategaeth Gwrthdlodi Ddrafft yr Adran Gymunedau ar ddatblygu Taliad Plant yng Ngogledd Iwerddon.

Rydym wedi bod yn arwain y ddadl gyhoeddus ar ba mor annigonol yw budd-daliadau a'r methiant parhaus i gynyddu budd-daliadau'n unol â chwyddiant. Roeddem yn falch bod y llywodraeth wedi gwrandao arnom ni ac eraill drwy godi budd-daliadau'n unol â chwyddiant yn Ebrill 2023. Bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i deuluoedd incwm isel gyda phlant. Mae sefydliadau eraill wedi adleisio ein galwad am gorff newydd annibynnol i gynghori gweinidogion ar godi budd-daliadau er mwyn gwreiddio tegwch mewn penderfyniadau am fudd-daliadau yn y dyfodol.



Rydym wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau'n tynnu sylw at brofiad byw o dlodi plant, gan gynnwys dadansoddiad newydd o'n Cronfa Argyfwng ac adroddiad blaenllaw'n dangos bod tua hanner y plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn y DU yn byw mewn cartrefi lle y mae'r rhieni'n wynebu rhwystrau sylweddol i weithio.

### Cefnogi plant sy'n cael eu hecsbloetio

Ar sail ein profiad o gefnogi plant yn y system gyfiawnder, rydym wedi gallu dylanwadu'n effeithiol ar Fesur Gofal a Chyfiawnder Plant yr Alban a di-droseddu plant sy'n cael eu hecsbloetio yng Nghymru.

Yn yr Alban, mae ein Prif Weithredwr Paul Carberry'n aelod o'r Bwrdd Gwella Cyfiawnder Ieuencid a Thasglu Troseddu Cyfundrefnol Difrifol Llywodraeth yr Alban; mae hefyd yn gynghorwr gweinidogol ar godi'r Isafswm Oed Cyfrifoldeb Troseddol ac yn cadeirio'r ffrwd waith Community Confidence.

O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd cynllun peilot yn ddiweddar i geisio gwarchod plant a phobl ifanc rhag cael eu hecsbloetio gan grwpiau troseddu cyfundrefnol difrifol, ac mae'n cael ei ddatblygu gan wasanaeth erlyn yr Alban, Gweithredu dros Blant a phartneriaid eraill. Ei nod fydd codi ymwybyddiaeth o ecsbloetio troseddol ac annog asiantaethau perthnasol i rannu gwybodaeth er mwyn gwneud mwy o ymyrryd yn gynnar.

### Dim Byd Amdanaf Fi, Hebof Fi: Llais pobl ifanc

Mae cynnwys lleisiau pobl ifanc yn ein gwaith yn flaenoriaeth fawr. Ar draws yr elusen, gweithiwn i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan annatod o'r broses o gynllunio, adnabod anghenion, dod o hyd i atebion, a gweithredu rhaglenni newydd a llywodraethu.

Mae ein Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yng Ngogledd Iwerddon wedi gwneud ymchwil ar-y-cyd â gofalwyr ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ar sail eu profiadau yn y system addysg. Lanswyd ein hadroddiad Gofalwyr Ifanc mewn Addysg ar ôl trafod ag ystod eang o Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol (MLA), Comisiynydd Plant Gogledd Iwerddon a nifer fawr o randdeiliaid addysgol. Mae'n cynnwys argymhellion uniongyrchol gan ofalwyr ifanc i wneuthurwyr penderfyniadau.

Fe wnaethom hefyd recriwtio 26 o bobl ifanc 13-25 oed i fod ar ein Bwrdd Llysgenhadon Ifanc newydd sbon. Ochr yn ochr â'r bobl ifanc gyda phrofiad gofal sydd ar ein pwyllgorau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, bydd y Llysgenhadon Ifanc yn helpu i ddylanwadu ar ein gwaith gan leisio barn pobl ifanc yn gyffredinol drwy gyfrannu eu persbectif a'u syniadau i drafodaethau a phenderfyniadau strategol. Byddant hefyd yn rhan o'n prosiectau gweithredu i ddweud wrthym beth sy'n bwysig i bobl ifanc.

Dyma enghreifftiau o sut wnaeth pobl ifanc ein helpu'r llynedd:

- Recriwtio staff ac ymddiriedolwyr, gan gynnwys y Prif Weithredwr.



- Penderfynu pa syniadau newydd i fuddsoddi ynddynt fel rhan o'n Dragon's Den.
- Cyflwyno gwybodaeth i'n hadolygiad diogelu.
- Cyfrannu cynnwys i'n cyfathrebu â chefnogwyr.
- Cyfarfod â Thywysoges Cymru, ein Noddwr.
- Ymuno â phwyllgorau cynghori yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.
- Rhannu eu profiadau â'r llywodraeth yn ystod ei Diwrnod Gweithredu 'It's Our Care', ac mewn digwyddiadau i gefnogwyr.
- Rhoi eu barn am ymateb y llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant (mwy o fanylion uchod).

## Gadewch i ni gyfarfod â rhai o'n Llysgenhadon Ifanc newydd



“ Mae Gweithredu dros Blant wedi fy helpu'n ofnadwy dros y blynyddoedd diwethaf felly pan gododd y cyfle i fod yn Llysgennad Ifanc, roeddwn yn awyddus iawn i wneud y rôl a helpu eraill fel fi, a chael cyfle i wneud pethau newydd hefyd. Edrychaf ymlaen at weld lle y bydd y rôl yn mynd â fi a gobeithio at wneud newidiadau ar yffordd!”

**Bethany** Gogledd Iwerddon



“ Roeddwn eisiau bod yn Llysgennad Ifanc oherwydd dw i wastad wedi bod eisiau helpu pobl ifanc a theimlais fod hyn yn gyfle gwych i wneud hynny. Dw i hefyd wedi bod yn ddigon ffodus i wneud profiad gwaith gyda thîm Gweithredu dros Blant Greenock a gweld drosof fy hun faint y maen nhw'n helpu, oedd yn gwneud i mi fod eisiau helpu pobl ifanc yn fwy fyth.”

**Chloe** Yr Alban


“ Dw i'n teimlo'n gryf iawn am helpu plant a hoffwn gael gyrfa mewn pediatreg. Dw i hefyd yn aelod o gyngor ieuencid fy mwrdeistref felly drwy fod yn un o Lysgenhadon Gweithredu dros Blant dw i'n gobeithio dod i ddeall yn well y problemau y mae plant yn eu hwynebu heddiw yn y DU a phwyso am newid.”

**Mithraya** Lloegr



“ Roeddwn eisiau ymuno â'r Bwrdd Llysgenhadon Ifanc oherwydd wrth dyfu i fyny – yn rhannol o fod yn ofalwr ifanc – pan welais bobl ag anghenion sydd angen i bobl eu cyfarfod neu rywun nad yw eu llais yn cael ei glywed, roeddwn yn teimlo'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael y cymorth oedd ei angen arnynt ac yn cael eu clywed. Dw i wastad yn dweud os gallaf wneud i ddim ond un person wenu, ei fod yn werth y gwaith, yr amser a'r egni. Mae angen gwneud i bob eiliad gyfrif, gwneud rhywbeth y tu allan i'ch amgylchedd cyffyrddus a helpu rywun – wyddoch chi ddim ba bethau positif a ddaw o wneud hynny.”

**Noah** Cymru



**Nothing about me, without me**

# Nod strategol pedwar:

## Denu, datblygu a chadw staff a gwirfoddolwyr disglair

**Ein pobl sy'n gwneud Gweithredu dros Blant yr hyn ydyw. Dyna pam ei bod mor hanfodol i ni gefnogi lles staff a gwirfoddolwyr, eu helpu i symud ymlaen yn broffesiynol a sicrhau'n rhagweithiol bod pawb yn cael ei weld, clywed a'i werthfawrogi.**

Y llynedd fe wnaethom lwyddo i gymryd camau breision i wella sut y gwnawn bethau, o les staff a gwirfoddolwyr i'w datblygiad. Rydym wrth ein bodd o fod wedi ennill nifer o achrediadau sy'n cydnabod ein hymrwymiad i'n staff a'n gwirfoddolwyr ac i'n helpu i wneud Gweithredu dros Blant yn gorff cynhwysol ac yn lle gwych i weithio.

### Datblygu staff a chyrraedd potensial

**INVESTORS IN PEOPLE®**  
We invest in people Silver

Roeddem mor falch o ennill yr **achrediad arian fel Buddsoddwyr mewn Pobl**.

Mae ein grwpiau rhwydweithiau staff, Llwybrau Dysgu Amrywiaeth a Chynhwysiant, y Fframwaith Cymhwysedd i Reolwyr, ein Cymorthyddion Cyntaf Iechyd Meddwl, a'n pencampwyr lles, ond yn rhai o'r pethau a gyfrannodd at yr achrediad.

Meddai Paul Devoy, CEO Buddsoddwyr mewn Pobl: **"Hoffem longyfarch Gweithredu dros Blant. Mae achrediad arian ar 'Buddsodwn mewn pobl' yn ymdrech ragorol i unrhyw sefydliad ac yn rhoi Gweithredu dros Blant mewn cwmni da iawn gyda llu o sefydliadau eraill sy'n deall gwerth eu pobl."**

Ac meddai Mike Knight, ein Prif Swyddog Pobl: **"Dim ond 15% o sefydliadau sy'n ennill yr arian. Mae'n cadarnhau ein lle fel cyflogwr dewisol a hefyd yn golygu ein bod i gyd yn gwneud ymdrechion parhaus i sicrhau bod ein harferion gwaith yn deg, cynhwysol a chyson."**

Yn ogystal â'r gamp hon, rydym hefyd wedi peilota rhaglen datblygu talent, **Datblygu Potensial**, ar gyfer cohort o staff sy'n awyddus, a gyda'r potensial, i symud mewn i swydd reoli.

Rydym yn swyddogol bellach yn **gyflogwr cyfeillgar i rai sy'n gadael gofal, gan ennill statws partner aur ar draws y DU**. Mae'r Cyfamod Gadael Gofal yn rhaglen gynhwysol i helpu pobl ifanc 16-25 oed sy'n gadael gofal i fyw'n annibynnol. Mae cefnogi rhai sy'n gadael gofal yn bwysig iawn i ni, fel elusen sy'n gweithio'n uniongyrchol i helpu plant yn y system ofal. Rydym yn falch iawn o fod yn rhan o'r gwaith hanfodol hwn, gyda'n partner y John Lewis Partnership.

A chawsom ein **cydnabod hefyd yng Ngwobrau 100 Cyflogwr Prentisiaeth Gorau 2022**.



### Datblygu arweinwyr, diwylliant a lles

Rydym wedi datblygu ystod o lwybrau dysgu ar gyfer ein staff preswyl i'w helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol yn ein cartrefi plant. Gall staff a rheolwyr ennill gwybodaeth a sgiliau cynhwysfawr i helpu pobl ifanc gyda'r amrediad eang o broblemau sydd ganddynt o ganlyniad i'w profiadau niweidiol blaenorol.

Rydym hefyd wedi cyflwyno ein Fframwaith Cymhwysedd i Reolwyr ar gyfer uwch-arweinwyr i'n proses adolygu staff eleni.

Pan ddaw at les, mae ein strategaeth yn rhedeg tan ddiwedd 2023, gan adeiladu ar ein gwahanol adnoddau lles ac wedi'i chefnogi gan gynllun gweithredu blwyddyn i flwyddyn ynghyd â thargedau sefydliadol clir i gefnogi lles ein holl staff. Eleni rydym wedi trefnu gweminarau iechyd a lles misol sydd wedi eu recordio fel bod ein staff i gyd yn gallu gwrandao arnynt. Cynhaliwyd nifer o sesiynau ioga cadair a welodd rai adrannau a gwasanaethau'n ymuno fel grwpiau, gan hefyd drefnu amrywiol weminarau ar gyfer Wythnos Iechyd Meddwl y Byd. Rydym wedi gweithio'n agos â darparwr ein Rhaglen Cymorth Staff i godi ymwybyddiaeth ein staff o'r manteision sydd i'w cael a'r pethau newydd a ychwanegwyd i'r gwasanaeth, sydd wedi cael mwy o bobl i'w defnyddio. Ac fel rhan o'r rhaglen Work Well Live Well, fe wnaethom lansio cylchlythyr staff misol i rannu gwybodaeth, adnoddau, digwyddiadau a newyddion am iechyd a lles yn Gweithredu dros Blant Gogledd Iwerddon.



## Lle gwych i weithio

Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gwybod pa mor ddiflino y mae'r staff yn gweithio'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd angen ein help mwy nag erioed. Gwyddom fod yr argyfwng costau byw'n effeithio ar staff hefyd. Cefnogwn ein staff gyda'r heriau ariannol hyn drwy dalu cyflog byw gwirioneddol ac mae ein **cyflog isaf bellach yr un fath â chyflog isaf y Sefydliad Cyflog Byw**. Yn Ebrill 2022 gwelodd hyn rai o'n staff ar y cyflogau isaf yn derbyn codiad cyflog o dros 10%.

Rydym wedi ailwampio ein **manteision disgownt i staff** gydag aelodaeth o Blue Light a Reward Gateway. A gall staff ymuno â **nifer gynyddol o rwydweithiau staff** sy'n cynrychioli mwy o grwpiau a chynghreiriau.

Mae'r elusen hefyd wedi ennill **Gwobr Platinwm Buddsoddi mewn Pobl Ifanc (IIYP) – yr achrediad uchaf sydd ar gael i sefydliadau yn yr Alban**. Mae Gweithredu dros Blant yn un o ddim ond 10 sefydliad i ennill y wobwr sy'n cydnabod ymrwymiad cryf i harneisio talentau pobl ifanc a chynnig llwybr iddynt ddod yn eu blaenau gyda'r elusen.

Rydym yn **dal ein gafael ar yr achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr**, gan obeithio ei adnewyddu yn 2023. Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu'n helaeth at ein gwaith drwy helpu i wella ein hadnoddau gwirfoddoli a chynllunio prosesau newydd.



Receiving our Investors in Young People Award

Yn 2022/23, cyfrannodd ein 1,006 o wirfoddolwyr tua 33,376\* awr o gymorth ac rydym mor ddiolchgar iddynt.

Rydym hefyd wedi bod yn datblygu Strategaeth Gwirfoddoli ar gyfer 2023-26 i'n helpu i ychwanegu at, a gweithio gyda chohortau newydd o wirfoddolwyr a chefnogi ystod eang o weithgareddau ar draws y sefydliad. Mae'r strategaeth yn cyflwyno ein hamcanion ar gyfer adfywio gwirfoddoli, y camau a gymerwn i gyflawni'r amcanion hyn a'r gefnogaeth fydd ei hangen gan y sefydliad er mwyn llwyddo.

\*Ffigur wedi'i gyfrifo'n defnyddio'r nifer gyfartalog o oriau gwirfoddoli o'r flwyddyn flaenorol a'i lluosu â'r nifer bresennol o wirfoddolwyr.

Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr arolwg People Insight i ddarparu'r arolwg gwirfoddoli annibynnol allanol cyntaf erioed ar gyfer Gweithredu dros Blant – Your Voice Matters. Rydym wedi'i ddylunio i gael gwybod sut y mae gwirfoddolwyr yn teimlo am wirfoddoli gyda ni, eu profiad gyda ni a sut y cyfathrebwn a gweithiwn gyda nhw. Rhannwyd y canlyniadau'n fewnol i helpu timau i wneud newidiadau positif.

## Gwrth-hiliaeth, amrywiaeth a chynrychiolaeth ragweithiol

Rydym yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a gweithio'n gynhwysol. Rydym wedi datblygu **Llwybr Dysgu Amrywiaeth a Chynhwysiant** i'r holl staff ei ddefnyddio, yn ogystal ag awgrymu dysgu ychwanegol i reolwyr i'n helpu i barhau i gyflawni ein hamcanion.

Y llynedd fe wnaethom barhau i weithio tuag at **ddod yn sefydliad gwrth-hiliol** drwy amcanion ein cynllun gweithredu. Mae hyn yn cynnwys darparu cynllun hyfforddiant gwrth-hiliaeth pilot, canllaw terminoleg gwrth-hiliaeth i rymuso staff i ddefnyddio iaith gynhwysol, ynghyd â'r dysgu parhaus drwy weminarau, adnoddau a siaradwyr allanol. Rydym hefyd wedi sefydlu gweithgorau Amrywiaeth a Chynhwysiant Cenedlaethol ym mhob gwlad gan greu amcanion clir yn unol â'n cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth.

Rydym yn ymrwymedig i **leihau'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau** dros y blynyddoedd nesaf. Mae hyn o fewn ein targed o 5% y naill ochr i fwllch cyflog o 0% rhwng y rhywiau (lle y byddai dynion a merched yn ennill yr un faint ar gyfartaledd).



Derbyn yr achrediad amrywiaeth efydd

Rydym mor falch bod **Gweithredu dros Blant Gogledd Iwerddon wedi ennill achrediad efydd am Amrywiaeth** sy'n cydnabod ein hymrwymiad i greu

gweithle mwy amrywiol a chynhwysol lle y mae cydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo y dangosir parch a gwerthfawrogiad atynt a bod ganddynt fynediad cyfartal at gyfleoedd.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynhwysiant, rydym yn parhau i flaenoriaethu ein statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd.



Mae'r cynllun Hyderus o ran Anabledd yn creu ymchwydd o newid sy'n annog cyflogwyr i weithredu er mwyn gwella sut y maen nhw'n recriwtio, cadw a datblygu pobl ag anabledd.

Rydym wedi cwblhau'r hunanasesiad Hyderus o ran Anabledd ac yn cyflawni'r holl gamau craidd i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd gan weithio gyda'n tîm recriwtio, rheolwyr a'n gweithgor.

Yn barod rydym wedi cymryd camau positif i recriwtio, fel ymdrechion gweithredol i recriwtio staff anabl. A hefyd wedi symleiddio ein proses addasiadaub rhesymol i'w gwneud yn haws i staff a rheolwyr ei defnyddio.

## Gwobrwo staff

Enillodd weithiwr cymdeithasol maethu Gweithredu dros Blant, Fiona Hewitt, 'Wobr Cyfraniad Eithriadol gan Weithiwr Cymdeithasol' yn seremoni gwobrau blynyddol y Rhwydwaith Maethu.



Enwebwyd Fiona – gweithiwr cymdeithasol maethu yng Ngogledd Iwerddon – am y wobwr glodwiw gan ei rheolwr, David, a ddywedodd: **“Mae Fiona yn weithiwr cymdeithasol anhygoel sy'n rhoi ei chwbl i sicrhau y gall plant gyflawni'r gorau. Mae'n ysbrydoliaeth nid yn unig i'r gwasanaeth maethu cyfan ond i bawb sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal.”**



## Nod strategol pump:

# Ysbrydoli cymorth ar gyfer ein gweledigaeth a'n cenhadaeth

### Rydym eisiau cyrraedd mwy o bobl gyda'n hachos a'n gwaith fel y gallwn helpu mwy o blant bregus ar draws y DU.

Rydym mor falch o fod wedi cynhyrchu **2.4 biliwn o gyfleoedd i weld ein gwaith** ar draws ein holl waith cyfryngau rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Diolch i lwyddiannau allweddol iawn.

Y llynedd roeddem yn rhan o hysbyseb Nadolig eiconig John Lewis, gyda'n brand yn weladwy yn siopau John Lewis a Waitrose. Mae'r bartneriaeth anhygoel hon wedi ein helpu i gyrraedd cynulleidfaedd newydd drwy neges bwysig am blant mewn gofal, ac wedi ein helpu i godi mwy o arian ac ymwybyddiaeth o'r brand dros y Nadolig. Ond nid dyma'r unig bartneriaeth sydd wedi ein helpu i gyrraedd cefnogwyr newydd. Fe wnaethom hefyd adeg y Nadolig bartneru â'r Telegraph i rannu straeon gan rai o'n staff a'n gwasanaethau gan gynhyrchu 155 darn o newyddiadura a 268 miliwn o gyfleoedd i bobl gael darllen am ein gwaith.

Ar wahân i'r partneriaethau gwych hyn rydym wedi parhau i annog ein staff, cefnogwyr a'n rhwydweithiau i hyrwyddo ein hachos ar draws y DU. Mae straeon newyddion, digwyddiadau rhanbarthol, llysgenhadon 'seleb' ac ymgyrchoedd codi arian wedi rhoi cyfleoedd gydol y flwyddyn i siarad am ein gwaith. Roedd ein hymgyrch codi arian flaenllaw, Secret Santa (tudalen 43) hefyd ar y teledu am y tro cyntaf y llynedd, gan roi cyfle i ni gyrraedd cynulleidfa fwy nag erioed.

### Partneriaeth â'r Telegraph

Roedd Gweithredu dros Blant yn falch iawn o fod un o bedwar partner elusennol a fu'n rhan o Apêl Elusen Nadolig y Telegraph. Llwyddodd yr Apêl i godi £726,000 – yr ail swm uchaf i gael ei godi gan ddarllenwyr yn y 10 mlynedd diwethaf – gyda £120,000 ar gyfer gwaith Gweithredu dros Blant.

Arweiniodd yr Apêl at greu llwyth o erthyglau manwl a phositif am ein gwaith, mewn print ac ar-lein.

Dangosodd yr erthyglau ystod o wasanaethau o Parent Talk i Nightstop (gwasanaeth digartrefedd), gwasanaeth Gofalwyr Ifanc a'r rhaglen Blŵs (cymorth iechyd meddwl), i enwi dim ond rhai. Roedd un o'n cefnogwyr 'seleb', Ronnie Archer Morgan – cyflwynydd ar raglen Antique Roadshow y BBC – wedi tyfu i fyny yn un o'n cartrefi plant gan siarad yng nghyngerdd carolau'r Telegraph i ysbrydoli cefnogaeth a chodi arian ar gyfer ein gwaith.



Ronnie Archer Morgan (canol) gydag Amanda Taylor (ar y dde), y Cyfarwyddwr Gweithredol, oedd yn y cyngerdd gyda'i merch Alice, sydd hefyd yn y llun.



## Yr ymgyrch Boycott Your Bed

Daeth staff, cefnogwyr a rhwydweithiau at ei gilydd i hyrwyddo a chodi arian ar gyfer yr ymgyrch Boycott your Bed. Roeddent yn gadael eu gwelyau cyffyrddus i gymryd rhan yn ein hymgyrch cysgu allan flynyddol, gan godi dros £600,000. Roedd yn llwyddiant ysgubol gyda digwyddiadau ar draws y DU.

1. Yn Llundain, mi fuodd timau o Salesforce, Microsfot, Accenture, CMC Markets a llawer mwy'n cysgu allan yn Trinity Square Gardens, gyda Jessica Hynes a Jenny Agutter yn ymuno â nhw.
2. Yn ninas Belffast, mi fuodd staff o fusnesau'n cynnwys MCS Group, Version 1, Civica, BT a Liberty IT yn cysgu'r noson yn eu sachau cysgu ar Ystâd Stormont.
3. Sgwâr Mileniwm Leeds oedd ble y buodd staff o from Harvey Nash, DTP, Burberry, Irwin Mitchell ac eraill yn cysgu.



4. Ar yr un pryd, daeth staff o Scottish Enterprise, CCL Logistics, Morton Fraser, Be-IT, BJSS, Pentest a busnesau eraill ar ei gilydd ar noson oerllyd yng Ngerddi Sgwâr Blythswood yn ninas Glasgow.
5. Penderfynodd ein partner corfforaethol Iceland Foods gynnal digwyddiad tra gwahanol drwy gysgu allan yn Zipworld Gogledd Cymru. Cafodd y Cadeirydd Gweithredol Richard Walker a'r Cyfarwyddwr Gwerthiannau Grŵp Paul Dhaliwal noson o gwsg anghyffyrddus ond cofiadwy'n hongian ar sip-lein mewn pabell grog, gyda staff eraill yn cysgu ar drampolinau mawr mewn ogof!

Yn ogystal â'r digwyddiadau byw hyn, roedd pobl drwy'r wlad yn cael noson ddigwsg o weithgareddau gan aros yn effro drwy'r nos. O nosweithiau sinema i ymweld ag ystafell ysbrydion mewn castell bwganol, roedd yn hwyl gweld beth a wnaeth bawb â'r 12 awr ychwanegol.

## Y Laver Cup

Roeddem mor falch o gael ein dewis gan ein Noddwr, Tywysoges Cymru, i fod yn un o ddwy elusen i elwa o werthu tocynnau a sylw brand ar ddiwrnod ymarfer digwyddiad tenis y Laver Cup. Roedd ein masgot, Cosmo (yn y llun isod) wedi swyno'r dorf a chodwyd £189,964 drwy werthu tocynnau a nawdd corfforaethol i Gweithredu dros Blant.

Aeth Oliver, wyth oed, o Norfolk, i'r twrnament gyda'i fam Christina a ddywedodd: "Cawsom amser anhygoel. Roedd Oliver yn eiddgar iawn am ei drip ac mae hyd yn oed wedi mynd â'i het, crys-t, y bêl a'r tocynnau tiwb i'r ysgol heddiw i ddweud wrth bawb am ei brofiad."

6. Roedd 11 o blant, eu rhieni, gofalwyr a staff, wedi cael y fraint o eistedd yn rhai o'r seddi gorau yn yr O2 yn Llundain ar gyfer diwrnod ymarfer y Laver Cup.
7. Roedd ein masgot, Cosmo, wedi gwneud argraff ar y 16,000 o wylwyr a oedd yno i wylio Roger Federer, Andy Murray, Rafael Nadal a Novak Djokovic ar y cyrtiau tenis.



# Sbotolau

## Y John Lewis Partnership

Roeddem wrth ein bodd yn ymuno â'r John Lewis Partnership i gefnogi eu hymrwymiad hirdymor i bobl ifanc sydd mewn gofal a gyda phrofiad gofal. Defnyddiodd John Lewis eu hamser pwysicaf yn y flwyddyn – [eu hysbyseb Nadolig](#) – i roi sbotolau ar blant gyda phrofiad gofal. Roedd yr hysbyseb wedi helpu pobl ifanc a fu mewn gofal yn blant i deimlo'n weladwy ac wedi ysbrydoli'r cyhoedd i ddod at ei gilydd dros blant mewn gofal. **Roedd yr ymgyrch wedi cael sylw mewn 1,004 o erthyglau, gan greu bron i 30.1m o olygon.**

**“ Mae John Lewis yn dangos i ni bod pobl yn malio amdanom a'n bod yn cyfrif.”**

**Rachel, ymgyrchydd Gweithredu dros Blant**

Fe wnaethom hefyd elwa o'r arian a gododd staff a chwsmeriaid, swm anhygoel o £637,771, sy'n ariannu tair rhaglen hanfodol a thrawsnewidiol. Rydym yn ehangu cyrhaeddiad ein dwy raglen Wrap (cymorth therapiwtig hanfodol i helpu i atal lleoliadau maeth rhag methu) a'n rhaglen Gweithwyr Pontio (gofal ac arweiniad hollbwysig i bobl ifanc sy'n pontio o ofal i fyw'n annibynnol), a bydd gwasanaeth cyflogadwyedd newydd yn cael ei gyd-ddylunio gan bobl ifanc gyda phrofiad gofal i'w helpu gyda'r cam nesaf ystyrlon yn eu bywydau.

Fe wnaeth y John Lewis Partnership hefyd roi cyfleoedd arbennig ychwanegol i blant yn ein gofal dros y Nadolig. Fe wnaethant drawsnewid yr ardaloedd cymunedol mewn dau o'n cartrefi preswyl i blant, gwahodd plant a'u gofalwyr i siopau John Lewis i fwynhau profiadau hudolus yn Ogor Siôn



Rhys gyda Caroline o Gweithredu dros Blant

Corn a thripliau siopa VIP, gan hefyd roi addurniadau a thalebau anrhegion Nadolig i bobl ifanc mewn cartrefi preswyl.

Gwylwch y gwaith o drawsnewid y cartrefi gofal: [Trawsnewid cartref gofal gan John Lewis a Gweithredu dros Blant ar YouTube Makeover on YouTube](#)

**“ Mae'n ffraind cael cwmni fel John Lewis yn gwneud hyn i ni a hoffwn ddiolch o galon am wneud i'r lle deimlo'n fwy fel cartref!”**

**Rhys, sydd wedi byw yn y cartref am dros dair blynedd.**

**“ Roedd y plant i gyd wedi mwynhau eu diwrnod gymaint, yn dweud eu bod yn teimlo'n wirioneddol arbennig ac yn methu â chredu'r profiad gwych a'r anrhegion a gawsant! Diolch o galon i John Lewis am roi atgofion i'w trysori i'n pobl ifanc.”**

**Rachel Matthewson, Rheolwr Cofrestredig Westacres, Gweithredu dros Blant**

.....  
Llwyddodd staff a chwsmeriaid John Lewis i godi'r swm anhygoel o

**£637,771**





## Nod strategol chwech:

# Cynyddu'r cyfraniad ariannol o godi arian, meithrinfeydd a gofal plant

**Er i ni gael blwyddyn anodd yn allanol, fe wnaethom lwyddo i godi bron i £18.6m mewn incwm gwirfoddol gan berfformio 15% yn well na'n targedau mewnol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd haelioni anhygoel pobl yn gadael arian mewn ewyllysiau, a'n gwaith codi arian llwyddiannus dros y Nadolig gyda chymorth y John Lewis Partnership.**

Fe wnaethom hefyd fuddsoddi mewn marchnata ein meithrinfeydd a'n gofal plant gan roi'r flwyddyn incwm orau hyd yma i ni, ar £15.8m. Ehangodd ein cyrhaeddiad drwy gyfathrebu ein gwasanaethau hyblyg i deuluoedd ynghyd a'n hymrwymiad i blant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau (SEND). Mae gallu cyrraedd mwy o deuluoedd wedi golygu y gallai'r elfen fasnachol hon wneud mwy o gyfraniad i'r elusen i helpu plant arbennig o fregus, gan hefyd rhoi mynediad at ofal plant o ansawdd i fwy o blant (mwy ar dudalen 28).

### Gosod y llwyfan ar gyfer twf codi arian

Y llynedd fe wnaethom neilltuo mwy o adnoddau i'r mathau o godi arian sydd â photensial i godi mwy o incwm gwirfoddol dros y tair blynedd nesaf. Roedd yn golygu datblygu'r ochr bartneriaethau, arian-roddwyr mawr, ymddiriedolaethau ac arian ewyllys, a buddsoddi yn ymgyrch y Nadolig.

Llwyddodd ein hymdrechion codi arian i helpu gyda'r argyfwng costau byw nid yn unig o ran dangos yr effaith ofnadwy ar blant a'u teuluoedd ond drwy gydnabod pa mor hael a thriw yw ein cefnogwyr. Mae digidol yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith a'n portffolio eang o wahanol ffrydiau codi arian yn rhoi hyblygrwydd i ni os yw'r cyd-destun allanol yn gofyn am hynny.

Mae incwm o arian ewyllys yn parhau i fod yn ffrwd incwm bwysig gyda £4.6m yn cael ei dderbyn y llynedd, yn ogystal â chyfle ar gyfer twf. Ar draws y sector, mae arian ewyllys yn parhau i dyfu'n sylweddol gan ddisgwyl iddo gyrraedd £5 biliwn y flwyddyn erbyn 2030. Rhown flaenoriaeth i farchnata arian ewyllys i gyrraedd ac ysbrydoli mwy fyth o gefnogwyr. Yn 2022-23 roedd ein hymgyrch 'ewyllys am ddim' yn adlewyrchu twf y sector hwn gan gynhyrchu mwy na £800k mewn addewidion o arian ewyllys.

Dangosodd y llynedd faint o effaith y gallwn ei gael drwy weithio mewn partneriaeth. Roedd ein tîm rhanbarthol yn canolbwyntio ar ddatblygu ein reffeniw corfforaethol drwy gyfleoedd gwerth uchel, a wynebwn 2023-24 gyda gwerth £2m+ o gyfleoedd ychwanegol. Mae ein partneriaethau corfforaethol hefyd wedi codi arian a chael effaith bellgyrhaeddol (mwy ar dudalen 44).

Mae ein perthynas sefydledig â'r Eglwys Fethodistaidd yn mynd o nerth i nerth. Mae ei chefnogwyr hael wedi parhau i godi arian ac ymwybyddiaeth o waith Gweithredu dros Blant drwy wasanaethau a

digwyddiadau. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i weithio gyda grwpiau iau yn yr eglwys ac at ddyfnhau ein gwaith â'r grwpiau presennol drwy ddull stiwardiaeth strategol wedi'i deilwrio.

### Ein Rhaglen Is-Lywyddion newydd

Ym mis Rhagfyr lansiodd yr anrhydedd o Is-Lywydd a roddwyd i Ken Deeks MBE a Lynda Myles-Till MBE am ymrwymiad a chyfraniad eithriadol ac effaith eu gwaith ar blant.



Ken a sefydlodd Byte Night, ein digwyddiad codi arian blynyddol mwyaf, a elwir erbyn hyn yn Boycott your Bed. Ers dechrau rhoi ei amser i ni, mae wedi helpu i godi bron i £14m i gefnogi ein gwaith.



Mae Lynda wedi cefnogi Gweithredu dros Blant ers 1988 a hi yw Sylfaenydd a Chadeirydd ein Cinio Spring Ladies Lunch Blynyddol sy'n codi ymhell dros £100,000 pob blwyddyn. Mae Lynda hefyd wedi arwain nifer o brosiectau a digwyddiadau codi arian pwysig.

O'r blaen, roedd Ken a Lynda'n Llysgenhadon i Gweithredu dros Blant a dyfarnwyd yr MBE i'r ddau am eu gwasanaethau i bobl ifanc drwy gefnogi'r elusen. Rydym yn falch bod Ken a Lynda'n rhan o deulu Gweithredu dros Blant a gobeithiwn wahodd mwy o gefnogwyr nodedig i fod yn Is-lywyddion yn y dyfodol.



## Digwyddiadau eithriadol

Roedd y llynedd yn flwyddyn wych o ran codi arian. Gyda holl helynt y pandemig y tu cefn i ni, roeddem yn gallu cynnal portffolio llawn o ddigwyddiadau gan godi arian hanfodol ac arddangos y gwaith a wnawn.

### Yr ymgyrch Boycott Your Bed

Fel rhan o'n digwyddiad codi arian corfforaethol blynyddol, mae timau'n dewis cysgu allan yn lle yn eu gwelyau cyffyrddus. Gallwch ddarllen mwy am ddigwyddiad eleni ar dudalen 38.

### Ein Cwis Newyddion

Ym mis Mawrth cymrodd 400 o westeion o'r diwydiant darlledu newyddion a'r sector corfforaethol ran mewn cwis materion cyfoes. Roedd Dermot O'Leary, Louis Theroux a Vanessa Feltz ymhlith rhai o'r enwogion a gymrodd ran, gyda Dan Walker a Sally Nugent yn cyflwyno ac yn ymuno â Jeremy Vine ar gyfer yr ocsiwn. Llwyddwyd i godi'r swm anhygoel o £250,000.

### Never Mind the Business

Dychwelodd ein cwis miwsig corfforaethol a hynod boblogaidd i Glasgow ac Abertawe ar ôl absenoldeb o ddwy flynedd, gan godi £171,000. Ar draws y ddau ddigwyddiad, cymrodd dros 900 o westeion ran i brofi eu gwybodaeth gerddorol, gyda gwesteion Glasgow'n mwynhau perfformiad byw gwych gan y band pop The Hoosiers.

### Cinio Blynyddol y Spring Ladies Lunch

Ym mis Mawrth daeth gwesteion at ei gilydd i fwynhau cinio ysblennydd gan Di Stewart, sioe ffasiwn gan un o 'sêr ar ddringo' Chanel, Joan Elkayam, a chyfle i glywed hanesion ysbrydoledig gan

ymgyrchydd ifanc Gweithredu dros Blant, Rachel, a'r cefnogwr parhaus Ronnie Archer Morgan.

Llwyddodd y Cinio i godi £107,000.

### Digwyddiad Partner: Gala Salesforce

Ym mis Tachwedd, roeddem yn falch iawn o elwa o ginio gala Raising the Future a drefnwyd gan un o'n partneriaid agos, Salesforce. Daeth gwesteion o Salesforce a'u cwsmeriaid i ddathlu gwaith Gweithredu dros Blant gan godi'r swm anhygoel o £100,000.

### Diwrnod Golff Gleneagles

Ar ben-blwydd Diwrnod Golff Gleneagles yn 20 oed, wedi'i noddi gan Save & Invest, daeth 21 o dimau i fwynhau golff ar gwrs golff byd-enwog Gleneagles yn Auchterarder yn yr Alban, gan godi £78,000. Roedd y pandemig wedi gohirio dathlu pen-blwydd y digwyddiad blynyddol hwn, a ddechreuodd yn 2000 ac sydd bellach wedi codi dros £1m. Ymunodd bobl ifanc a staff o Dundee Youth Housing â'r gwesteion ar gyfer digwyddiad gyda'r nos yn y neuadd ddawns, gyda'r bobl ifanc yn rhannu eu hanesion am sut y mae Gweithredu dros Blant wedi eu helpu.

### Kiltwalk

Llwyddodd ein tîm Kiltwalk mwyaf erioed i godi dros £36,000. Cymrodd 210 o gefnogwyr ran mewn digwyddiadau yn Glasgow, Dundee, Aberdeen a Chaeredin, gan gynnwys timau o gwmnïau Morton Fraser, Edrington Group, HSBC, McLaughlin & Harvey, Channel Bakers a'n staff ein hunain. Daethom yn bartner Pit Stop yn nheithiau Kiltwalks Glasgow a Chaeredin am y tro cyntaf, gyda'n gwirfoddolwyr brwd a'n masgot Cosmo'n cymeradwyo'r cerddwyr ymlaen i groesi'r lein.

### Gwobrau Merched Dylanwadol

Daeth ein gwobrau hirsefydlog yn ôl i Glasgow ar 12 Mawrth, i annog, cefnogi a chydabod merched dylanwadol yn yr Alban, gan gynnwys y Pencampwr Cymanwlad a theirgwaith enillydd Olympaidd o'r Alban, Eilish McColgan, a gyhoeddwyd yn fuddugol.

### Digwyddiadau diolch

Fe wnaethom hefyd fwynhau dod â phobl at ei gilydd i ddathlu bod yn rhan o deulu Gweithredu dros Blant. Roedd ein Gwobrau Stephenson blynyddol yn cydnabod sêr disglair ein staff, cefnogwyr, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Cynhaliwyd y cinio aduniad blynyddol ar gyfer Cyn-Fechgyn a Merched i rai a dyfodd i fyny yn ein cartrefi. A chynhaliwyd nosweithiau i gefnogwyr yn Home House a'r Foundling Museum i ddathlu rhai o'n cefnogwyr sy'n gwneud ein gwaith yn bosib.

**Diolch i bawb am gefnogi a helpu i sicrhau bod y digwyddiadau'n cael eu cynnal.**



### Cydymffurfio a chwynion codi arian

Rydym wedi cofrestru â'r Rheoleidiwr Codi Arian ac yn dilyn ei Gôd Ymarfer a'i Addewid. Ceisiwn gynnal safonau uchel ar gyfer codi arian gan gynnwys bod yn glir, agored a gonest â chefnogwyr, a pharchu eu dewisiadau preifatrwydd a chyfathrebu. Yn 2022/23, derbyniwyd 56 o gwynion am ein prosesau codi arian a deliwyd â'r rhain yn unol â'n Gweithdrefn Cwynion Codi Arian. Roedd y rhan fwyaf (16) am y ffordd yr ydym yn cydnabod rhoddion a byddwn yn parhau i leihau'r nifer yma a sicrhau ein bod yn cydnabod rhoddion yn ddi-oed. Roedd cwynion eraill yn cynnwys faint o amser yr oedd yn ei gymryd i dderbyn eitem, neu wybodaeth.

## Yn falch o bartneru gyda:



Yn 2022, lansiodd ein partneriaeth gorfforaethol newydd gyda **Giggling Squid**, y grŵp bwytaï Thai, i gefnogi plant a theuluoedd bregus ar draws y DU. Mae staff wedi codi arian hanfodol drwy weithgareddau fel y Great North Run, taith gerdded o Harrogate i Brighton, a dringo i fyny'r Wyddfa. Dangosodd gwsmeriaid eu cefnogaeth hefyd drwy gymryd rhan mewn cynigion bwytaï arbennig a rhoi arian i'r ymgyrch Secret Santa.



Yn 2022, cefnogodd Gronfa Addysg a Chyfoethogi **CMC Markets** 260 o blant a phobl ifanc fregus yn Llundain drwy 1,208 o grantiau ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi ac i brynu hanfodion addysgol. Mae hyn wedi helpu i wella sgiliau cymdeithasol pobl ifanc a lleihau teimlo'n ynysig. Cawsom hefyd gefnogaeth CMC Markets drwy wirfoddoli a chodi arian a nhw oedd y tîm corfforaethol mwyaf i gymryd rhan yn Boycott Your Bed 2022 gan godi dros £30,000.



Yn ein blwyddyn bartneriaeth gyntaf, cymerodd cydweithwyr o **Arcadis** ran mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian gan gynnwys pum taith gerdded ar draws y DU a lwyddodd i godi dros £13,000. Aeth yr arian i gyd i gefnogi'r gwaith o ailddatblygu ardal chwarae awyr agored Canolfan Blant Gymunedol Birmingham a chyflwyno'r rhaglen Breaking the Cycle yn Cumbria sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin domestig.



### Starling Bank

Mae ein partneriaeth newydd sbon gyda **Starling Bank** yn cynorthwyo ein gwasanaeth Parent Talk i greu cynnwys gwybodaeth newydd ar gyfer ein gwefan i helpu teuluoedd i reoli eu harian a'u cael i siarad am arian. O gynnig cymorth ar sut i ymdopi â'r argyfwng costau byw sy'n mynd o ddrwg i waeth, i helpu teuluoedd i ymdopi â'r gost o fagu plentyn ag anghenion ychwanegol, bydd cymorth Starling Bank yn fendith i deuluoedd sydd angen ein help.



Yn Rhagfyr 2022, lansiodd partneriaeth tair blynedd gyffrous â'r brand bwyd organig i fabis a phlant bach **Ella's Kitchen**. Mae **Ella's Kitchen** yn cefnogi plant bach a'u teuluoedd drwy godi arian, hybu ein llais drwy waith polisi ac ymgyrchu, a llawer mwy. Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda nhw inewid bywydau plant bregus ledled y DU.



Mae ein partneriaeth hirsefydlog â **Turner & Townsend** yn parhau i gefnogi'r Gronfa Addysg sy'n gweithio i ddileu rhwystrau i blant a phobl ifanc gael derbyn addysg. Y llynedd fe wnaethom dros 1,600 o grantiau i dalu am gost eitemau hanfodol fel gwisg ysgol, esgidiau a chotiau gaeaf. Fe wnaeth Turner & Townsend hefyd ddarparu cymorth pro bono hanfodol i raglen Gweithredu dros Blant o ddatblygu cartrefi preswyl newydd i blant ar draws y DU.



Registered charity no 281943

Yn 2022 cawsom ein dewis fel prif bartner elusennol **Iceland Foods Charitable Foundation**. Cymrodd staff Iceland ran mewn digwyddiadau anhygoel fel Marathon Llundain, a noson cysgu allan noddedig mewn ogof yng Ngogledd Cymru. Ers dechrau ein partneriaeth yn 2020, codwyd dros £1m ar gyfer y Gronfa Argyfwng gan roi cymorth ariannol hollbwysig i deuluoedd i dalu am bethau hanfodol fel bwyd, tanwydd ac eitemau cegin.



Mae ein partneriaeth gyda **Dell Technologies** yn parhau i gefnogi Inspire, sef rhaglen Technoleg Gwybodaeth Gweithredu dros Blant. Gyda'n gilydd, gweithiwn i bontio'r gagendor digidol drwy roi pobl ifanc sy'n ddigidol ynysig mewn cysylltiad â thechnoleg. Mae ein partneriaeth hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc i ennill sgiliau digidol gwerthfawr er mwyn gallu manteisio ar gyfleoedd addysg a gwaith.

JOHN LEWIS

### PARTNERSHIP

Drwy weithio gyda'r **John Lewis Partnership**, byddwn yn cefnogi eu hymrwymiad hirdymor i bobl ifanc mewn gofal a gyda phrofiad gofal. Defnyddiodd John Lewis ei Hysbyseb Nadolig i roi sbotolau ar blant gyda phrofiad gofal drwy drawsnewid yr ardaloedd cymunedol mewn dau o'n cartrefi preswyl i blant. Fe wnaethant hefyd godi £637,771 sy'n ariannu tair rhaglen drawsnewidiol: Wrap, Gweithwyr Pontio a Rhaglen Cyflogadwyedd newydd.

# Sbotolau

## Secret Santa

Roedd Secret Santa 2022 yn llwyddiant ysgubol. Hyd yma mae'r ymgyrch wedi codi £1.7m (gan gynnwys Cymorth Rhodd) gyda bron i 35,000 wedi rhoi. A chafodd ei gweld yn eang ar draws y DU ar ôl 360 miliwn o gyfleoedd i'w gweld.

Yn sbarduno'r llwyddiant oedd ein hysbyseb deledu newydd a gafodd effaith wych ar ein holl hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth o'r brand. Roedd newydd wedd yr ymgyrch Secret Santa'n gyson â'n brand craidd gan sefyll allan mewn marchnad brysur.

Gwylwch ein hysbyseb deledu ar [YouTube](#)

Yn erbyn cefndir yr argyfwng costau byw, roedd ein hymgyrch yn berthnasol a thaer a gallai ein cefnogwyr weld bod gwaith Gweithredu dros Blant mor bwysig ag erioed. Yn greiddiol i hyn oedd stori Nathan, oedd yn ganolog i'r ymgyrch.

Pan oedd Nathan yn ifanc, bu farw ei fam. Aeth i fyw gyda'i nain, sydd wedi ymddeol ac yn byw ar ei phensiwn. Mae Nadolig yn anodd i Nain Paula a Nathan, sy'n 10 oed.

Fel y dywedodd Paula: "Mae'n amser caled iawn i ni'n dau. Roeddwn yn poeni gymaint na fyddai gan Nathan unrhyw anrhegion i'w hagor bore 'Dolig."

Roedd Paula'n cael trafferth talu am y Nadolig felly cyfeiriwyd hi at Gweithredu dros Blant a rhesom hamper at ei gilydd i Nathan yn llawn o bethau da. Cafodd y stori am Nadolig hudolus Nathan sylw ar draws ein sianeli a'i chreu'n ffilm animeiddio i ddangos i wylwyr y gwahaniaeth y gallent ei wneud i blentyn bregus adeg y Nadolig.

Gwylwch stori Nathan a [YouTube](#)

## Secret Santa yn y gymuned

Roedd gan ein Sgwadiâu a'n partneriaid corfforaethol rhanbarthol lwyth o ddeunyddiau brand i godi arian yn eu hardal. Cynhaliwyd hefyd sioe stondinau codi ar Tower Bridge a defnyddiwyd paneli ffenestri'r siop Bottle yn Highgate (1) i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch drwy gynigion arbennig.

## Sylw ar draws y cyfryngau


Roeddem wrth ein bodd pan gysylltodd raglen This Morning (2) ITV i gynnwys ein hymgyrch Secret Santa yn eu 'Cynhwysion Hosan Nadolig Gorau 2022'.

Roedd y John Lewis Partnership ac apêl y Telegraph wedi gosod sylfeini brand cryf i lansio stori newyddion. Dangosodd ymchwil gennym fod 25% o blant yn fodlon rhoi eu hanrheg neu arian poced i helpu eu rhieni i dalu am gostau'r Nadolig (3). Arweiniodd y stori newyddion at greu 162 darn a helpodd i ddangos effaith yr argyfwng ar blant a theuluoedd.

Fel bob amser, roedd ein teulu o 'selebs' yn flaenllaw yn llwyddiant y Secret Santa. Ysgrifennodd y Fonesig Joanna Lumley (4) lythyr at olygyddion yn pwysu ar y cyhoedd i gefnogi'r apêl, gyda Larry Lamb yn cyfrannu ei lais ar gyfer ein hysbyseb deledu. Rhoddodd y digrifwr Peter Kay £14,000 i'r ymgyrch, sef £1 am bob tocyn i weld ei sioe yn yr O2 yn Llundain (5).

Roedd llwyth o selebs hefyd yn rhan o'n sesiwn tynnu lluniau ym mis Rhagfyr, dymuniadau plant o'r rheng flaen, a ddangoswyd mewn 24 o bapurau cenedlaethol a 119 o rai rhanbarthol (6). Roedd pob seleb yn cynrychioli dymuniad bendithiol ar gyfer plant, wedi eu casglu gan y staff rheng flaen sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws y DU.

Diolch i bawb a ddaeth yn Secret Santa i blentyn bregus yn 2022!





## Nod strategol saith:

# Sicrhau gwerth gorau drwy fod yn fwy effeithlon

**Mae gwella ein systemau, amgylchedd a'n ffyrdd o weithio'n ein helpu i wneud ein gwaith yn fwy effeithlon. Dyma beth fuom ni'n gweithio arnynt y llynedd.**

### System gofnodi newydd ar gyfer gwasanaethau plant

Rydym wedi dechrau gweithio ar ddatblygu system gofnodi newydd ar gyfer gwasanaethau plant fydd yn ei gwneud yn haws cofnodi manylion y plant a'r teuluoedd y darparwn wasanaethau iddynt, a chynnydd ac effaith ein gwaith gyda nhw.

Bydd y system 'gwmwl' newydd yn cynnwys y nodweddion diweddaraf i gwrdd ag anghenion ein gwasanaethau, a hefyd yn fwy cost-effeithiol i'w rhedeg. Y llynedd, roeddem wedi dechrau chwilio am opsiynau gan feddwl dewis system newydd i'w chyflwyno yn y flwyddyn ariannol newydd.

### Technoleg yw asgwrn cefn ein gwaith

Wrth i dechnoleg ddod yn rhan fwy o'n bywydau o hyd, mae bywydau pobl ifanc yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) ar gyfer awdurdodau lleol.

P'un ai drwy'r rhyngwrwyd cyflym iawn newydd a osodir yn ein gwasanaethau i sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at dechnoleg ar gyfer pethau fel gwaith ysgol a gweithgareddau cymdeithasol, neu'r Systemau Meddyginiaeth Electronig newydd y gobeithiwn eu cyflwyno i'n cartrefi preswyl i helpu i reoli iechyd a lles ein plant mwyaf bregus yn well – mae TG yn gwneud gwahaniaeth mawr.

### System pobl a chyllid newydd

Ers 12 mis bellach, rydym wedi bod yn cynllunio i symud o'n pecynnau meddalwedd cyllid ac Adnoddau Dynol presennol at system newydd – Oracle.

Yn y gorffennol, rydym wedi defnyddio llawer o wahanol system i ateb ein gofynion cyllid ac Adnoddau Dynol. Mae'r rhain yn llai cost-effeithlon a ddim yn darparu'r holl wasanaethau y gall systemau mwy newydd eu darparu.

Ein gweledigaeth yw cael un system pobl a chyllid integredig sy'n trawsnewid sut y mae Gweithredu dros Blant yn gweithio, fel bod staff a gwirfoddolwyr yn gallu cwblhau tasgau fel logio costau, archebu a chymeradwyo gwyliau, a chofnodi contractau a gwybodaeth bersonol.

Mae'r system newydd hefyd yn awtomeiddio llawer o dasgau a bydd staff hefyd yn gallu defnyddio'r system ar eu ffôn clyfar am y tro cyntaf.

Mae hyn yn hanfodol i lawer o ofalwyr a gwirfoddolwyr rheng-flaen, sy'n aml heb fynediad pen-desg boddhaol yn eu gweithle.

### Rheoli contractau

Rydym yn cryfhau'r ffordd y rheolwn ein contractau, gan ddefnyddio technoleg i symleiddio prosesau a rhoi'r adnoddau a'r wybodaeth sydd ei angen ar ein pobl i reoli risg a darparu cymorth o ansawdd uchel. Bydd hyn yn gwneud ein gwaith yn fwy cynaladwy ac yn sicrhau y gallwn gyrraedd a helpu mwy o blant, pobl ifanc a theuluoedd bregus.

### Cryfhau ein hystâd

Yn ein Tîm Ystadau, rydym wedi cryfhau'r Tîm Cyfleusterau Rhanbarthol gan greu un tîm i bob gwlad.

Wrth i gyfyngiadau'r pandemig lacio a mwy o'n hadeiladau'n agor eto, roeddem eisiau asesu cyflwr presennol ein hystâd eiddo.

Roedd hyn yn cynnwys adnabod gwaith cywiro gan gynnwys cynnal a chadw hanfodol. Gyda'r arweinyddiaeth newydd yn ei le o ddechrau 2023 ymlaen, mae rhaglen waith bellach wedi'i pharatoi a bydd y tîm yn gweithio'n agos â chontractwyr i sicrhau bod popeth yn ei le i sicrhau bod yr ystâd yn cydymffurfio â safonau'r sector.

## Gwneud y defnydd gorau o'n portffolio eiddo

Gweithiwn yn galed i wneud y defnydd gorau o'n portffolio eiddo, gan ystyried pethau fel:

- Gallai adeiladau diangen gael eu hail-bwrpasu fel cartrefi plant neu feithrinfeydd.
- Rydym yn adolygu ein stoc adeiladau i benderfynu a allent gael eu hail-bwrpasu neu werthu. Byddai'r arian o'u gwerthu'n cael ei ail-fuddsoddi yn ein cronfa bensiynau, arian wrth gefn a'n busnes.
- Gallai adeiladau nad oes galw ar y funud amdanynt gael eu gosod neu rentu. Byddent yn cael eu cynnig i denantiaid gyda chymalau terfynau cadarn er mwyn ennill mwy o incwm i'r elusen.
- Rydym wedi dechrau ar y gwaith o adnewyddu adeiladau ac yn parhau i ddod ag adeiladau i fyny i'r safon. Mae gwaith mawr wedi'i gwblhau mewn canolfan wasanaethau ym Mryste a Wrecsam ac mae gwaith gwelliannau ar y gweill ar draws y portffolio.

Y flwyddyn nesaf, bydd ein ffocws yn parhau i fod ar welliannau ac yna ar ddatblygu'r strategaeth eiddo er mwyn adolygu sut y defnyddiwn asedau mawr a phenderfynu sut i symud ymlaen gydag atgyfnerthu neu ryddhau'r asedau hynny.



# Ein ffocws yn 2023-24

Mae edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf yn gymorth i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Byddwn yn parhau i weithio o fewn ffranwaith ein strategaeth, sy'n seiliedig ar saith nod o fewn ein pedwar maes gwasanaeth craidd.

Dyma rai uchafbwyntiau o'r pethau y byddwn ni'n canolbwyntio arnynt am y 12 mis nesaf.

**Mwy o blant yn cael plentyndod diogel a hapus**

Darllenwch fwy am ein strategaeth [yma](#).



Cynyddu nifer ein cartrefi preswyl i blant.



Buddsoddi mewn gwneud ein systemau a phrosesau'n fwy effeithlon.



Parhau i gynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn ein gwaith.



Ehangu ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd, anabledd ac ecsbloetio plant yn droseddol drwy ddatblygu meysydd gwaith a modelau allweddol.



Creu ffyrdd newydd arloesol o godi arian a datblygu ein partneriaethau.



Denu, datblygu a chadw staff disglair.



Datblygu ffyrdd newydd a thrylwyr o fesur a chofnodi ein heffaith.



Cynyddu effaith ein hymgyrchoedd polisi a dylanwadu gan ddenu mwy o gefnogaeth gan y cyhoedd ac yn wleidyddol ar draws y DU.



Ehangu ein sylw ar y cyfryngau ac yn y wasg, cynnal a chynyddu nifer ein cefnogwyr gweithredol, a chodi ymwybyddiaeth o'n brand.



# Adolygiad ariannol


Drwy ein gweithgareddau yn 2022/23, fe wnaethom greu incwm o £149.8m (2021/22 £142.6m), oedd yn gynnydd o £7.2m o'i gymharu â'r flwyddyn cynt. Roedd ein gwariant hefyd i fyny, ar £149.4m (2021/22 £139.4m), cynnydd o £10.1 o'i gymharu â'r flwyddyn cynt.

Elw net y flwyddyn, cyn addasu ar gyfer pensiynau a buddsoddiadau, oedd £0.4m (2021/22 £3.2m).

Er y gwelwom effaith y cynnydd mewn biliau ynni ayyb, costau cyflogau a chwyddiant yn gyffredinol (oedd heb gyllidebu ar eu cyfer), fe wnaethom lwyddo i wrthbwysu'r rhain drwy leihau ein gwariant di-gyflogau, a diolch i warged ariannol gyda'n gwaith codi arian a gweithgareddau gweithredol.

Rydym wedi parhau i weithio tuag at ein strategaeth newydd uchelgeisiol gan gynnwys buddsoddi mewn mwy o wasanaethau preswyl (Nod 1), cynyddu cyfraniad ariannol ein gwaith codi arian (Nod 6) a gwella ein systemau cefn swyddfa (Nod 7). Drwy'r gwariant ar Nod 7, roedd gennym ddiffyg ariannol wedi'i gynllunio yn 2022-23 ar ôl buddsoddi yn ein rhaglen STAIRS (mwy ar dudalen 47). Roeddem wedi cynllunio i wneud colled o £4m ond drwy wario'n ofalus a gwarged ariannol yn ein hincwm gweithredol, roedd y golled yn llai ar £3.1m.


Gan ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd gyda Phrif Weithredwr newydd, byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein sefydlogrwydd ariannol a'n



Incwm	2022-23	2021-22
■ Gweithgareddau elusennol	£129.9m	£125.4m
■ Rhoddion ac arian ewyllys	£18.6m	£16.2m
■ Incwm buddsoddiadau	£1.3m	£0.9m
■ Arall	£0.0m	£0.1m
<b>Cyfanswm</b>	<b>£149.8m</b>	<b>£142.6m</b>

cynaladwydd er mwyn tyfu fel y cynlluniwyd.

Byddwn hefyd yn dechrau gweld manteision y system gyllid newydd fydd yn mynd yn fyw yn 2023/24 (mwy ar dudalen 44). Bydd yn symlieiddio'r ffordd y gweithiwn a gwella'r wybodaeth ariannol a dderbyniwn i helpu i sicrhau y defnyddir yr arian yn gyfrifol i gefnogi ein gweledigaeth o sicrhau bod mwy o blant yn cael plentyndod diogel a hapus.



Gwariant	2022-23	2021-22
■ Gweithgareddau elusennol	£143.1m	£134.0m
■ Costau codi arian	£6.3m	£5.3m
■ Arall	£0.0m	£0.1m
<b>Cyfanswm</b>	<b>£149.4m</b>	<b>£139.4m</b>

## Am bob punt a wariwn:

- mae **85c** yn helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd.
- gwariwn **4c** ar godi arian.
- gwariwn **11c** ar weinyddu.



## Incwm a gwariant

Yn 2022/23, fe wnaethom gynhyrchu cyfanswm incwm o £149.8m (2021/22 £142.6m). Rydym yn arbennig o falch o fod wedi perfformio'n dda ar yr ochr codi arian a masnachol, er gwaetha'r heriau a gyflwynir gan yr argyfwng costau byw. Cyfanswm ein gwariant elusennol oedd £143.1m (2021/22 £139.4m). Fel y rhan fwyaf o sefydliadau, gwelsom godiadau prisiau a gynyddodd ein gwariant ond gan lwyddo i reoli'r pethau hyn er mwyn gorffen y flwyddyn yn ariannol sefydlog.

## Rhoddion ac arian ewylllys

Rydym yn fythol ddiolchgar am haelioni a ffyddlondeb ein cefnogwyr a'n partneriaid sy'n ein helpu i wneud gwahaniaeth i blant. Yn 2022/23 fe wnaethom godi £18.6m mewn incwm gwirfoddol o roddion ac arian ewylllys. O'r arian hwn, roedd £12.6m (2021/22 £12.9m) yn incwm anghyfyngedig diolch i ffyddlondeb parhaus ein rhoddwyr a'n cefnogwyr rheolaidd. Ac roedd £6.0m (2021/22 £6.3m) wedi ei gyfyngu i raglenni penodol fel ein gwaith iechyd meddwl a phlant mewn gofal. Roedd cyfanswm y gwariant ar godi arian yn £6.3m (2021/22 £5.3m).

Aeth ein prif ymgyrch codi arian, Secret Santa, dros ei thargedau gan godi £1.7m (gan gynnwys Cymorth Rhodd). Roedd hyn yn rhannol oherwydd buddsoddi mewn hysbysebion teledu Secret Santa am y tro cyntaf. Mae ein partneriaeth â John Lewis hefyd wedi ein helpu i godi mwy o arian dros y Nadolig yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth sylweddol o frand Gweithredu dros Blant drwy fod yn rhan o'u hysbyseb Nadolig (mwy ar dudalen 43). Mae ein digwyddiadau arbennig bellach wedi adfer yn llwyr ar ôl y pandemig, gyda digwyddiadau gala fel

Ultimate News Quiz, Spring Ladies Lunch a Woman of Influence yn codi dros £400,000 ym Mawrth 2023.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r cefnogwyr aadawodd arian yn eu hewylllys i ni'r llynedd. Roedd ein hincwm o arian ewylllys yn £4.7m – £0.8m yn fwy na'r flwyddyn cynt.

Ar y cyfan rydym yn falch o fod wedi perfformio £2.4m neu 15% yn well na'r hyn a gyllidebwyd, yn enwedig mewn hinsawdd codi arian anodd oherwydd yr argyfwng costau byw.

## Gweithgareddau elusennol

Roedd cyfanswm yr incwm o weithgareddau elusennol yn £129.9m yn 2022-23 (2021/22 £125.4m) gyda'r gwariant yn £143.1m (2021/22 £134.0m)

Mae gwasanaethau contract sy'n cael eu rhedeg gan ein his-gwmni Action for Children Services Ltd, ac a gyfunir yn natganiadau ariannol y grŵp, yn parhau i wneud cyfraniad ariannol da i'n gweithgareddau elusennol. Roedd yr incwm i fyny'r llynedd ar £66.8m (£62.5m 2021-22), wnaeth helpu i wrthbwysu codiadau chwyddiant. Roedd y gwariant yn £65.1m (2021/22 £61.0m) ar ôl i ni fuddsoddi yn ein rhaglen twf preswyl, ac felly roedd ein cyfraniad cyffredinol at weithgareddau elusennol i lawr.

Gall y broses o brynu, paratoi a staffio'r cartrefi cyn yr arolygiadau rheoleiddio gymryd tua 12-15 mis. Mae hyn yn golygu bod ein gwariant yn sylweddol dros y cyfnod hwn cyn i ni weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i leoli plant a chynhyrchu elw i dalu am ein costau. Ond mae'n fuddsoddiad angenrheidiol i'n cenhadaeth o ddarparu cartrefi diogel a chariadus i blant mewn angen.

Mae incwm masnachol – gan gynnwys o'n

meithrinfeydd a'n clybiau tu allan i'r ysgol – wedi bownsio'n ôl ar ôl y pandemig a bellach yn tyfu gydag incwm o £15.8m yn 2022/23 (2021/22 £15.0m). Mae costau uwch wedi cael effaith, yn enwedig o ran codiadau cyflog a chostau uwch bwyd i blant, gan achosi gwariant o £15.4m (2021/22 £14.9m). Er hyn, rydym yn gorffen y flwyddyn mewn sefyllfa gref oherwydd bod ein hincwm dros y targed.

## Y fantolen

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ein cyfanswm ariannol i lawr yn erbyn y flwyddyn cynt ar £80.8m (2021/22 £84.0m), gyda'r arian anghyfyngedig hefyd i lawr o'i gymharu â 2021/22, o £2.8m i £62.3m. Mae tua £42.5m o'r incwm anghyfyngedig naill ai wedi'i ddynodi neu ei glymu mewn asedau i gefnogi ein gweithgareddau. Mae hyn yn gadael balans o £19.8m (2021/22 £27.2m) fel arian rhydd gan yr elusen. Roedd ychwanegiadau at asedau sefydlog diriaethol am y flwyddyn yn £5.9m, gyda £5.2m yn asedau ar ganol eu creu. Cyfanswm y balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £20.4m, gyda £13.7m o hwn mewn adneuron rhybudd. Mae'r grŵp yn gwneud y mwyaf o'r llog ar arian dros ben drwy fuddsoddi mewn adneuron cyfnod penodol.



## Is-gwmnïau masnachu ac elusennau cysylltiedig

Mae datganiadau ariannol cyfunol grŵp Gweithredu dros Blant yn cynnwys dwy ymddiriedolaeth elusennol arall, sy'n rhannu ymddiriedolwyr a rheolwyr.

Mae'r **National Children's Home** (elusen rhif 215301) yn ymddiriedolaeth anghorfforedig. Mae ganddi arian gwaddol parhaol ac yn derbyn arian ewyllys a adawyd yn ein henw blaenorol. Dim ond arian gwaddol parhaol Gweithredu dros Blant a weinyddir gan yr ymddiriedolaeth hon a defnyddir yr holl incwm i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth. Bydd yr arian gwaddol hwn yn cael ei drosglwyddo i Action for Children Ltd yn 2023/24.

Mae'r **Nicholas Galperin Trust** (elusen rhif 210618) yn cefnogi pobl ifanc dan 25 oed. Bydd yr arian gwaddol hwn yn cael ei drosglwyddo i Action for Children Ltd yn 2023/24.

Mae **Action for Children Services Limited** (cwmni rhif 2332388) yn darparu gwasanaethau lles ac addysgol. Mae contractau newydd ag awdurdodau lleol yn cael eu rhoi drwy'r cwmni hwn, gyda'r trosiant i fyny o 6.8% yn 2022/23 i £66.8m. Fe wnaeth y cwmni elw o £1.7m (2021/22 £1.6m) a bydd Cymorth Rhodd yn cael ei dalu i Gweithredu dros Blant fel nad oes treth gorfforaethol i'w thalu.

Is-gwmni ar gyfer ein gweithgareddau codi arian a masnachu yw **Action for Children Trading Limited** (cwmni rhif 3776025). Ni wnaeth unrhyw elw yn 2022/23, ac yn 2022/23 trosglwyddwyd ei weithgareddau masnachu i Action for Children Developments Ltd a bydd yn cael ei ddirwyn i ben yn 2023/24.

Mae **Action for Children Developments Limited** (cwmni rhif 6842765) yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn gofalu am yr ochr fasnachol, trafodion eiddo a datblygiadau eraill i helpu Gweithredu dros Blant i gyflawni eu cenhadaeth. Mae'r cwmni hefyd yn rhedeg meithrinfeydd plant o dan yr enw masnach 'Spring'. Fe wnaeth y cwmni elw o £0.3m (2021/22 colled o £0.3m).

Mae **Out-of-School Scotland Limited (OSCARS)** (cwmni rhif SC264619) yn is-gwmni sy'n darparu clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast a gwersylloedd gwyliau. Fe wnaeth o £0.3m (2021/22 colled o £0.4m).

O dan y gyfraith elusennol a'r Ymddiriedolaeth Arian Elusennol, rhaid i ni gyflwyno ein harian yn y categorïau canlynol: **Arian anghyfyngedig** sy'n cynnwys arian ewyllys, rhoddion ac incwm arall y gallwn ond ei wario ar bwrpasau penodol. Os yw'r arian hwn yn ymddiriedolaethol, i'w gadw er budd fel arian cyfalaf, mae'n cael ei ddsbarthu fel arian gwaddol, ar gyfer ysgoloriaethau a defnydd cyffredinol. Ar 31 Mawrth 2023 roedd gennym £11.0m o arian gwaddol (2021/22 £11.7m), a £7.5m (2021/22 £7.3m) o arian pwrpas-benodol.

Mae **arian anghyfyngedig** o £62.3m (2021/22 £65.0m) yn cynnwys y gronfa gyffredinol, sy'n rhannol wedi'i dosbarthu fel arian wedi'i ddynodi, a'r gweddill yn arian heb ei ddynodi.

Mae **arian wedi'i ddynodi** o £22.3m (2021/22 £17.4m) yn cynnwys cronfa gyfalaf cyfwerth â gwerth llyfr net yr asedau sefydlog diriaethol a ddefnyddir i dalu am waith gweithredol, a chronfa asedau y codir tâl amdanynt, sef gwerth marchnad y buddsoddiadau hynny y codir tâl o £20.2m (2021/22 £20.2m) ar y Gronfa Bensiynau amdanynt. Cyfanswm gwerth yr

asedau a godir ar y Gronfa Bensiynau yw £40m. Mae hyn yn cynnwys y gronfa asedau y codir tâl amdanynt, sef £20.2m, ac eiddo gweithredol yn y gronfa gyfalaf sydd â gwerth marchnad o £19.8m. Mae gweddill y gronfa gyffredinol o £19.8m yn arian heb ei ddynodi ac yn arian rhydd gan yr elusen. Y gronfa bensiynau wrth gefn yw'r gwahaniaeth rhwng gwerthoedd teg yr asedau pensiwn, a rhwymedigaethau, ar sail FRS 102. Fodd bynnag nid yw'r gwarged hwn yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon oherwydd na ellir rhyddhau'r gwarged hwn yn ôl yn ddiadmod.

## Polisi arian wrth gefn

Mae ein Pwyllgor Cyllid yn adolygu ein polisi arian wrth gefn, a faint o arian rhydd wrth gefn sydd gan yr elusen, yn flynyddol. Dangosir hyn yn y datganiadau ariannol fel y gronfa gyffredinol a'r gronfa gwerthoedd teg wrth gefn, ac eithrio arian heb ei ddynodi. Mae'r adolygiad yna'n cael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a defnyddir dull arfarnu risg – i benderfynu costau tebygol, risg a rhwymedigaethau posib yn y dyfodol – i gyfrifo faint o arian cyffredinol wrth gefn sydd ei angen. Mae hyn yn seiliedig ar y cynllun busnes ac ariannol diweddaraf ac mae risg yn cynnwys colli incwm o bartneriaid a rhoddion gwirfoddol, a newidiadau i gostau.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gweithio i sicrhau bod gennym ddigon o arian rhydd wrth gefn i gadw Gweithredu dros Blant yn ariannol sefydlog. Mae hyn yn rhoi rhydd ddiogelwch i ni pe bai angen cydbwyso'r anghenion incwm a gwariant. Ar ôl ystyried ein cynlluniau strategol, yr amodau marchnad ac economaidd, bwriadwn sicrhau bod yr arian yn ein cronfeydd cyffredinol, ac eithrio arian wedi'i ddynodi, yn aros dros £14.0m.



Yn ddelfrydol dylai'r gronfa arian rhydd, mewn cyfnod o ddim buddsoddiadau, fod yn £16m o leiaf. Rydym yn cydnabod ein bod ar hyn o bryd mewn cyfnod o fuddsoddi oherwydd y rhaglen breswyl a buddsoddi mewn technoleg. Ein bwriad yw cyrraedd y nod hwn unwaith na fyddwn mewn cyfnod o fuddsoddi.

Gyda'n cronfa arian rhydd yn £19.8m ar hyn o bryd, cred yr ymddiriedolwyr y bydd gan yr elusen ddigon o arian wrth gefn i ateb ei gofynion yn y dyfodol.

Mae ein cynllun ariannol a pholisi arian wrth gefn yn cynnwys cost cyfraniadau i'r Gronfa Bensiynau. Dangosir y datgeliad cyfrifyddu sydd angen ei wneud ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn ar y fantolen, yn nodyn 6.

## Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau'n rhoi'r arian wrth gefn sydd ei angen i reoli gwaith datblygu, risg ac ansicrwydd yn y dyfodol. Un o'n prif amcanion yw cadw model dyrannu asedau sy'n paru amseriad unrhyw rwymedigaethau posib, o fewn yr arian wrth gefn, i asedau buddsoddi priodol. Mae'r polisi buddsoddi a'r datganiad o egwyddorion buddsoddi'n seiliedig ar y model hwn a chafodd ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2021/22.

Rheolir llawer o'n buddsoddiadau gan Fwrdd Cyllid Canolog (CFB) yr Eglwys Fethodistaidd sydd â dull moesegol o fuddsoddi sy'n gyson â'n gwerthoedd a'n cenhadaeth. Mae dull moesegol y CFB yn eithrio cwmnïau a ystyrir i fod yn llai egwyddorol fel rhai'n ymwneud ag alcohol, tybaco, pornograffi ac arfau, neu sy'n defnyddio llafur plant. Ac mae'n gweithio'n agos â sefydliadau eglwysig eraill i gael y dylanwad mwyaf dros y cwmnïau y mae'n buddsoddi ynddynt. Mae'r CFB hefyd yn cydymffurfio â Chod

Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU.

Mae ein pwyllgor buddsoddiadau'n gwneud penderfyniadau a mesur perfformiad cronfa'r CFB yn erbyn meincnod cytunedig. Yn 2022/23 fe wnaeth ein buddsoddiadau ragori ar y meincnod hwn o 0.1%.

Roedd perfformiad y brif gronfa gyffredinol am y flwyddyn i lawr o 5.3%. Mae perfformiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan ein pwyllgor buddsoddiadau a'i drafod â'r CFB. Mae'r pwyllgor buddsoddiadau hefyd yn edrych ar feincnodau allanol i sicrhau bod ein harian yn gwneud elw priodol. Roedd y portffolio 1.2% ar y blaen i'r mynegai 'Twf Cyson' a 1.6% ar y blaen i'r mynegai 'Asedau Cytbwys'. Aeth incwm buddsoddiadau i fyny i £1.3m yn 2022/23 o'i gymharu â £0.9m yn 2021/22.

## Pensiynau

Mae Cronfa Bensiynau Gweithredu dros Blant yn gynllun pensiynau hybrid. Mae ganddi adran Cyfraniadau Diffinedig sydd ar gael i staff gael ymuno â hi ar unrhyw adeg. Mae gan yr Elusen hefyd ymrwymiad i ariannu rhan Buddion Diffinedig hanesyddol y cynllun.

Mae gwerth y Gronfa Bensiynau'n dangos sefyllfa warged o £37.1m (2021/22 £81.3m) ar sail FRS 102. Fodd bynnag, oherwydd nad oes gan yr elusen hawl ddiamedod i warged o'r prisiad hwn, nid yw'n cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol.

Mae prisiad o dan FRS 102 yn seiliedig ar ofynion datgeliadau cyfrifyddu ac yn wahanol i brisiad tair-blynyddol yr actiwari a wnaed ddiwethaf ar 31 Mawrth 2021.


Pan wnaed y prisiad tair-blynyddol ar 31 Mawrth



2021, roedd gwaged pensiynau o £1.0m, sy'n lefel gyllido o fymryn dros 100%. Fodd bynnag, rydym yn fwy pwylllog wrth gytuno ar ofynion cyfraniadau.

Mae hyn yn lleihau'r risg buddsoddi y mae'r Gronfa Bensiynau'n agored iddi'n sylweddol, yn gwella diogelwch buddion yr aelodau a gwarchod yr elusen yn well rhag risg gyllido yn y dyfodol. Galwn hyn yn ddull 'targed cynaladwy'.

O dan y targed cynaladwy ar 31 Mawrth 2021, roedd diffyg o £60.2m, lefel gyllido o 92%. Ers 13 mlynedd, rydym wedi bod yn talu cyfraniad lleihau diffyg pob blwyddyn, ar ôl dod i gytundeb ag Ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiynau. Yn 2022/23, y taliad oedd £1.67m. Cytunwyd ar gynllun lleihau diffyg diwygiedig fel rhan o brisiad tair-blynyddol 2021, a gwblhawyd yn 2022/23. Yn ymarferol, mae hyn wedi golygu bod Gweithredu dros Blant wedi gordalu cyfraniadau



lleihau diffyg am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023. Bydd y gordaliadau hyn yn cyfrif fel rhagdaliadau tuag at y cyfraniadau lleihau diffyg sy'n ddyledus am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024.

### **Busnes hyfyw**

Mae'r argyfwng costau byw wedi rhoi pwysau ar ein gweithgareddau a'n gwasanaethau eleni ond mae Gweithredu dros Blant yn parhau i ddangos gwydnwch. Fe wnaeth yr elusen golled net o £3.1m am y flwyddyn. Mae chwyddiant cyflogau wedi effeithio ar lefel y cyflogau yn y farchnad gan roi mwy o bwysau ar lawer o elusennau. Dros y cyfnod hwn, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi gweithio'n agos â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i reoli'r sefyllfa'n rheolaidd, ystyried y sefyllfa arian parod a'r effaith ar ein harian wrth gefn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i gredu bod y grŵp a'i endidau'n fusnesau hyfyw ac felly bod y sail busnes hyfyw'n briodol ar gyfer paratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Blynyddol. Paratowyd papur yn disgrifio sut y daeth yr Ymddiriedolwyr i'r casgliad hwn a'r rhesymeg dros yr asesiad hwn. Wrth ddod at yr asesiad hwn mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried y ffactorau, risgiau a'r ansicrwydd a allai effeithio ar waith y grŵp dros y flwyddyn i ddod. Cefnogir yr asesiad gan fodel ariannol manwl, gan gynnwys cynlluniau ariannol 2023/24 a 2024/25, dadansoddiad o sensitifrwydd a thrwy fesur y risgiau posib i arian wrth gefn a sefyllfa hylifedd y grŵp.

Adlewyrchir rhagamcanion ariannol Gweithredu dros Blant yng nghyllideb 2023/24 y grŵp ynghyd â rhagamcanion dangosol ar gyfer 2024/25. Mae'r

gyllideb weithredol ar gyfer 2023/24 yn gytbwys, cyn buddsoddi £4.8m mewn prosiectau datblygu penodol (sydd i'w cyllido o arian wrth gefn anghyfyngedig).

Er yn cydnabod bod risg sicrhau cyllideb gytbwys derfynol, mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod y gyllideb yn adlewyrchu sefyllfa o 'dir canol' ac yn cydbwysu'r risgiau hysbys yn erbyn uchelgais a chyfleoedd twf y grŵp.

Mae arian wrth gefn anghyfyngedig a balansau arian parod grŵp Gweithredu dros Blant yn iach, gyda balans arian parod cyfunol a chyfwerth ag arian parod o £20.4m (2021/22 £31.7m) ar 31 Mawrth 2023. Mae arian wrth gefn cyfyngedig y grŵp yn £18.5m (2021/22 £18.9m) ac arian wrth gefn anghyfyngedig y grŵp yn £62.3m (2021/22 £65.0m). Roedd y gwir lif arian i lawr gan adlewyrchu'r gwariant ar gynlluniau cyfalaf a buddsoddiadau prosiect o arian wrth gefn. Mae'r rhagolygon dangosol ar gyfer 2024/25 yn cynnwys y cyfnod ar ôl Mawrth 2024, hyd at 12 mis o ddyddiad llofnodi disgwylidiedig y datganiadau ariannol, ac yn dangos rhagolygon ariannol gwell ynghyd â mwy o gyfraniad ar draws y ffrydiau incwm. Nid oes unrhyw risg sylweddol ar gyfer 2024/25 a fyddai'n effeithio ar yr asesiad busnes hyfyw. Mae ffocws yr asesiad hwn felly ar 2023/24 gan ddisgwyl, os bydd risg yn codi yn y flwyddyn ariannol hon, y bydd yn cael sylw a chyllidebau 2024/25 yn cael eu haddasu i sicrhau ein cynladwyedd ariannol parhaus. Yn fyr felly, ar sail y cyllidebau a'r rhagolygon llif arian parod a baratowyd, a sefyllfa arian wrth gefn a balansau arian parod iach y grŵp, ystyrir bod y sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

# Rheoli risg

**Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried y risgiau mawr i'r elusen yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn sicrhau ei fod yn ffyddiog y gall ein systemau a'n gweithdrefnau reoli'r risgiau hyn yn effeithiol, yn unol â pharodrwydd risg Gweithredu dros Blant.**

Mae rheoli risg yn darparu'r fframwaith i gynorthwyo Gweithredu dros Blant i gyflawni ei amcanion strategol.


## Ein dull o reoli risg

Mae pawb yn Gweithredu dros Blant yn cael ei weld fel 'rheolwr risg'. Mae ein staff, contractwyr, gwirfoddolwyr a'n darparwyr gwasanaeth allanol yn hanfodol i reoli risg. Rydym yn helpu ein pobl i ddeall eu cyfrifoldebau rheoli risg drwy bolisïau a gweithdrefnau clir.

Mae ein dull o reoli risg yn cael ei dywys gan arferion gorau a gymeradwyir gan y Sefydliad Rheoli Risg ac yn unol ag ISO 31000. Dilynnwn egwyddorion rheoli risg 'PACED' yn ogystal â'r safonau rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys y canllawiau yn Elusennau a Rheoli Risg (CC26).

Dilynnwn broses pedwar cam o adnabod, asesu, rheoli a monitro ein risg yn barhaus. Mae hyn yn ein helpu i

gyflawni ein hamcanion strategol, gwella ein perfformiad a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn mor effeithiol â phosib ac yn rhoi'r gwerth gorau.



Ymrwymwn i barhau i wella ein prosesau rheoli risg ac yn 2022/23 fe wnaethom ymgorffori data ar risg wrth adrodd ar ein cynllun busnes chwarterol i'r Bwrdd, a chyflwyno trafodaethau gweithredol o risgiau newydd gyda'r Bwrdd a'r uwch dîm arweinyddiaeth ar ddechrau ein proses gynllunio flynyddol.

## Atebolrwydd clir

Mae ein Polisi Rheoli risg yn disgrifio strwythur llywodraethu clir gyda rolau a chyfrifoldebau diffiniedig ar gyfer rheoli risg.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n bennaf gyfrifol am reoli risg a sicrhau bod system effeithiol o fesurau rheoli mewnol yn ei lle.

Cefnogir hyn gan weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n adolygu cofrestr risg yr elusen yn rheolaidd a goruchwyllo'r gweithgareddau archwilio a rheoli risg, gan gynnwys darparu'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol.

## Yr amgylchedd risg

### Y cyd-destun sefydliadol

Gwarchodwn a chefnogwn blant, pobl ifanc a theuluoedd – mae eu diogelwch yn flaenoriaeth i ni. Ar draws y sefydliad, gweithiwn yn barhaus i wella ein harferion gwaith ac i ddysgu gwersi o'n llwyddiannau ac o'r heriau a wynebwn. Defnyddiwn hefyd dechnoleg i wneud ein prosesau'n fwy effeithlon a thrylwyr, gan gynnwys gweithredu system gyllid a phobl newydd.

Mae rhai o'n gwasanaethau, wrth natur, yn digwydd mewn amgylchedd o risg uchel. Gwyddom na allwn ddileu risg yn llwyr o'n gweithgareddau rheng flaen ond ceisiwn leihau risg gymaint â phosib i gadw ein pobl a'n defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel.



Er mwyn cefnogi ein penderfyniadau risg, rydym yn esblygu ein datganiad parodrwydd risg i gydnabod amrywiadau yn ein parodrwydd risg ar draws gwahanol weithgareddau.

Mae ein hincwm yn dibynnu ar gontractau llywodraeth a rhoddion gwirfoddol. Mae natur y ffynonellau incwm hyn, mewn amgylchedd cystadleuol wedi'i reoleiddio'n drylwyr iawn, yn cynyddu'r ansicrwydd y gweithredwn ynddo.

Mae ein pobl yn greiddiol i'n gwaith a darparu ein gwasanaethau hanfodol yn dibynnu arnynt. Ymfalchiwn yn fawr iawn yn ein staff profiadol, ymroddedig a phenderfynol a weithiodd yn ddiflino i gefnogi teuluoedd drwy gydol y pandemig ac sy'n parhau i'w cefnogi yn ei sgîl a nawr gyda'r argyfwng costau byw. Mae eu lles, iechyd a'u diogelwch wrth galon ein hymdrechion i reoli risg a'n Strategaeth Lles 2020-23.

Mae rheoli risg yn effeithiol o ran recriwtio, cadw a gwobrwyo staff yn flaenoriaeth i ni, gan gynnwys cynladwyedd ein costau cyflogau.

### **Amgylchedd allanol anwadal**

Mae'r amgylchedd allanol yn parhau i fod yn heriol, gyda nifer o risgiau cysylltiedig sylweddol. Mae'r rhagolygon economaidd yn parhau i fod yn risg i ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb wrth i'r argyfwng costau byw gynyddu'r galw am wasanaethau, chwyddiant cyflogau a chostau uwch mewn gwariant arall fel ynni. Ar yr un pryd mae pwysau ar arian cyhoeddus yn cyflwyno risg o dderbyn llai o arian i wasanaethau plant.



Mae ein rhanddeiliaid, partneriaid a llywodraeth leol yn wynebu heriau tebyg ac ymgyrchwn, gyda'n gilydd lle y gallwn, i dynnu sylw at fylchau yn ein cyllid.

Dros y 12 mis diwethaf, mae ein huwch dîm arweinyddiaeth wedi monitro a rheoli'n ofalus y risgiau a gyflwynir gan yr argyfwng costau byw a digwyddiadau allanol eraill fel costau rhedeg uwch neu gynyddol, toriadau pŵer posib, effeithiau'r pandemig a marchnad lafur heriol y DU.

Rydym yn parhau i fod yn effro i arwyddion o risg uwch gan gynnwys y rhagolygon o ran cyflenwadau / prinder ynni yn ystod gaeaf 2023/24 a newidiadau i'r tirlun cyllido a marchnad lafur y DU. Rydym wedi gweithredu mesurau lliniaru i leihau effaith y senarios hyn a sicrhau ein bod yn fwy parod i'w hwynebu. Hefyd o bryd i'w gilydd, profwn ein trefniadau parhad busnes gan ddefnyddio'r ymarferion hyn i wella ein prosesau a'n gwydnwch.

Mae'r Bwrdd a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn parhau i fonitro ein sefyllfa fel y gallwn ymateb i effeithiau mwy hirdymor a risgiau allanol newydd.

## Y prif risgiau

Disgrifiwn y prif risgiau i'n hamcanion strategol isod. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n bennaf gyfrifol am reoli risg o bob math, ac os oes gan un o is-bwyllgorau'r Bwrdd gyfrifoldebau ychwanegol, mae hyn yn cael ei nodi.

Risg	Mesurau lliniaru	Atebolrwydd a throsolwg
<p><b>Darparu'r Strategaeth</b></p> <p>Risg nad yw blaenoriaethu adnoddau a / neu seilwaith gweithredol yn cefnogi neu'n gyson â darparu cenhadaeth ac amcanion strategol Gweithredu dros Blant.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'r amcanion strategol wedi cael eu diffinio a'r Strategaeth wedi'i chyfathrebu'n glir i'r holl staff.</li> <li>- Mae cynlluniau busnes wedi cael eu datblygu ar lefel sefydliadol ac mewn ardaloedd lleol, yn disgrifio blaenoriaethau'r flwyddyn i ddod ynghyd â cherrig milltir a metrigau cysylltiedig. Mae cynnydd ein cynlluniau busnes ac amcanion strategol yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r Bwrdd i sicrhau ein bod ar darged.</li> <li>- Mae gan brosiectau allweddol y cynllun busnes fyrdau rhaglen sy'n gyfrifol am gadw trosolwg ac uwchgyfeirio problemau i'r uwch dîm arweinyddiaeth.</li> <li>- Mae proses gynllunio 2023/24 wedi'i gweu o gwmpas yr amcanion strategol ac yn cynnwys asesiad o'r prif risgiau.</li> </ul>	<p><b>Yn atebol:</b> Prif Weithredwr</p> <p><b>Trosolwg gan:</b> Pwyllgor Archwilio a Risg</p>
<p><b>Diogelu</b></p> <p>Gall plant a phobl ifanc a gefnogwn gael niwed o ganlyniad i'n gweithredu neu ddiffygy gweithredu</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Fframwaith diogelu cynhwysfawr gan gynnwys polisiau, gweithdrefnau, dulliau adrodd a chanllawiau ategol clir.</li> <li>- Tîm Diogelu dynodedig wedi'i arwain gan y Cyfarwyddwr Diogelu sy'n adrodd yn uniongyrchol i Reolwr-Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant ynghyd â 'llinell adrodd' ychwanegol i'r ymddiriedolwr diogelu dynodedig.</li> <li>- Mesurau rheoli a threfniadau trosolwg llym ar gyfer goruchwyllo staff sy'n gweithio gyda phlant. Cefnogir yr ymdrechion hyn gan ein Tîm Diogelu dynodedig ynghyd â mesurau archwilio 'ail linell' a'n gweithdrefnau 'Recriwtio Mwy Diogel'.</li> <li>- Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Plant, dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn monitro a chadw trosolwg ar weithgareddau diogelu.</li> <li>- Mae gweithdrefnau chwythu'r chwiban a digwyddiadau difrifol yn sicrhau adrodd ac ymchwilio'n drylwyr i bob digwyddiad difrifol ac Adroddiadau Rhag-rybudd Cynnar yn ein helpu i leihau digwyddiadau difrifol.</li> <li>- Mae mesurau diogelu allweddol yn cael eu harchwilio'n fewnol o bryd i'w gilydd i roi sicrwydd annibynnol.</li> <li>- Hyfforddiant diogelu gorfodol ffurfiol i'r holl staff ac ymddiriedolwyr, wedi'i ategu gan ganllawiau a sesiynau Holi ac Ateb misol byw i'r holl staff ar wahanol bynciau diogelu.</li> </ul>	<p><b>Yn atebol:</b> Rheolwr-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant</p> <p><b>Trosolwg gan:</b> Pwyllgor Gwasanaethau Plant, Prif Weithredwr</p>

Risg	Mesurau lliniaru	Atebolrwydd a throsolwg
<p><b>Pobl a galluedd</b> Risg o fethu â denu, recriwtio a chadw digon o staff a sgiliau, gan arwain at fylchau mewn galluedd a chapasiti a allai ein hatal rhag darparu ein hamcanion a'n gwasanaethau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- System recriwtio mewnol gyda dangosyddion KPI clir sy'n cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Recriwtio a'u cynnwys mewn adroddiad Pobl chwarterol i'r uwch dîm arweinyddiaeth, gyda diweddariadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Plant, y Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau, ac i'r Bwrdd.</li> <li>- Arfarniadau perfformiad rheolaidd a rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i gefnogi datblygiad ein staff ynghyd â Fframwaith Cymwyseddau Rheoli ac adnoddau i gynorthwyo arweinwyr a rheolwyr gyda'u datblygiad yn ogystal â datblygiad eu timau.</li> <li>- Fframwaith cynhwysfawr o bolisiau, prosesau, adnoddau a rhwydweithiau staff i gefnogi dysgu a datblygiad staff – i gyd-fynd â safonau ac achrediadau allanol fel Buddsoddwyr mewn Pobl – Arian; statws cyflogwr Hyderus o ran Anabledd; Buddsoddwyr mewn Pobl Ifanc – Platinwm; Cyflogwr Cyfeillgar i Rai sy'n Gadael Gofal – Partner Aur.</li> <li>- Strategaeth Lles 2020-23 gyda chynllun gweithredu fesul blwyddyn i gefnogi iechyd a lles pawb yn Gweithredu dros Blant.</li> </ul>	<p><b>Yn atebol:</b> Cyfarwyddwr Cyllid</p> <p><b>Trosolwg gan:</b> Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau, Prif Weithredwr</p>
<p><b>Cynladwyedd ariannol</b> Risg o fethu â sicrhau cynladwyedd ariannol hirdymor a / neu o ddarparu gwasanaethau o ansawdd gyda'r cyllid sydd ar gael.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Fframwaith trylwyr o fesurau rheoli ac adrodd ariannol yn ei le i hwyluso rheoli gwariant; monitro ein sefyllfa a'n hylifedd ariannol a glynu wrth ein Polisi Ariannol Wrth Gefn; a monitro ac adrodd yn barhaus ar berfformiad a chylch bywyd ein datblygiadau busnes. Defnyddiwn hefyd fodelu ariannol gan adolygu ein rhagolygon a rhagdybiaethau'n rheolaidd.</li> <li>- Mae Prosiect Rheoli Contractau ar waith i gryfhau ein prosesau rheoli contractau gan gynnwys prosesau i benderfynu ar, a monitro, costau darparu gwasanaethau.</li> <li>- Mae gennym strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â'r diffyg pensiynau erbyn 2029. Mae glynu wrth strategaeth fuddsoddi'r gronfa bensiynau'n lleihau risg i rwymedigaethau ac asedau pensiwn Gweithredu dros Blant.</li> <li>- Sicrwydd ar ein sefyllfa ariannol a busnes hyfyw ac archwiliadau mewnol ar sail risg o'n mesurau rheoli ariannol; ynghyd â gweithredu argymhellion yr archwilwyr wrth iddynt godi i gryfhau ein mesurau rheoli ariannol.</li> </ul>	<p><b>Yn atebol:</b> Cyfarwyddwr Cyllid</p> <p><b>Trosolwg gan:</b> Pwyllgor Cyllid, Prif Weithredwr</p>



Risg	Mesurau lliniaru	Atebolrwydd a throsolwg
<p><b>Adeiladau Diogel</b> Risg o fethu â sicrhau amgylchedd diogel a chydymffurfiol ar gyfer ein holl bobl a defnyddwyr gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynllun gweithredu i roi sylw i broblemau rheoli eiddo hysbys ac i gryfhau prosesau a threfniadau adrodd.</li> <li>- Timau lechyd a Diogelwch ac Eiddo arbenigol, gyda throsolwg gan ein Pwyllgor lechyd a Diogelwch dynodedig, i gefnogi rheoli risg yn effeithiol a chadw staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr ein gwasanaethau a'n hadeiladau'n ddiogel.</li> <li>- Adolygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) lechyd a Diogelwch gyda diweddariadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Plant a throsolwg chwarterol ar adrodd lechyd a Diogelwch gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.</li> <li>- Hyfforddiant lechyd a Diogelwch blynyddol gorfodol i'r holl staff, a chyrtsiau ychwanegol yn ofynnol i swyddi gyda phroffil risg uwch.</li> <li>- System adrodd lechyd a Diogelwch i gofnodi asesiadau risg, digwyddiadau a digwyddiadau bron-iawn.</li> </ul>	<p><b>Yn atebol:</b> Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant</p> <p><b>Trosolwg gan:</b> Pwyllgor Archwilio a Risg; Pwyllgor Gwasanaethau Plant; Prif Weithredwr</p>
<p><b>Diogelwch gwybodaeth a seiber-ddiogelwch</b> Risg o fethiannau diogelu data neu ddiogelwch gwybodaeth sylweddol, gan gynnwys seiber-ymosodiad sy'n arwain at dor-data, tarfu ar fusnes, difrod i enw da a / neu golled ariannol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae strwythurau diogelwch gwybodaeth a llywodraethu data yn eu lle i reoli mesurau a rhaglenni diogelwch gwybodaeth a diogelu data.</li> <li>- Mae diogelwch gwybodaeth a diogelu data yn rhan o gynefino a hyfforddiant gorfodol i'n holl staff a gwirfoddolwyr, a chydymffurfio'n cael ei fonitro a'i adrodd.</li> <li>- Mae diogelwch yn cael ei gryfhau drwy ein Canolfan Gweithredu Diogelwch, profion hacio rheolaidd, System Rheoli Tor-Diogelwch, wrth-gefnu data, patsio meddalwedd, a thrwy ddilyn egwyddorion diogel-drwy-ddyluniad i leihau'r risg o ymosodiadau gwybodaeth a seiber-ddiogelwch.</li> <li>- Mae gennym achrediad Cyber Essentials Plus ac yn cydymffurfio â Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu.</li> </ul>	<p><b>Yn atebol:</b> Cyfarwyddwr Cyllid</p> <p><b>Trosolwg gan:</b> Pwyllgor Archwilio a Risg, Prif Weithredwr</p>
<p><b>Enw da</b> Risg o fethu â gwarchod enw da'r elusen a / neu o reoli effaith digwyddiadau difrifol neu broffil uchel ar ein henw da.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae cynlluniau cyfathrebu'n ymgysylltu a rhannu negeseuon pwysig â'n prif randdeiliaid gan gynnwys undebau llafur, ein rhoddwyr, comisiynwyr a rheoleiddwyr.</li> <li>- Mae ein Fframwaith Polisi Gweithredu'n sicrhau bod y prif bolisiâu'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n barhaus, gan gynnwys: Fframwaith Moesegol; Cwynion; Diogelu Data; Diogelu; Parhad Busnes; Adrodd Digwyddiadau Difrifol; a Chwythu'r Chwiban.</li> <li>- Mae'r Polisi Derbyn a Gwrthod Rhoddion yn craffu ar roddion mawr cyn eu derbyn. Mae'r Polisi Cod Ymddygiad yn trafod ymddygiad wrth gynrychioli'r elusen. Rheolir ein perthnasoedd â sebls yn ofalus i sicrhau eu bod yn gyson â gwerthoedd yr elusen.</li> </ul>	<p><b>Yn atebol:</b> Rheolwr Gyfarwyddwr Codi Arian, Cyfathrebu a Pholisi</p> <p><b>Trosolwg gan:</b> Pwyllgor Archwilio a Risg, Prif Weithredwr</p>

# Strwythur cyfreithiol a llywodraethu

## Llywodraethu yn Gweithredu dros Blant

### **Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am lywodraethu, cadw trosolwg ar berfformiad ac am roi cyfeiriad strategol.**

Dan arweiniad ein Cadeirydd, Sarika Patel, yr ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, adolygwn sut y gweithredwn yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Rydym yn ymrwymedig i'r arferion gorau a'r safonau llywodraethu uchaf. Rydym yn monitro ein ffyrdd o weithio yn erbyn saith egwyddor y Cod Llywodraethu ar gyfer Elusennau.

Mae ein fframwaith llywodraethu'n cefnogi ein hamcanion strategol i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion. Ein pwrpas elusennol sy'n ein gyrru.

### **Ein Bwrdd Ymddiriedolwyr**

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 10 ymddiriedolwr, a restrir ar dudalen 96. Mae'r Bwrdd yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn ac yn cynnal cyfarfodydd ad-hoc achlysurol pan fo angen. Mae ymddiriedolwyr yn ymweld â gwasanaethau i ennill dealltwriaeth well o'n gwaith a'r gwahaniaeth a wnawn i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae ein hymddiriedolwyr yn rhoi eu hamser yn wirfoddol heb unrhyw gydnybuddiaeth ariannol na manteision gan Gweithredu dros Blant.

Maen nhw'n gwneud hyn oherwydd eu bod yn credu yn ein gwaith ac eisiau gwneud gwahaniaeth.

### **Board effectiveness**

Penodir pob ymddiriedolwr ar sail eu profiad a'u sgiliau sy'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol. Ceisiwn ddenu ystod eang o ymgeiswyr. Mae'r broses benodi'n drylwyr ac yn cynnwys cyfweiliadau gan bobl ifanc o'n gwasanaethau, gwiriadau diwydrwydd dyladwy a chymorth y Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau'r Bwrdd. Ceisiwn adlewyrchu amrywiaeth bob tro wrth recriwtio ymddiriedolwyr.

Ar ôl eu penodi am dair blynedd, mae ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor yn mynd ar raglen gynefino i sicrhau eu bod yn deall eu rôl o dan y gyfraith elusennau a chwmnïau.

Mae gennym gysylltiadau agos â'r Eglwys Fethodistaidd. Adlewyrchir y rhain yn ein cyfansoddiad, sy'n golygu y gall yr Eglwys enwebu ymddiriedolwr. Mae gwybodaeth, arbenigedd ac argyhoeddiad ein hymddiriedolwr Methodistaidd yn eithriadol bwysig.

Pob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad o sgiliau ein hymddiriedolwyr ynghyd ag adolygiad o'i berfformiad ei hun fel Bwrdd a pherfformiad y Cadeirydd.

Gwerthuswyd y Bwrdd ym mis Medi 2022 gan gynnwys asesiad o rôl a chyfansoddiad y Bwrdd; ein strategaeth; rheoli perfformiad; rheolaeth o'r busnes; talent ac olyniaeth; buddsoddiadau; ymgysylltu â rhanddeiliaid; pwyllgorau, risgiau; ymddygiad y Bwrdd; diwylliant; ac amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r Bwrdd yn dysgu gwersi o hyn ac felly'n parhau i wella ei effeithiolrwydd.

### **Amrywiaeth a chynhwysiant**

Mae'r Bwrdd yn credu bod cydbwysedd o brofiad, sgiliau, gwybodaeth a chefnidiroedd yn rhoi amrywiaeth o wahanol safbwyntiau a gwella'r broses benderfyniadau. Pob blwyddyn, gwerthusir y penodiadau ymddiriedolwyr newydd yn erbyn sgiliau, gwybodaeth a phrofiad presennol y Bwrdd. Mae'r term 'amrywiaeth' yn cynnwys y naw nodwedd a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â gwahanol gefndiroedd, profiadau bywyd, llwybrau gyrfaal ac amrywiaeth meddwl.

Mae Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau'r Bwrdd yn talu sylw arbennig i amrywiaeth.

Ystyriwyd amrywiaeth hefyd fel rhan o'r broses flynyddol o werthuso'r Bwrdd ym mis Medi 2022. Mae gan y Bwrdd Ymddiriedolwr-Bencampwr ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant.

Gweithiwn yn galed i greu diwylliant cwbl gynhwysol. Mae ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn trafod argymhellion y Cod a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys dod yn sefydliad gwrth-hiliol. Rydym wedi gweithio gyda'n rhwydweithiau staff ar ddatblygiad y Strategaeth ac yn parhau i fonitro ei gweithrediad. Gallwch ddarllen mwy ar dudalen 36.

Credwn mewn bod yn dryloyw felly cyhoeddwn gynydd yr elusen, gan gynnwys rhannu unrhyw ddysgu, lle bo'n briodol.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae gan y Bwrdd bwyllgorau sefydlog sy'n adrodd ar faterion penodol. Mae gan bob pwyllgor gyloch gorchwyl ac yn cynnwys aelodau cyfetholedig arbenigol yn ogystal ag ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r gwaith dydd i ddydd o redeg Gweithredu dros Blant i'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm arweinyddiaeth.



Mae'r Bwrdd hefyd yn dirprwyo rhai o'i feysydd gwaith i is-bwyllgorau:

### Y Pwyllgor Cyllid

Yn cadw trosolwg ar ein sefyllfa ariannol ac yn cynnal hyfywedd tymor byr a hirdymor Gweithredu dros Blant. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar y strategaeth ariannol briodol. Mae'r Is-bwyllgor Buddsoddiadau'n ei gynorthwyo i gadw trosolwg ar fuddsoddiadau.

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Yn sicrhau ein bod yn cwrdd â'n dyletswyddau cyfrifyddu statudol a bod gennym systemau effeithiol o ran mesurau rheoli mewnol, archwilio a rheoli risg.

### Y Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau

Yn cynorthwyo i redeg y sefydliad yn effeithiol gan sicrhau safonau rhagoriaeth ac arwain ar bolisi pobl a thaliadau.


### Y Pwyllgor Gwasanaethau Plant

Yn cadw trosolwg a datblygu ansawdd, cyrhaeddiad a pherfformiad y Gwasanaethau Plant. Mae'r Pwyllgor hwn yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

### Y Pwyllgorau Cyngori Cenedlaethol

Y rhain sy'n tywys ein gwaith ym mhob gwlad a rhoi cyngor i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae'r Pwyllgorau hefyd yn ein helpu i greu cysylltiadau dwfn a pharhaol ym mhob gwlad y gweithiwn ynddi.

## Y Fframwaith Llywodraethu



## Sut y trefnwn ein gwaith

Mae gennym bedair cyfarwyddiaeth, pob un wedi'i harwain gan aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth:

- Gwasanaethau Plant.
- Codi Arian, Cyfathrebu a Pholisi.
- Pobl.
- Cyd-wasanaethau Corfforaethol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio'n agos a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i gefnogi ein gweledigaeth, cenhadaeth a'n gwerthoedd, a darparu ein Strategaeth.



# Gweithio'n gynladwy – adrodd ar garbon

## Ymrwymwn i fod yn gynladwy

Rydym wedi symud at ddarparwr ynni newydd sy'n golygu bod 100% o'r nwy a'r trydan a ddefnyddiwn yn gwbl gynladwy bellach. A daw'r holl drydan a ddefnyddiwn naill ai o solar neu wynt.

Dengys y data a adroddir yma fod ein hallyriadau wedi mynd i fyny eleni. Felly mae'n bwysig i ni egluro pam.

Yn gyntaf, rydym wedi agor adeiladau newydd a phrynu eraill fel rhan o'n rhaglen dwf. Mae'n golygu bod gennym fwy o adeiladau i'w gwresogi a'u goleuo na'r llynedd.

Yn ail, mae allyriadau ein fflyd wedi cynyddu wrth i bobl deithio mwy ar ôl codi'r holl gyfyngiadau Covid.

Ac yn olaf, roedd yn aeaf arbennig o oer y llynedd gan olygu ein bod wedi defnyddio mwy o ynni i gadw ein cartrefi plant, canolfannau a'n manau gwaith yn gynnes a diogel.

Ond rydym hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod y cynnydd hwn dan reolaeth wrth symud ymlaen:

- Bydd yn bryd adolygu ein fflyd cyn bo hir. Mae'n golygu ein bod yn defnyddio modelau hŷn o geir, faniau a bysus mini. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn ystyried opsiynau mwy cynladwy ar gyfer ein cerbydau, fel modelau hybrid.

Ffigurau defnydd ac allyriadau ar gyfer y llynedd:

Math o ynni	2022/23		2021/22	
	Defnydd	Allyriadau	Defnydd	Allyriadau
Nwy	10,217,808 KWh	1,871.49 tunnel CO2e	8,703,075 KWh	1,594.06 tunnel CO2e
Trydan	3,429,786 KWh	728.24 tunnel CO2e	2,586,682 KWh	597.78 tunnel CO2e
Fflyd	105,262 Litr	262.36 tunnel CO2e	61,253.99 Litr	150.81 tunnel CO2e
<b>Cyfanswm allyriadau</b>		<b>2,862.09 tunnel CO2e</b>		<b>2,342.65 tunnel CO2e</b>
<b>Allyriadau wedi eu gwrthbwyso drwy ailgylchu</b>		<b>628.3 tunnell CO2e</b>		<b>636.7 tunnell CO2e</b>
<b>Allyriadau net</b>		<b>2,233.79 tunnell CO2e</b>		<b>1,705.95 tunnell CO2e</b>

- Rydym yn ystyried sut y gallwn fuddsoddi mewn paneli solar ar gyfer rhai o'n hadeiladau.
- Ac rydym yn parhau i weithio gyda Turner & Townsend sydd, fel rhan o'n partneriaeth, yn ein helpu i gadw cynladwyedd wrth galon ein penderfyniadau ar gyfer ein hadeiladau. Ac rydym hefyd yn gweithio gyda nhw i wneud archwiliad o'n gwasanaethau o bersbectif amgylcheddol.

## Rhwydwaith staff Green Action

Mae ein rhwydwaith staff Green Action yn cynnig llwyfan rhannu gwybodaeth a chynhwysfawr i bobl gael rhannu a dysgu. Mae'r rhwydwaith hefyd yn gweithio i ddylanwadu ar bolisïau cynladwyedd ehangach Gweithredu dros Blant ac i annog staff i fod yn gynladwy yn y swyddfa a'r cartref. Bydd y rhwydwaith yn rhan bwysig o'n cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer rheoli allyriadau a lleihau ein hól-troed carbon.

# Dyletswyddau'r ymddiriedolwyr o dan adran 172 y Ddeddf Cwmnïau

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'i ddyletswydd o dan Adran 172 Deddf Cwmnïau 2006, sy'n cynnwys gweithredu er budd rhanddeiliaid wrth hyrwyddo llwyddiant y cwmni elusennol.

Mae'r ymddiriedolwyr, fel cyfarwyddwyr cwmni ar Gweithredu dros Blant, yn gweithredu'n unol â'r gofynion hyn ac felly'n gorfod ystyried:

- Canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniad yn y tymor hir.
- Buddiannau staff y cwmni.
- Bod angen meithrin perthynas fusnes y cwmni â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill.
- Effaith gweithgareddau'r cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd.
- Bod angen i'r cwmni gadw ei enw da am fod â safonau uchel o ran cynnal busnes.
- Bod angen gweithredu'n deg rhwng aelodau'r cwmni.

Fel rhan o'u cynefino, mae ymddiriedolwyr yn cael eu briffio ar eu dyletswyddau, a gyflawnir yn rhannol drwy'r strwythur llywodraethu ar dudalen 58.

Maen nhw'n cynnwys cofleidio ein gweledigaeth o blentynod diogel a hapus i bob plentyn yn y DU a hyrwyddo ein gwerthoedd o fod yn angerddol, uchelgeisiol, cynhwysol a chydweithredol, sydd wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio'n agos â'r uwch dîm arweinyddiaeth i sicrhau dyfodol ariannol cynaladwy i ni.

## Ymgysylltu â'n staff

Mae ymgysylltu'n rheolaidd â staff yn hanfodol. Mae'r Bwrdd a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cadw mewn cysylltiad â staff drwy gyfarfodydd tîm rheolaidd, drwy'r fewnrwyd, e-byst wythnosol a misol, a chyfarfodydd holl-staff. Cynhaliwn hefyd sioeau teithiol chwe misol i roi cyfle i bobl gael gofyn cwestiynau a rhoi adborth. Am fwy o fanylion am sut yr ymgysylltw'n â'n staff, ewch i dudalen 34.



Rydym wedi rhannu straeon newyddion da, hyrwyddo ein hÿb lles, ac annog pobl i gymryd gwyliu blynyddol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth hefyd yn briffio'r ymddiriedolwyr yn rheolaidd. Mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys:

- Dadansoddiad o'r cynllun gweithlu strategol.
- Denu ymgeiswyr a datblygu talent.
- Gwobrwo a chydabod.
- Lles ac ymgysylltu.
- Cyflogau staff.
- Ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae'r wybodaeth yma, sy'n cyrraedd y Bwrdd drwy adroddiadau i'r cyfarfodydd, yn rhoi trosolwg i'r ymddiriedolwyr ar ein diwylliant a sut y mae ymgysylltu â phobl yn effeithio ar berfformiad. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau'n adolygu adborth o arolygon staff a gwirfoddolwyr yn ogystal ag o brosiectau eraill yn ymwneud â lles yn y gwaith, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i sicrhau y tynnir sylw'r ymddiriedolwyr at unrhyw bryderon. Mae'r aelod-ymddiriedolwr ar y Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau, Lynne Atkin, yn bencampwr amrywiaeth a chynhwysiant ac yn cwrdd yn rheolaidd â grwpiau rhwydweithiau staff. Mae Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn cyfathrebu â staff drwy e-byst diweddarau.

## Ymgysylltu â gwirfoddolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y gwerth enfawr y mae gwirfoddolwyr yn ei gyfrannu at wasanaethau, prosiectau ac adrannau gan ymgysylltu â gwirfoddolwyr drwy'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol. Ym mis Mawrth 2023, cynhaliodd ein hymddiriedolwyr ddigwyddiad i gryfhau eu hymgyswllt â'n haelod-wirfoddolwyr, gyda ffocws ar eu profiad a thrwy eu diweddarau ar ein Strategaeth. Fe wnaeth hyn ein helpu i symud tuag at ein nod o 'Un Gweithredu dros Blant' a chydgyssylltu ein pwyllgorau y tu ôl i gyfeiriad teithio a blaenoriaethau cyffredin. Mae hyn yn rhoi amgyffred o'r gwaith a wnawn, ein gwasanaethau ar draws y gwledydd, a'r gwahaniaeth y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud. Mae ein gwirfoddolwyr yn derbyn cylchlythyr gwirfoddoli a chefnogaeth gan reolwyr-wirfoddolwyr sy'n cwrdd yn rheolaidd drwy ein Rhwydwaith Rheolwyr-Wirfoddolwyr (mwy am wirfoddoli ar dudalen 35).

## Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod pa mor bwysig yw ein rhanddeiliaid mewnol (staff a gwirfoddolwyr) ac allanol (plant, pobl ifanc, rhieni, ein Noddwr, y cyhoedd, rheoleiddwyr, partneriaid masnachol, y cyfryngau, awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth, elusennau, cymdeithasau plant a chyflenwyr.

Mae'r ymddiriedolwyr yn ymrwymedig i sefydlu perthynas gref â'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd a gefnogwn. Maen nhw'n gwybod y gallwn ond llenwi'r bwllch mewn bywydau drwy ymgysylltu'n effeithiol a chydweithredol a rhoi eu barn wrth galon ein gwaith.



Mae pobl ifanc a gynrychiolir ar ein Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol a'n Bwrdd Llysgenhadon Ifanc yn helpu i recriwtio ymddiriedolwyr ac uwch-aelodau staff, ac yn rhoi mewnbwn i ddylunio a darparu ein gwasanaethau ac i'n hymgyrchoedd.

Disgwylir i bob un o'n partneriaid gydymffurfio â gofynion unrhyw safonau neu gyrff masnach proffesiynol, yn ogystal â'r holl gyfreithiau, ystatudau, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol ar ddiogelu, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrthlygredd.

Mae ein Polisi Derbyn Rhoddion yn sicrhau nad ydym yn mynd yn groes i'n cenhadaeth, gwerthoedd a'n pwrpas elusennol wrth godi arian. I ddysgu mwy am sut y cydymffurfiwn wrth godi arian, ewch i dudalen 57. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd hefyd yn cael eu hyrwyddo i'n partneriaid a'n darparwyr

newydd fel eu bod yn deall dros beth y safwn fel elusen.

Diweddarwn ein hymddiriedolwyr yn rheolaidd ar faterion gweithredol, cyfathrebu, codi arian, cyfryngau a pholisi. Mae hyn yn eu helpu i ddeall effaith ein gweithgareddau a barn rhanddeiliaid.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd, yn eu cyfarfodydd Bwrdd deufisol, yn adolygu ein perfformiad ariannol a gweithredol. Nhw sy'n gyfrifol am sefydlu a chynnal system effeithiol o fesurau rheoli mewnol i adnabod, atal a rheoli risg. Maen nhw hefyd yn adolygu sut y cydymffurfiwn â'n gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

I ddysgu mwy am ein Fframwaith Rheoli Risg a sut yr ydym yn adnabod a rheoli risg yn ein holl weithgareddau, ewch i dudalen 52.



## Didwylledd

Mae fframwaith polisi moesegol y Bwrdd yn rhoi fframwaith o safonau moesegol ac egwyddorion cyffredin ar gyfer asesu buddsoddiadau, caffael, arian cyllid a / neu weithgareddau pwysig eraill, ac yn goleuo ein holl bolisiau a gweithdrefnau.

Mae ein fframwaith polisi moesegol yn ein helpu i reoli unrhyw faterion yn ymwneud â rhoddion, ein gwaith gyda chyflenwyr neu bartneriaid neu wrth benodi ymddiriedolwyr, staff a llysgenhadon.

I sicrhau ein bod yn cwrdd â safonau cyfreithiol a rhai'r sector, ni weithiwn ag unrhyw sefydliad:

- Sy'n groes i'n gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion elusennol.
- Sy'n gwrthdaro â'n hegwyddorion a pholisïau.
- Sy'n tanseilio ein gwasanaethau i blant.
- Sy'n tanseilio ein hymrwymiad i ddiogelu.
- Sy'n tanseilio ein hymrwymiad i amrywiaeth.
- Sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sy'n gwneud niwed i blant a theuluoedd.
- Sy'n trin yr amgylchedd mewn ffordd anghynladwy.
- Sy'n gwrthdaro ag egwyddorion moesegol yr NCVO ac egwyddorion y Cod Llywodraethu ar gyfer Elusennau.
- Sy'n gweithredu'n groes i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Sy'n gwrthdaro â'n gwreiddiau yn yr Eglwys Fethodistaidd.

## Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Mae gennym bolisi i ddim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth fodern. Rydym yn ymrwymedig i:

- Ymddwyn yn foesegol a didwyll yn ein holl gysylltiadau a thrafodion busnes.
- Gweithredu a gorfodi systemau a mesurau rheoli effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd yn unlle yn ein busnes na mewn unrhyw un o'n cadwyni cyflenwi.
- Bod yn dryloyw ym mhopeth a wnawn ac wrth ymdrin â chaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi, yn unol â'n dyletswydd i ddatgelu o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Gwaharddwn yn benodol ddefnyddio llafur gorfodol, dan orfodaeth neu wedi'i fasnachu, neu unrhyw un a gedwir yn gaeth neu mewn caethwasiaeth, yn oedolion neu'n blant, fel rhan o sicrhau diwydrwydd dyladwy gyda'n proses contractio.

Disgwyliwn i'n cyflenwyr ddisgwyl yr un safonau uchel gan eu cysylltiadau busnes hwythau.

I sicrhau hyn, y llynedd fe wnaethom:

- Cydymffurfio â deddfwriaeth gwrth-gaethwasiaeth a gwrth-fasnachu mewn pobl drwy weithredu prosesau ynghyd â dulliau o adrodd ac atal.
- Cynnwys cymalau templed ar y broblem fel bod ein cyflenwyr yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Mae'r rhain wedi eu hysgrifennu'n glir yn ein dogfennau caffael, gyda chyfeiriad at y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn yr Holiadur Cyn-Gymhwyso.
- Cynnwys atal caethwasiaeth fodern yn ein Fframwaith Diogelu a'n polisiau sefydliadol.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

## **Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Gweithredu dros Blant i bwrpas y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol (yn ymgorffori'r adroddiad strategol) a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolwyr yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.**

Mae'n ofynnol, o dan y gyfraith cwmnïau, paratoi datganiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith hon, mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Ymarfer Cyfrifyddu Cymeradwy'r Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol), gan gynnwys FRS 102 sef y Safon Adrodd Ariannol perthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon.

O dan y gyfraith cwmnïau ni ddylai'r ymddiriedolwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y cwmni elusennol a'r grŵp, ac o adnoddau a dderbyniwyd ac a wariwyd, gan gynnwys incwm a gwariant, y grŵp elusennol am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr:

- Dewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson.
- Cadw at ddulliau ac egwyddorion y SORP ar gyfer Elusennau (FRS 102).
- Llunio barn a gwneud amcangyfrifon cyfrifyddu rhesymol a doeth.
- Nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol ar gyfer y DU wedi cael eu dilyn, gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyro sylweddol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y grŵp yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu boddhaol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y cwmni elusennol a'r grŵp ac sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'r grŵp ac sy'n eu cynorthwyo i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (diwygiedig) a darpariaethau ein dogfennau llywodraethu.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol a'r grŵp ac yn sgîl hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau:

- Cyn belled ag y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol na w'r archwilwyr y cwmni elusennol amdani.
- Bod yr ymddiriedolwyr wedi cymryd y camau angenrheidiol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw didwylledd y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y cwmni elusennol.

Gallai deddfwriaeth y DU ar baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i'r deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill. Cymeradwywyd a llofnodwyd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (yn ymgorffori'r adroddiad strategol) ar ran yr ymddiriedolwyr ar 27 Gorffennaf 2023.



**Sarika Patel,**  
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant (y “cwmni elusenol”) a’i is-gwmnïau (y “grŵp”) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, gan gynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, Datganiad Sefyllfa Ariannol yr Elusen a’r Grŵp, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a’r nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys polisiâu cyfrifyddu allweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi’r datganiadau ariannol yw’r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu’r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102; y safon adrodd ariannol berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu Cymeradwy’r DU).

Yn fy marn i mae’r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y cwmni elusenol a’r grŵp ar 31 Mawrth 2023, ac o adnoddau a dderbyniwyd ac a wariwyd, gan gynnwys incwm a gwariant, y grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- Wedi cael eu paratoi’n briodol yn unol ag Ymarfer Cyfrifyddu Cymeradwy’r Deyrnas Unedig; ac
- Wedi eu paratoi’n unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

## Sail ein barn

Rydym wedi cyflawni ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (y DU) a’r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hyn ymhellach yn yr adran yn ein hadroddiad ar gyfrifoldebau’r Archwilydd i archwilio datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o’r grŵp yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

## Casgliadau’n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, daethom i’r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o’r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu er mwyn paratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wnaethom, ni welsom unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu sefyllfa a allai, yn unigol neu’n gyfunol, godi amheuon sylweddol am barhad y cwmni elusenol fel busnes hyfyw am gyfnod o 12 mis o leiaf oddi ar awdurdodi cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau’r ymddiriedolwyr o ran busnes hyfyw yn y rhannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae’r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad blynyddol sydd ar wahân i’r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd arnynt. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall, ac ar wahân i’r hyn a nodir yn benodol yn ein hadroddiad, ni fynegwn unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall a thrwy wneud hynny ystyried a yw’r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â’r datganiadau ariannol neu â’r wybodaeth a gefais drwy’r archwiliad, neu a yw’n ymddangos fel arall i fod yn cam-ddatgan rhywbeth pwysig. Os byddwn yn adnabod unrhyw anghysondebau sylweddol o’r fath, neu gamddatganiad pwysig ymddangosiadol, mae’n ofynnol i ni benderfynu a yw hynny’n achosi camddatganiad pwysig yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os casglwn, ar sail ein gwaith, bod y wybodaeth yma’n gamddatganiad pwysig, mae’n ofynnol i ni adrodd hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i’w adrodd yn y cyswllt hwn.



## **Barn am faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006**

Yn ein barn ni ac ar sail y gwaith a wnaethom fel rhan o'n harchwiliad:

- Mae'r wybodaeth yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd yn unol â'r gyfraith cwmnïau, am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- Mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi eu paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## **Materion sy'n rhaid i ni adrodd arnynt fel eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i amgylchedd a gasglwyd fel rhan o'n harchwiliad, nid ydym wedi adnabod unrhyw gamddatganiad pwysig yn yr adroddiad strategol nac adroddiad y cyfarwyddwyr fel rhan o adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol sy'n ofynnol i ni eu hadrodd o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 os, yn ein barn i:

- Nid yw'r rhiant-gwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddu boddhaol; neu
- Nid yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni'n gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni diwedd blwyddyn; neu

- Nid yw taliadau ymddiriedolwyr sy'n gyfreithiol ofynnol eu datgan wedi cael eu datgan; neu
- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

## **Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar dudalen 63, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar y cwmni elusennol o dan y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am unrhyw fesurau rheoli mewnl sydd ym marn yr ymddiriedolwyr angen eu cymryd i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gam-ddatganiad pwysig, p'un ai drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu a allai'r cwmni elusennol barhau fel busnes hyfyw gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, unrhyw faterion busnes hyfyw a defnyddio'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu oni bai fod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu 'datod' y cwmni elusennol neu ddod â'i waith i ben, neu heb ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

## **Cyfrifoldebau'r Archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw ennill sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol, yn gyffredinol, yn rhydd o gam-ddatganiad pwysig p'un ai drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu'n llwyr fod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (y DU) yn gallu canfod camddatganiad pwysig bob tro.

Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod o bwys os gellir disgwyl yn rhesymol i'r camddatganiadau, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wnaed gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Dyluniwn ein gweithdrefnau'n unol â'n cyfrifoldebau uchod, er mwyn canfod unrhyw gamddatganiadau pwysig o ran anghysondebau, gan gynnwys twyll. Disgrifiwn isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod unrhyw anghysondebau, gan gynnwys twyll.

Rhoddir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **[frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://frc.org.uk/auditorsresponsibilities)**. Mae'r disgrifiad yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

## **I ba raddau yr ystyriwyd y gallai'r archwiliad ganfod anghysondebau, gan gynnwys twyll**

Mae anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym wedi adnabod ac asesu'r risg o gamddatganiadau pwysig oherwydd anghysondebau yn y datganiadau ariannol, p'un ai drwy dwyll neu wall, ac wedi eu trafod rhwng aelodau'r tîm archwilio. Fe wnaethom wedyn ddylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hynny gan gynnwys casglu tystiolaeth archwilio ddigonol a phriodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

Enillwyd dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol y mae'r cwmni elusennol a'r grŵp yn gweithredu o fewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol ar benderfynu'r symiau a datgeliadau pwysig yn y datganiadau ariannol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau 2011 a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, ynghyd â'r SORP Elusennau (FRS 102). Fe wnaethom asesu a oedd yr elusen yn cydymffurfio fel sy'n ofynnol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn drwy ein gweithdrefn o archwilio eitemau perthynol yn y datganiadau ariannol.

Ystyriwyd hefyd ddarpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai cydymffurfio â nhw fod yn sylfaenol i weithrediad y cwmni elusennol a'r grŵp neu er mwyn osgoi cosb sylweddol.

Fe wnaethom hefyd ystyried unrhyw gyfleoedd a chymhellion posib i gyflawni twyll yn y cwmni elusennol a'r grŵp. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd yn y cyd-destun hwn ar gyfer y DU oedd y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, a deddfwriaeth cyflogaeth.


Mae'r safonau archwilio'n cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol, er mwyn adnabod diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, i holi'r Ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill ac archwilio unrhyw ohebiaeth reoliadol a chyfreithiol.

Y risg fwyaf o effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol oherwydd anghysondebau, gan gynnwys twyll, oedd amseru cydnabod incwm a rheolwyr yn gwrthdroi'r mesurau rheoli. Roedd y gweithdrefnau archwilio a ddefnyddiwyd i ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys holi rheolwyr, archwilwyr mewnol, cynghorwyr cyfreithiol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am eu gwaith yn adnabod ac asesu risg o anghysondebau, profi sampl o gofnodion ariannol, adolygu'r amcangyfrifon cyfrifyddu am 'ogwydd' y naill ffordd neu'r llall, adolygu gohebiaeth reoliadol â'r Comisiwn Elusennau, a darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd y cyfyngiadau annatod sydd ar archwiliad, mae peth risg na ellir ei hosgoi na fyddwn efallai wedi canfod rhai camddatganiadau pwysig yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chyflawni ein harchwiliad yn gwbl briodol ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu. Er enghraifft, y pella'n byd yw unrhyw ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau (anghysondebau) o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw'r gweithdrefnau annatod gyfyngedig o dan safonau archwilio o'i adnabod. Hefyd, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o hyd o beidio â gallu canfod anghysondebau oherwydd gallai'r rhain gynnwys cyd-gynllwynio, ffugio, hepgor yn fwriadol, ffug-ddatgan neu wrthdroi mesurau rheoli mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

## Defnyddio ein hadroddiad

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn yn llwyr ar gyfer aelodau'r cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Phennod 3 Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi'i gyflawni fel y gallwn ddatgan i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny sy'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir o dan y gyfraith, ni dderbyniwn ac ni chymerwn gyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn na'r farn a luniwyd gennym.



## Naziar Hashemi Uwch Archwilydd Statudol

Dros ac ar ran  
**Crowe UK LLP**  
Archwilydd Statudol

Llundain

27 Medi 2023

4.2 miliwn  
o blant yn byw  
mew tlodi yn y DU

anfanteision mawr  
deulys

toriadau  
caledi

plant yn mynychu  
y niwed  
tawel

mwy o bobl yn cael

flaen

u

l i gyd i b

yau'n

ein

y dod

# Datganiau dau ariannol

dau iechyd meddwl



## Datganiad cyfunol o'r gweithgareddau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

(yn ymgorffori'r cyfrif incwm a gwariant)

	Notes	Cyfanswm arian			Arian cyfyngedig		Cyfanswm cronfeydd ariannol 2023	Cyfanswm arian			Restricted funds		Cyfanswm cronfeydd ariannol 2022
		Cyffredinol	Arian wedi'i ddynodi	anghyfyngedig	Pwrpas penodol	Arian gwaddol		Cyffredinol	Arian wedi'i ddynodi	anghyfyngedig	Pwrpas penodol	Arian gwaddol	
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
<b>Incwm ac arian gwaddol</b>													
<b>Incwm o roddion ac arian ewylllys</b>	3	12,544	-	12,544	6,030	-	18,574	9,922	-	9,922	6,313	-	16,235
<b>Incwm o fuddsoddiadau</b>		1,250	-	1,250	92	-	1,342	842	-	842	77	-	919
<b>Incwm o weithgareddau elusennol:</b>													
Cymorth i Deuluoedd		31,701	-	31,701	21	-	31,722	30,572	-	30,572	-	-	30,572
Plant mewn Gofal		34,989	-	34,989	159	-	35,148	27,291	-	27,291	-	-	27,291
Plant a Phobl Ifanc Anabl		26,637	-	26,637	100	-	26,737	36,089	-	36,089	-	-	36,089
Iechyd Meddwl a Lles		36,146	-	36,146	104	-	36,250	31,455	-	31,455	-	-	31,455
		129,473	-	129,473	384	-	129,857	125,407	-	125,407	-	-	125,407
<b>Incwm arall</b>													
Colled net ar waredu (gwerthu) asedau sefydlog		14	-	14	-	-	14	(27)	-	(27)	-	-	(27)
Grantiau llywodraeth								114		114			114
<b>Cyfanswm incwm ac arian gwaddol</b>		<b>143,281</b>	<b>-</b>	<b>143,281</b>	<b>6,506</b>	<b>-</b>	<b>149,787</b>	<b>136,258</b>	<b>-</b>	<b>136,258</b>	<b>6,390</b>	<b>-</b>	<b>142,648</b>
<b>Gwariant</b>													
<b>Gwariant ar godi arian</b>	4,5	6,329	-	6,329	-	-	6,329	5,311	-	5,311	-	-	5,311
<b>Gwariant ar weithgareddau elusennol</b>													
Cymorth i Deuluoedd		35,063	-	35,063	1,473	-	36,536	32,239	-	32,239	1,325	-	33,564
Plant mewn Gofal		34,658	-	34,658	2,220	-	36,878	27,361	-	27,361	329	-	27,690
